## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN



# Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol

## Gorffennaf 2013

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN**

# STRATEGAETH RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD LLEOL

## Cynnwys


1 Crynodeb Gweithredol

2 Cyflwyniad

3 Yr Awdurdodau Rheoli Perygl yn Ardal yr Awdurdod Lleol

4 Swyddogaethau Rheoli Perygl Llifogydd y gellir eu hymarfer gan yr Awdurdodau Rheoli Perygl o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

5 Yr amcanion ar gyfer rheoli Perygl Llifogydd Lleol

6 Y mesurau a gynigir i gyflawni'r amcanion

7 Sut a phryd y disgwylir gweithredu'r mesurau

8 Costau a buddiannau'r mesurau hynny, a sut telir amdanynt

9 Asesu'r Perygl Llifogydd Lleol i ddibenion y Strategaeth

10 Sut a phryd y bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu

11 Sut mae'r Strategaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach


## Atodiadau


A Strategaeth Genedlaethol

B Setiau Data sydd ar gael ar wefan DataShare Asiantaeth yr Amgylchedd

C Polisïau, Rheoliadau a Deddfwriaeth sy'n berthnasol

CH Cyfathrebu gyda'r cyhoedd, cynyddu ymwybyddiaeth ac annog Arweinyddiaeth Leol

D Geirfa Dermau a ddefnyddir yn y Canllawiau


## Ychwanegiadau


1 Rhestr o ddogfennau a ystyriwyd

2 Ymgynghoriadau

3 Ardal Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Sgwariau Gleision ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# STRATEGAETH RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD LLEOL

## 1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Daeth y Rheoliadau Perygl Llifogydd i rym ym mis Rhagfyr 2009 a daeth Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn gyfraith ym mis Ebrill 2010. Dan y Ddeddfwriaeth hon, adnabuwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (CBST) fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALlLlA) ac mae wedi cael nifer o gyfrifoldebau allweddol.

1.2 Diben y Rheoliadau Perygl Llifogydd yw trosi Cyfarwyddeb Llifogydd Comisiwn Ewrop (CE) (2007/60/EC), ar asesu a rheoli perygl llifogydd lleol, yn gyfraith ddomestig yng Nghymru a Lloegr a gweithredu ei darpariaethau.

Yn benodol, mae'n rhoi dyletswydd ar yr ALlLlA i baratoi nifer o ddogfennau gan gynnwys:-

1 Adroddiad Asesu Rhagarweiniol Perygl Llifogydd – 22ain Mehefin 2011
Cwblhawyd, cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru a'i anfon i'r UE

2 Mapiau Peryglon Llifogydd a Risg Llifogydd i'w cwblhau erbyn 22ain Mehefin 2015

3 Cynllunau Rheoli Perygl Llifogydd i'w cwblhau erbyn 22ain Mehefin 2015

1.3 At hyn, rhaid i CBST ddatblygu, cynnal, defnyddio a monitro Strategaeth ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd Lleol. Mae'r ddogfen hon – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd – yn ymdrechu i fodloni'r gofynion hyn yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

Mae'r adrannau yn y Strategaeth hefyd yn delo â'r 9 maes allweddol sydd wedi eu hadnabod yn y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010:

1 yr Awdurdodau Rheoli Perygl yn ardal yr Awdurdod Lleol;

2 y swyddogaethau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol y gellir eu hymarfer gan yr Awdurdodau hynny mewn perthynas â'r ardal;

3 yr amcanion ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd Lleol;

4 y mesurau a gynigir i gyflawni'r amcanion hynny;

5 sut a phryd y disgwylir gweithredu'r mesurau hynny;

6 costau a manteision y mesurau hynny, a sut telir amdanynt;

7 asesu'r Perygl Llifogydd Lleol i bwrpas y strategaeth;

8 sut a phryd y mae'r Strategaeth i'w hadolygu, a

9 sut mae'r Strategaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach.

1.4 Nodwyd y fethodoleg ar gyfer adnabod Perygl Llifogydd a lefel y risg yn ardal CBST yn yr Asesiad Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd (ARhBl) fel a ganlyn:

Methodoleg

Mae'r fethodoleg yn seiliedig ar ddefnyddio'r mapiau lifogydd a gynhyrchwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) i adabod sgwariau 1km lle mae'r Perygl Llifogydd yn uwch na throthwy a ddiffinnir. Gelwir y sgwariau hyn yn Ardaloedd uwchben Trothwy Perygl Llifogydd (a ddynodir gan 'Sgwariau Gleision'). Mae Dangosyddion Allweddol Perygl Llifogydd a'u Trothwy fel a ganlyn:

1 o leiaf 200 o bobl

2 o leiaf 20 busnes

3 2 wasanaeth critigol neu fwy

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) wedi adnabod 27 sgwâr glas yn ardal CBST sy'n ardaloedd uwchben y Trothwy Perygl Llifogydd.

Mae clwstwr o'r sgwariau gleision hyn yn dangos bod ardal o Berygl Llifogydd dwys wedi ei hadnabod. Lle mae pedwar neu fwy o sgwariau gleision yn cyffwrdd mewn sgwâr 3km x 3km, mae'r ardal 3km x 3km gyfan wedi ei hystyried fel ardal a allai ffurfio rhan o Ardal Perygl Llifogydd dangosol.

Y Dangosydd Perygl Llifogydd Allweddol ar gyfer sefydlu Ardal Perygl Llifogydd dangosol yw nifer y bobl mewn perygl o gael eu heffeithio gan lifogydd. Os oes o leiaf 5,000 o bobl mewn cyfres o gridiau 3km x 3km sy'n cysylltu, fel a nodwyd uchod, yna mae Ardal Perygl Llifogydd dangosol wedi ei sefydlu.

1.5 Lefel Perygl Llifogydd

Mae cyfanswm o 30 o sgwariau gleision wedi eu hadnabod gan CBST a chan ddefnyddio'r Fethodoleg, mae 27 o'r sgwariau hyn wedi eu cynnwys o fewn yr Ardal Perygl Llifogydd o 63 $km^2$.

Gweler Ffigwr 1 Ardal Perygl Llifogydd a Sgwariau Gleision CBST

Mae'r Dangsyddion Perygl Llifogydd Allweddol ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd CBST wedi eu cyfrifo fel a ganlyn:

1 Canlyniadau i iechyd pobl -
Nifer y bobl (lluosydd 2.23) 7,542

2 Canlyniadau eraill i iechyd pobl –
Nifer gwasanaethau critigol wedi dioddef llifogydd 40

3 Canlyniadau economaidd – nifer o eiddo
amhreswyl wedi dioddef llifogydd 852

1.6 Mae CBST wedi pennu strategaeth lefel uchel fel a ganlyn:-

"Lleihau Perygl Llifogydd ym mhob un o'r ardaloedd wedi eu hadnabod fel rhai sy'n destun Perygl Llifogydd Sylweddol".

1.7 Mae CBST hefyd wedi pennu 17 o Amcanion Manwl i fodloni'r Pedwar Amcan Trosfwaol fel y nodwyd yn y Strategaeth Genedlaethol gan Lywodraeth Cymru.

Amcan Trosfwaol 1 Lleihau'r effeithiau ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;

1 Lleihau perygl i fywyd trwy leihau'r nifer o bobl sy'n agored i berygl llifogydd o ddyfnder a chyflymder arwyddocaol.

2 Lleihau tarfu ar y gymuned trwy leihau nifer yr eiddo preswyl a masnachol wedi eu heffeithio gan Berygl Llifogydd.

3 Lleihau tarfu ar seilwaith critigol neu baratoi cynlluniau i ganiatáu parhau gyda gweithredoedd.

4 Lleihau trallod trwy leihau nifer y bobl sy'n agored i Berygl Llifogydd.

5 Mabwysiadu'r agwedd ragofalus tuag at leoli datblygiad newydd mewn perthynas â Pherygl Llifogydd.

Amcan Trosfwaol 2 Cynyddu ymwybyddiaeth a chysylltu gyda phobl mewn ymateb i lifogydd

6 Darparu systemau i roddi rhybudd cynnar o lifogydd posibl i unigolion a chymunedau.

7 Darparu systemau effeithiol ar gyfer rheoli a chynnal a chadw asedau dŵr wyneb.

8 Lleihau niwed economaidd

9 Lleihau costau rheoli

Amcan Trosfwaol 3 Darparu ymateb effeithiol a chyson i lifogydd

10 Amddiffyn a gwella Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA), Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig (SCNP), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl) a Safleoedd Daearyddol Pwysig Rhanbarthol (SDPRh)

11 Cyfrannu tuag at gyflawni Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Torfaen

12 Creu sianeli naturiol a chyrff dŵr gydag addasiadau lleiaf

13 Amddyffyn a Gwella ansawdd dŵr

14 Darparu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer pob ardal sy'n destun Perygl Llifogydd

15 Sicrhau bod mesurau yn cael eu dylunio a'u hadeiladu mewn modd cynaliadwy

16 Sicrhau bod CBST yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl Bartneriaid Risg eraill a gweithio'n gydweithredol ag Awdurdodau cyffiniol

Amcan Trosfwaol 4 Blaenoriaethu buddsoddiad mewn cymunedau sydd yn y perygl mwyaf.

17 Sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi ar gyfer gweithredu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yn cael eu gwneud ar sail gyson, y gellir dibynnu arni ac yn destun dadansoddiad cost a budd

1.8 Adnabuwyd y themâu canlynol i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru:

1 cynllunio datblygu ac addasu (yn cynnwys rhai newydd ac addasiadau i ddatblygiadau / tirweddau presennol);

2 darogan llifogydd, rhybuddio ac ymateb;

3 rheoli tir, diwylliant ac amgylchedd;

4 rheoli a chynnal a chadw asedau

5 astudiaethau, asesiadau a chynlluniau

6 ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad lefel uchel (i gynyddu gwytnwch unigol a chymunedol), a

7 monitro (materion Perygl Llifogydd Lleol)

1.9 Mae pob Thema yn cynnwys nifer o fesurau a fydd yn cyfrannu tuag at amcanion y Strategaeth.

Yn eang iawn, mae'r mesurau yn syrthio i dri categori:

Mae'r mesurau wedi eu hadnabod mewn tri categori:

1 Rhwystro llifogydd

2 Bod yn barod ar gyfer llifogydd

3 Amddiffyn yn erbyn llfogydd

Mae pob mesur wedi cael amserlen ar gyfer gweithredu, fel a ganlyn:

1 Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

2 Tymor canol 20 – 50 blwyddyn

3 Tymor hir 50 – 100 blwyddyn

1.10 Newid yn yr Hinsawdd

Mae paratoi ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn her i wasanaethau cyhoeddus ac yn faes gwaith sy'n esblygu'n gyflym. Mae gweithio gyda'n gilydd i baratoi ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn faes gweithgarwch pwysig i'n helpu ni i baratoi ar gyfer y dyfodol. Bydd y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd yn ffurfio rhan bwysig o'r ymateb addasu i newid yn yr hinsawdd ar gyfer Torfaen.

## 2 Cyflwyniad

2.1 Mae Awdurdodau Lleol bob amser wedi bod â chyfrifoldebau mewn perthynas â chyrsiau dŵr cyffredin, ac yn ymarferol mae'r rhan fwyaf wedi arwain wrth ddelio â digwyddiadau llifogydd dŵr wyneb cyn y newidiadau yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Y Ddeddf). Dan delerau'r Ddeddf, maent nawr yn dod yn Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (ALlLlA) ac yn gyfrifol am yr hyn a elwir yn 'Beryglon Llifogydd Lleol'.

2.2 Diffinnir Perygl Llifogydd Lleol yn y Ddeddf fel Perygl Llifogydd yn dod o:

1. Cyrsiau dŵr cyffredin (mae hwn yn gwrs dŵr nad yw'n ffurfio rhan o brif afon ac yn cynnwys llyn, pwll neu ardal arall o ddŵr, sy'n llifo i mewn i gwrs dŵr cyffredin).

2. Dŵr ffo (glaw neu ddŵr arall sydd ar yr wyneb neu'r ddaear ac nad yw wedi mynd i gwrs dŵr, system ddraenio neu garthffos gyhoeddus).

3. Dŵr wyneb (dŵr yw hwn sydd wedi trylifo i'r ddaear a gall ffurfio pyllau a nentydd danddaear a all arllwys uwchben y ddaear ond yn is lawr yn y ddalgylch).

2.3 Mae gofyn i bob ALlLlA ddatblygu, cadw (sy'n cynnwys diweddaru ac adolygu), defnyddio a monitro defnydd strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol yn eu hardal (Strategaeth Leol). Rhaid iddynt hefyd baratoi a chyhoeddi crynodeb o'r Strategaeth Leol, gan gynnwys canllawiau ynglŷn â gwybodaeth berthnasol. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu bod pob ALlLlA yn cyhoeddi canllawiau ynglŷn â defnyddio'r Strategaeth Leol yn ei ardal.

2.4 Rheoli perygl llifogydd lleol yw cyfrifoldeb pob ALlLlA. Rhaid i'r Strategaeth Leol bennu pwy yw'r Awdurdodau Rheoli Perygl yn yr ardal a'u swyddogaethau perthnasol. Wrth ddatblygu Strategaethau Lleol, rhaid i'r ALlLlA ymgynghori â'r cyhoedd ac Awdurdodau Rheoli Perygl eraill a effeithir gan y strategaeth.

2.5 Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, fel ALlLlA rydym wedi datblygu ein Strategaeth Leol ein hunain ar y cyd â'r pedwar amcan trosfwaol ar gyfer rheoli llifogydd a risg erydu arfordirol yng Nghymru fel y nodwyd yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ac a restrir isod:-

Y pedwar amcan trosfwaol yw:

1. Lleihau'r effeithiau ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;

2 Cynyddu ymwybyddiaeth a chysylltu gyda phobl ar yr ymateb i berygl llifogydd ac erydu arfordirol;

3 Darparu ymateb effeithiol a chyson i lifogydd; a

4 Blaeoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sydd yn y perygl mwyaf.

2.6 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu tabl, a ddangosir isod, mewn perthynas â'r amcanion risg cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Fel rhan o'r strategaeth hon, rhaid i CBST ystyried amcanion dan bob un o'r tri pennawd allweddol, sy'n berthnasol i'n hardal leol.

Amcanion Rheoli Perygl Llifogydd

1 Cymdeithasol:

Lleihau trallod (nifer y bobl sy'n dioddef llifogydd)
Lleihau tarfu ar y gymuned (nifer eiddo preswyl a masnachol)
Lleihau perygl i fywyd (nifer o bobl sy'n dioddef dyfnder a chyflymder y llif)
Lleihau tarfu ar seilwaith critigol (neu gynnal gweithrediad seilwaith)

2 Economaidd:

Lleihau niwed economaidd (e.e. Niwed Blynyddol ar Gyfartaledd (NBG))
Lleihau cost rheoli (noder: canlyniad rheoli perygl i'w ddefnyddio mewn gwerthusiad)

3 Amgylcheddol:

Lleihau niwed i unrhyw Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig (SCNP), Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl) a Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol (SDPRh) neu wella safleoedd.
Gwella naturioldeb (lleihau addasu sianeli / cyrff dŵr)
Amcanion Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD): gwella ansawdd dŵr / statws ecolegol (neu beidio â dirywio) – materion llygredd hydromorffig a thryledol

2.7 Mae'r Ddeddf wedi dodi nifer o ddyletswyddau statudol ar Awdurdodau Lleol yn eu rôl newydd fel ALlLlA:-

1 paratoi strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd lleol;

2 dyletswydd i gydymffurfio gyda'r Strategaeth Genedlaethol;

3 cydweithredu ag awdurdodau lleol, gan gynnwys rhannu data;

4 dyletswydd i archwilio holl lifogydd yn ei ardal, cyn belled ag y mae'r ALlLlA yn ystyried bod hynny yn angenrheidiol neu'n briodol;

5 dyletswydd i gadw cofrestr o strwythurau a nodweddion sy'n debygol o effeithio Perygl Llifogydd, a

6 dyletswydd i gyfrannu tuag at ddatblygiad cynaliadwy.

2.8 Yn ychwanegol at y dyletswyddau hyn, mae gan bob ALlLlA nifer o bethau a elwir yn bwerau caniataol. Mae'r rhain yn bwerau sy'n eu caniatáu i wneud rhywbeth, ond nid yw'n eu gorfodi ac maent yn cynnwys:-

1 pwerau i ofyn am wybodaeth;

2 pwerau i ddynodi rhai strwythurau neu nodweddion sy'n effeithio perygl llifogydd neu erydu arfordirol;

3 ehangu pwerau i ymgymryd â gwaith i gynnwys camau rheoli perygl  ehangach, a

4 y gallu i achosi llifogydd neu erydu arfordirol dan rai amodau.

2.9 Bydd ALlLlA yng Nghymru hefyd yn cymryd rôl Corff Mabwysiadu a Chymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) mewn perthynas â systemau draenio cynaliadwy. Yn y rôl hon, byddant yn gyfrifol am gymeradwyo dyluniad gwreiddiol SDC a mabwysiadu a chynnal a chadw'r system orffenedig. Mae caniatáu gwaith mewn cyrsiau dŵr cyffredin hefyd yn cael ei drosglwyddo i'r ALlLlA o Gyfoeth Naturiol Cymru.

2.10 Mae dyrannu cyfrifoldeb am berygl llifogydd lleol yn cael ei ddyblygu yn y Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009. Mae'r Rheoliadau hyn yn dyrannu cyfrifoldeb penodol i ymgymryd ag asesiadau mewn perthynas â, a mapio a chynllunio (ar gyfer ardaloedd perygl llifogydd a adnabuwyd yn yr asesiad) ar gyfer risgiau llifogydd o bopeth ar wahân i brif afonydd, y môr a chronfeydd i'r ALlLlA.

2.11 Mae Adran 10(4) y Ddeddf yn pennu'r hyn sydd angen ei gynnwys mewn Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd  Lleol fel y rhestrir isod:-

1 yr Awdurdodau Rheoli Perygl  yn ardal yr Awdurdod Lleol;

2 y swyddogaethau theoli perygl llifogydd  ac erydu arfordirol y gellir eu defnyddio gan yr awdurdodau hynny mewn perthynas â'r ardal;

3 yr amcanion ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd  lleol;

4 y mesurau a gynigir i gyflawni'r amcanion hynny;

5 sut a phryd y disgwylir gweithredu'r mesurau;

6 cost a buddiannau'r mesurau hynny, a sut mae talu amdanynt;

7 asesiad o'r perygl llifogydd lleol i bwrpas y strategaeth;

8 sut a phryd mae'r strategaeth i'w hadolygu, a

9 sut mae'r Strategaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach.

2.12 Rhaid i'r ALILIA gyflwyno drafft wedi ei gymeradwyo o'u Strategaeth Leol ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygiad Cynaliadwy Cymru i'w harolygu, gan ganiatáu o leiaf ddau fis i gael ymateb.

Rhaid cwblhau'r Strategaethau erbyn 23ain Rhagfyr 2012 er mwyn eu cyflwyno i, a chael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Ar ôl ei derbyn, gall y Gweinidog gymeradwyo'r Strategaeth ddrafft ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig, gyda neu heb newidiadau, neu ei gwrthod.

Paratowyd y ddogfen hon gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

## 3 Awdurdodau Rheoli Perygl yn Ardal yr Awdurdod Lleol

3.1 Cyfoeth Naturiol Cymru
Prif Swyddfa
Tŷ Cambria House
29 Newport Road
Caerdydd CF24 0TP

Swyddfa Rhanbarth y De-ddwyrain
Rivers House
Parc Busnes St Mellons
Caerdydd CF3 0EY

Rhif ffôn: 08708 506506
Ebost: enquiries@environment-agency.gov.uk
Gwefan: www.environment-agency.gov.uk

Llinell Llifogydd
Rhif Ffôn: 0845 988 1188 (gwasanaeth 24 awr)
Type Talk: 0845 602 6340

3.2 Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yng Nghymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Canolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen NP4 6YB

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Adran Gwasanaethau Cymdogaeth
Adran Rheoli Rhwydwaith
Tŷ Blaen
Panteg Way
New Inn
Pont-y-pŵl NP4 0LS

Rhif Ffôn: 01495 762200
Ebost: Streetscene@torfaen.gov.uk
Gwefan: www.torfaen.gov.uk

3.3 Cwmni Dŵr
Dŵr Cymru – Welsh Water
Ffordd Pentwyn
Nelson
Treharris CF46 6LY

Rhif Ffôn Prif Swyddfa: 01443 452300
Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0800 052 0140
Gwefan: www.dwrcymru.co.uk

## 3.4 Partneriaid Risg Ychwanegol

### 3.4.1 Partneriaid Mewnol

Adran Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Tŷ Blaen
Panteg Way
New Inn
Pont-y-pŵl
Torfaen NP4 0LS

Gwasanaeth Rheoli Argyfwng Torfaen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Llawr 5
Canolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen NP4 6YB

Adran Cyllid ac Adnoddau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Canolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen NP4 6YB

Adran Adfywio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Tŷ Blaen
Panteg Way
New Inn
Pont-y-pŵl
Torfaen NP4 0LS

### 3.4.2 Partneriaid Allanol

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View
Llantrisant CF72 8LX

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
Tŷ Vantage Point
Parc Busnes Vanatage Point
Tŷ Coch Way
Cwmbrân NP44 7HF

Yr Heddlu
Pencadlys Heddlu Gwent
Croesyceiliog
Cwmbrân NP44 2XJ

Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan
Tŷ Mamhilad
Bloc A
Stad Parc Mamhilad
Pont-y-pŵl
Torfaen     NP4 0YP

Iechyd Cyhoeddus Cymru
14 Heol y Gadeirlan
Caerdydd   CF11 9LJ

Cymdeithasau Tai

Tai Cymunedol Bron Afon
William Brown Close
Parc Diwydiannol Llantarman
Cwmbrân
NP44 3AB

Melin Homes
Tŷ'r Efail
Lower Mill Field
Pont-y-pŵl
Torfaen    NP4 OXJ

Network Rail
Western House
1 Holbrook Way
Swindon    SA1 1BD

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Maes-y-Ffynnon
Penrhosgarnedd
Bangor
Gwynedd    LL57 2DW

SWTRA – Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru
12A Tŷ Llandarcy
The Courtyard
Llandarcy
Castell Nedd SA10 6EJ

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion    SY23 3UR

CADW
Uned 5-7 Cefn Coed
Nantgarw
Caerdydd

# 4 Y Swyddogaethau Rheoli Perygl Llifogydd y gellir eu defnyddio gan yr Awdurdodau Rheoli Perygl mewn perthynas â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Wrth ymarfer eu swyddogaethau rheoli perygl llifogydd neu erydu arfordirol, mae gofyn i holl Awurdodau Rheoli Perygl (ac eithrio cwmnïau dŵr) weithredu mewn modd sy'n gyson gyda'r Strategaethau Lleol a Chenedlaethol.

Wrth ymarfer unrhyw swyddogaeth arall mewn modd a all effeithio perygl llifogydd neu erydu arfordirol, rhaid i Awdurdod Rheoli Perygl yng Nghymru ystyried y Strategaethau Lleol a Chenedlaethol ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig.

Mae cydweithio effeithiol rhwng Awdurdodau Rheoli Perygl yn sylfaenol i gyflenwad effeithiol yr ymrwymiadau dan y Ddeddf. Gwerthfawrogir hyn yn y Ddeddf ei hunan trwy bennu dyletswydd i gydweithredu ar yr holl Awdurdodau Rheoli Perygl i hwyluso gwaith partneriaeth, rhannu gwybodaeth a chyfathrebu gwell.

## 4.1 Cyfoeth Naturiol Cymru

4.1.1 Mae Cyfoeth Naturiol yn gorff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru, gyda'r prif amcanion o amddiffyn a gwella'r amgylchedd, a hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

4.1.2 Yn hanesyddol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi arwain ar reoli peryglon llifogydd o'r prif afonydd a'r môr. Fodd bynnag, o ganlyniad i Ddeddf Reoli Llifogydd a Dŵr 2010, bu rhai newidiadau i rôl a chylch gorchwyl Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ychwanegol at lifogydd o'r afonydd a'r môr, mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldebau gweithredol newydd mewn perthynas ag erydu arfordirol a rôl oruchwylio ehangach ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

4.1.3 Mae'r newid hwn yn golygu bod gan Gyfoeth Naturiol Cymru rôl ddeuol:-

1. Cyfrifoldebau gweithredol am lifogydd o'r prif afonydd, y môr ac erydu arfordirol.
2. Cyfrifoldebau goruchwylio mewn perthynas â holl waith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru

4.1.4 Mae'r newid mewn goruchwyliaeth yn annatod o ran polisi cenedlaethol ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ac mae wedi ei ddatblygu i sicrhau bod gan Gyfoeth Naturiol Cymru y cylch gorchwyl i gefnogi Llywodraeth Cymru ar draws yr holl risgiau llifogydd ac erydu arfordirol sy'n effeithio Cymru.

4.1.5 Fel rhan o'i rôl oruchwylio, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru y arwain ar roddi cyngor technegol a chymorth i Awdurdodau Rheoli Perygl eraill. Byddant hefyd yn arwain ar fentrau cenedlaethol megis Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru, y rhaglen genedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth, a'r pwynt cyswllt sengl ar gyfer ymholiadau a gwybodaeth ar berygl llifogydd, sydd ar hyn o bryd yn cael ei dreialu trwy'r Gwasanaeth Rhybuddio am Lifogydd.

4.1.6 Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn rhoi nifer o ddyletswyddau statudol i Gyfoeth Naturiol Cymru gan gynnwys:

1. Cydweithredu ag awdurdodau eraill, gan gynnwys rhannu data;
2. Adrodd i'r Gweinidog ar berygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru gan gynnwys defnyddio'r Strategaeth Genedlaethol, a
3. Sefydlu'r Pwyllgorau Llifogydd ac Arfordir Rhanbarthol.

4.1.7 Cyfoeth Naturiol Cymru fydd yr unig Awdurdod Rheoli Perygl gyda'r cyfrifoldeb o fonitro ac adrodd ar weithredu'r Strategaeth Genedlaethol. Wrth ymgymryd â'r rôl hon byddant yn:

1. Casglu data ar gynnydd gan Awdurdodau Rheoli Perygl gan ddefnyddio llwybrau presennol lle bynnag y bo modd;
2. Cyflwyno gwybodaeth ffeithiol i Lywodraeth Cymru, a
3. Rhoi cyngor dehongliadol i Lywodraeth Cymru pan ofynnir am hynny.

4.1.8 Yn ychwanegol at eu dyletswyddau statudol, mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru nifer o'r hyn a elwir yn bwerau caniataol. Mae'r rhain yn bwerau sy'n caniatáu iddynt wneud rhywbeth, ond nid yw'n eu gorfodi ac maent yn cynnwys:

1. Pwerau i ofyn am wybodaeth
2. Y gallu i godi ardoll ar gyfer gwaith rheoli perygl llifogydd lleol, trwy'r Pwyllgorau Llifogydd ac Arfordir Rhanbarthol
3. Pwerau i ddynodi strwythurau neu nodweddion penodol sy'n effeithio perygl llifogydd neu erydu arfordirol
4. Ehangu'r pwerau i ymgymryd â gwaith i gynnwys camau rheoli perygl ehangach, a
5. Y gallu i achosi llifogydd neu erydu arfordirol dan amodau penodol.

4.1.9 Mae'r dyraniad newydd hwn o gyfrifoldebau hefyd yn gyson â rôl Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â Rheoliadau Rheoli Llifogydd 2009, sy'n dyrannu cyfrifoldeb penodol i ymgymryd ag asesiadau mewn perthynas â mapio a chynllunio risgiau llifogydd o brif afonydd, y môr a chronfeydd i Gyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â rhoi cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol ar y materion hyn ar lifogydd o ffynonellau eraill.

4.1.10 Dan y Rheoliadau, mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cymryd rôl asesu a chydgysylltu ar lefel genedlaethol, gan sicrhau bod yr wybodaeth gywir yn cael ei chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd.

## 4.2 Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALlLlA) Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

4.2.1 O fewn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, sefydlwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ar gyfer ei ardal weinyddol. CBST hefyd yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer yr ardal, gyda chyfrifoldeb am reoli holl briffyrdd mabwysedig nad ydynt wedi eu cynnwys o fewn yr Asiantaeth Gefnffyrdd Genedlaethol.

4.2.2 Dan delerau'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae'r ALlLlA yn gyfrifol am yr hyn a elwir yn 'berygl llifogydd lleol'. Mae hyn yn cynnwys perygl llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin, dŵr ffo a dŵr daear.

4.2.3 Mae Awdurdodau Lleol wastad wedi bod â rhai cyfrifoldebau mewn perthynas â chyrsiau dŵr cyffredin, ac yn ymarferol, Awdurdodau Lleol a arweiniodd wrth ddelio â digwyddiadau o lifogydd dŵr wyneb cyn y newidiadau yn y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Fodd bynnag, dyma'r tro cyntaf i gyfrifoldeb am berygl llifogydd yn deillio o ddŵr ffo gael ei ddyrannu i unrhyw un corff dan y gyfraith.

4.2.4 Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn rhoi nifer o ddyletswyddau statudol ar Awdurdodau Lleol yn eu rôl newydd fel ALlLlA, gan gynnwys:

1 Paratoi strategaethau rheoli perygl llifogydd lleol

2 Dyletswydd i gydymffurfio â'r Strategaeth Genedlaethol

3 Cydweithredu ag awdurdodau eraill, gan gynnwys rhannu data

4 Dyletswydd i archwilio holl lifogydd yn ei ardal, cyn belled ag y mae ALlLlA yn ystyried ei fod yn ofynnol neu'n briodol

5 Dyletswydd i gadw cofrestr o strwythurau a nodweddion sy'n deygol o effeithio perygl llifogydd, a

6 Dyletswydd i gyfrannu tuag at ddatblygiad cynaliadwy.

4.2.5 Yn ychwaneogl at y rhain, mae gan ALlLlA nifer o'r hyn a elwir yn bwerau caniataol. Mae'r rhain yn bwerau sy'n caniatáu iddynt wneud rhywbeth, ond nid yw'n eu gorfodi ac maent yn cynnwys:

1 Pwerau i ofyn am wybodaeth

2 Pwerau i ddynodi strwythurau neu nodweddion penodol sy'n effeithio perygl llifogydd neu erydu arfordirol

3 Ehangu'r pwerau i ymgymryd â gwaith i gynnwys camau rheoli perygl  ehangach, a

4 Y gallu i achosi llifogydd neu erydu arfordirol dan amodau penodol.

4.2.6 Bydd ALlLlA hefyd yn cymryd rôl Corff Mabwysiadu a Chymeradwyo SDC mewn perthynas â systemau draenio cynaliadwy. Yn y rôl hon byddant yn gyfrifol am gymeradwyo dyluniad gwreiddiol y SDC a mabwysiadu a chynnal a chadw'r system orffenedig.

4.2.7 Nodir cynnwys statudol lleiaf Strategaethau Lleol yn Adran 10 y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2910 ac mae gofyn i ALlLlA ymgynghori â'r cyhoedd wrth eu paratoi. Rhaid i Strategaethau Lleol bennu'r amcanion a'r mesurau ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol ynghyd ag amserlenni a chostau gweithredu.

4.2.8 I alluogi ALlLlA yn llawn i weithredu eu rolau a'u cyfrifoldebau newydd mewn perthynas â pheryglon llifogydd lleol, mae rhai swyddogaethau a oedd yn rhan o rôl Cyfoeth Naturiol Cymru wedi eu trosglwyddo. Mae hyn yn cynnwys (o Ebrill 2012) cymryd cyfrfoldeb am ganiatáu a thrwyddedu holl waith ar gyrsiau dŵr cyffredin.

4.2.9 Caiff dyrannu cyfrifoldeb am berygl llifogydd lleol ei ailadrodd yn y Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009.  Mae'r Rheoliadau hyn yn dyrannu cyfrifoldeb penodol i ymgymryd ag asesiadau mewn perthynas â, a mapio a chynllunio (ar gyfer ardaloedd perygl llifogydd a adnabuwyd yn yr asesiadau) ar gyfer perygl llifogydd o bopeth ac eithrio'r prif afonydd, y môr a chronfeydd i'r ALlLlA.

4.3 <u>Dŵr Cymru – Welsh Water</u>

4.3.1 Rhaid i gwmnïau dŵr, wrth ddefnyddio eu swyddogaethau rheoli perygl llifogydd  neu erydu arfordirol mewn perthynas ag ardal yng Nghymru, ystyried y Strategaethau Lleol perthnasol ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig.

4.3.2 Mae cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn gyfrifol nid yn unig am ddarparu dŵr, ond hefyd am wneud y trefniadau priodol i ddraenio dŵr budr, trin gwastraff, carthffosydd dŵr wyneb a charthffosydd cyfun. Mae ganddynt y prif gyfrifoldeb am lifogydd o systemau dŵr a charthffosiaeth, a all gynnwys llifogydd o garthffos, pibellau yn torri neu dŵr prif gyflenwad neu lifogydd a achosir gan fethiant systemau.

4.3.3 Ni wnaed unrhyw newid i'r trefniadau gweithredol ar gyfer cwmnïau dŵr a charthffosiaeth mewn perthynas â pherygl llifogydd.

4.3.4 Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn rhoi nifer o ddyletswyddau statudol i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth, gan gynnwys:

1 Dyletswydd i weithredu'n gyson â'r Strategaeth Genedlaethol;

2 Dyletswydd i ystyried cynnwys y Strategaeth Leol berthnasol, a

3 Cydweithredu ag Awdurdodau eraill, gan gynnwys rhannu data.

4.3.5 Mae gan gwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn aml wybodaeth werthfawr a allai helpu'n fawr o ran deall peryglon llifogydd a wynebir gan gymunedau ledled Cymru. Bydd angen hefyd i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth gyfrannu tuag at y gwaith o baratoi'r Strategaethau Lleol gan ALlLlA.

## 5 Yr Amcanion ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd Lleol

5.1 Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Lifogydd ac Erydu yng Nghymru – Llywodraeth Cymru – Tachwedd 2011, wedi adnabod pedwar o amcanion trosfwaol sydd angen eu trin yn yr Adroddiad Rheoli Perygl Llifogydd Lleol hwn:-

Y pedwar amcan trosfwaol: (Cymal 2.8 yn y Canllawiau)

1 Lleihau'r effeithiau ar unigolion, cymunedau, busnes a'r amgylchedd;

2 Cynyddu ymwybyddiaeth a chysylltu â phobl yn yr ymateb i berygl llifogydd ac erydu arfordirol;

3 Darparu ymateb effeithiol a chyson i lifogydd ac erydu arfordirol, a

4 Blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sydd yn y perygl mwyaf

5.2 Yn eu dogfen ganllaw Adran 3.3.6 – "Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol" – Strategaeth Leol – Tachwedd 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi rhestru amcanion mewn perthynas â pheryglon cymdeithasol, economaidd ac amgycheddol fel y gwelir isod:-

Amcanion Rheoli Perygl Llifogydd

1 Cymdeithasol:
Lleihau trallod (nifer o bobl sy'n dioddef llifogydd)
Lleihau tarfu ar y gymuned (nifer eiddo preswyl a masnachol)
Lleihau perygl i fywyd (nifer o bobl sy'n dioddef dyfnder a chyflymder y llif)
Lleihau tarfu ar seilwaith critigol (neu gynnal gweithrediad y seilwaith hwnnw)

2 Economaidd:
Lleihau niwed economaidd (e.e. Niwed Blynyddol ar Gyfartaledd (NBG)
Lleihau cost rheoli (noder: canlyniad rheoli perygl i'w ddefnyddio wrth werthuso)

3 Amgylcheddol:
Lleihau niwed i safleoedd SDdGA, SCNP, ACA, GNLl a SDPRh (neu wella safleoedd)
Gwella naturioldeb (lleihau addasu sianeli / cyrff dŵr)
Amcanion CFfD: gwella ansawdd dŵr / statws ecolegol (neu beidio â dirywio) – materion llygredd hydromorffig a thryledol

5.3 Wrth ystyried y strategaeth lefel uchel ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, ystyriwyd tri opsiwn, sef:-

Opsiynau Strategaeth Lefel Uchel

1 Gwneud Dim
O bosib, byddai mwy o risg cymdeithasol, ynghyd â chynnydd mewn niwed economaidd ac amgylcheddol.

2 Cynnal
Cadw i fyny gyda newid yn yr hinsawdd fel nad oes cynnydd net mewn perygl o lifogydd; byddai angen gwella'r seilwaith rheoli perygl llifogydd dros amser a byddai angen i bob datblygiad newydd gymryd newid yn yr hinsawdd i ystyriaeth.

3 Lleihau Perygl Llifogydd
Cymryd camau i leihau effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol oherwydd llifogydd.

5.4 Mae Cymal 3.3.4 y Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol hefyd yn nodi y dylid datblygu amcanion strategol lefel uchel o gwmpas lleihau canlyniadau llifogydd a allai fod yn andwyol i iechyd dynol, yr amgylchedd, treftadaeth ddiwylliannol, gweithgaredd economaidd ac, os ystyrir bod hynny'n briodol, ar gyfleusterau cymunedol lleol, mentrau anstrwythurol a/neu leihau tebygolrwydd llifogydd. Trwy fabwysiadu'r agwedd hon, bydd yr amcanion yn gyson â'r hyn sydd ei angen dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009 a chynorthwyo i sicrhau bod yr agwedd gyffredin hon yn cael ei chynnal ledled Cymru.

Er mwyn cydymffurfio â'r amcanion hyn a gofynion y Strategaeth Genedlaethol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi pennu ei strategaeth lefel uchel fel "Lleihau Perygl Llifogydd yn yr holl ardaloedd a adnabuwyd fel rhai sy'n destun perygl llifogydd arwyddocaol".

Gyda lefel yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, nid oes modd rhoi amcan strategol mwy pendant, ond wrth i waith modelu dŵr wyneb pellach gael ei gwblhau ynghyd â mapiau risg a pheryglon a chynlluniau rheoli perygl llifogydd, yna rhagwelir y bydd lefel wella ganrannol fanwl gywir yn cael ei phennu.

5.5 Dywed Canllawiau Llywodraeth Cymru ymhellach yr hoffai ALlLlA efallai ystyried amcanion strategol lefel uchel ac amcanion manylach, wrth ddatblygu Strategaethau Lleol.

Wrth ystyried amcanion mae CBST, fel yr ALlLlA, wedi ystyried gofynion y Strategaeth Genedlaethol ac mae nodau ac amcanion

strategol a roddir yn y Strategaeth Genedlaethol wedi eu trosi yn amcanion ystyrlon ar gyfer ardal leol Bwrdeistref Torfaen, gan ganolbwyntio ar yr elfennau Rhwystro, Amddiffyn a Pharodrwydd (gan gynnwys Addasu i'r Hinsawdd).

5.6 Amcanion Manwl

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi pennu'r amcanion manwl canlynol fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol.

5.6.1 Amcan Trosfwaol 1 – lleihau'r effeithiau ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;

1 Lleihau trallod trwy leihau nifer y bobl sy'n dioddef perygl llifogydd.
2 Lleihau tarfu ar y gymuned trwy leihau nifer yr eiddo preswyl a masnachol a effeithir gan berygl llifogydd.

3 Lleihau'r risg i fywyd trwy leihau'r nifer o bobl sy'n dioddef perygl llifogydd o ddyfnder a chyflymder arwyddocaol.

4 Lleihau tarfu ar seilwaith critigol neu baratoi cynlluniau i ganiatáu cynnal gweithrediadau.

5.6.2 Amcan Trosfwaol 2 – cynyddu ymwybyddiaeh a chysylltu â phobl mewn ymateb i lifogydd

5 Darparu systemau i roddi rhybudd cynnar o lifogydd posibl i unigolion a chymunedau.

6 Darparu systemau effeithiol ar gyfer rheoli a chynnal asedau wyneb.

7 Lleihau niwed economaidd

8 Lleihau cost rheolaeth

5.6.3 Amcan Trosfwaol 3 – darparu ymateb effeithiol a chyson i lifogydd

9 Cyfrannu i'r ymateb addasu i newid yn yr hinsawdd ar gyfer Torfaen

10 Amddiffyn a gwella Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA), Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig (SCNP), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl), a Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol (SDPRh)

11 Cyfrannu tuag at gyflenwi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

12 Creu sianeli naturiol a chyrff dŵr gyda'r addasiadau lleiaf

13 Amddiffyn a gwella ansawdd dŵr

14 Darparu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd  ar gyfer pob ardal sy'n destun perygl llifogydd

15 Sicrhau bod mesurau yn cael eu dylunio a'u hadeiladu mewn modd cynaliadwy

16 Sicrhau bod CBST yn gweithio mewn partneriaeh â holl Bartneriaid Risg eraill ac yn gweithio'n gydweithredol gydag Awdurdodau cyffiniol.

5.6.4 <u>Amcan Trosfwaol 4 – Blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sydd yn y perygl mwyaf</u>

1 Sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi ar gyfer gweithredu cynlluniau rheoli perygl llifogydd  yn cael eu gwneud ar sail gyson, y gellir dibynnu arni ac sy'n destun dadansoddiad cost a budd.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

AMCANION STRATEGAETH RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD LLEOL

| | Amcan | Cymdeithasol | Economaidd | Amgylcheddol |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Lleihau'r perygl i fywyd trwy leihau nifer y bobl sy'n agored i berygl llifogydd o ddyfnder a chyflymder arwyddocaol | √ | √ | |
| 2 | Lleihau tarfu at y gymuned rwy leihau nifer yr eiddo preswyl a masnachol sydd wedi eu heffeithio gan berygl llifogydd | √ | √ | |
| 3 | Lleihau tarfu ar seilwaith critigol neu baratoi cynlluniau i ganiatáu cynnal gweithrediadau. | √ | √ | |
| 4 | Lleihau trallod trwy leihau nifer y bobl sy'n agored i berygl llifogydd. | √ | √ | |
| 5 | Darparu systemau i roddi rhybudd cynnar o lifogydd posibl i unigolion a chymunedau. | √ | √ | |
| 6 | Darparu systemau effeithiol i reoli a chynnal asedau wyneb. | √ | √ | |
| 7 | Lleihau niwed economaidd. | √ | √ | |
| 8 | Lleihau cost rheoli. | | √ | |
| 9 | Cyfrannu tuag at ymateb addasu i newid yn yr hinsawdd ar gyfer Torfaen. | √ | √ | √ |
| 10 | Amddiffyn a gwella Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA), a Safleoedd Cadwraeth Naturiol Pwysig (SCNP) | | | √ |
| 11 | Cyfrannu tuag at gyflenwi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Bwrdeistref Sirol Torfaen. | | | √ |
| 12 | Creu sianeli naturiol a chyrff dŵr gyda'r addasiadau lleiaf | | | √ |
| 13 | Amddiffyn a gwella ansawdd dŵr | √ | | √ |
| 14 | Darparu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer pob ardal sy'n destun perygl llifogydd | √ | √ | √ |
| 15 | Sicrhau bod mesurau yn cael eu dylunio a'u hadeiladu mewn modd cynaliadwy | | √ | √ |
| 16 | Sicrhau bod CBST yn gweithio mewn partneriaeth â holl Bartneriaid Risg eraill a gweithio'n gydweithredol ag Awdurdodau cyffiniol | √ | √ | |
| 17 | Sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi ar gyfer gweithredu cynlluniau rheoli perygl llifogydd yn cael eu gwneud ar sail gyson, y gellir ei hamddiffyn ac sy'n destun dadansoddiad cost a budd. | | √ | |

## 6 Y mesurau a gynigir i gyflawni amcanion

6.1 Mae nifer o weithgareddau (a elwir yn fesurau) wedi eu hadnabod gan Lywodraeth Cymru i reoli perygl a chyflawni'r amcanion a gytunwyd. Mae'r mesurau hyn yn strwythurol ac yn anstrwythuol ar gyfer y tymor byr (0-20 blwyddyn), canol (20-50 blwyddyn) a hirach (50-100 blwyddyn). Bydd mesurau a fydd yn cyflawni manteision lluosog yn cael eu hyrwyddo ble bynnag y bo modd:

1 cynllunio ac addasu datblygiad (gan gynnwys rhai newydd ac addasu datblygiadau/tirweddau presennol);
2 darogan llifogydd, rhybuddio ac ymateb;
3 rheoli tir, diwylliant ac amgylchedd;
4 rheoli a chynnal a chadw asedau
5 astudiaethau, asesiadau a chynlluniau
6 ymwybyddiaeth lefel uchel a chyfranogiad (i gynyddu gwytnwch unigol a chymunedol), a
7 monitro (materion perygl llifogydd lleol)

Mae'r saith thema lefel uchel wedi eu hystyried yn fanwl isod

6.2 Mae'r peryglon presennol a phosibl yn y dyfodol wedi eu hasesu ac wedi eu deall i alluogi i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen reoli a chynnwys meddwl a chynllunio am addasu.

6.3 Mae'r cynlluniau canlynol wedi eu hystyried i sicrhau bod yr wybodaeth ym mhob un yn cael ei alinio gyda'r Strategaeth Leol.
Maent hefyd wedi eu defnyddio i helpu penderfynu ar fesurau wrth iddynt bennu'r cyd-destun strategol ar gyfer rheoli perygl llifogydd cyffredinol ar lefel dalgylch.

1 Adroddiad Crynodeb Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Gwy a Brynbuga – Ionawr 2010 Rheoli Perygl Llifogydd – Cyfoeth Naturiol Cymru
2 Strategaeth Rheoli Echdynnu Dalgylch Brynbuga (2006)
3 Cynllun Rheoli Echdynnu Ebw a Lwyd (2007)
4 Cynllun Rheoli Basn Afon – Ardal Basn Afon Hafren (2009)

6.4 Wrth baratoi'r adroddiad hwn, defnyddiwyd polisïau, cynlluniau a strategaethau newydd wrth adnabod mesurau.
Mae'r rhain yn cynnwys:-

1. Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (hyd at 2021), Cynllun Adnau, Datganiad Ysgrifenedig Mawrth 2011

2. Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cynllun Datblygu Lleol Torfaen (Chwefror 2011)

3. Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (hyd at 2021) Datganiad Ysgrifenedig Cynllun Adnau 2011 – Arfarniad o

Gynaliadwyedd (AG) yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) – Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Mawrth 2010 – Atkins
Atodiadau A – K

4. Asesiad Lefel Eang o Berygl Llifogydd Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (2011)

6.5 Yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, mae Ardal Perygl Llifogydd arwyddocaol wedi ei hadnabod o fewn yr ARhPLl, sy'n ofynnol dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009. Bydd y mesurau i'w hadnabod yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd dilynol yn ategu a chydfynd â'r rhai yn y Strategaeth Leol hon.

6.6 Er mwyn adnabod y mesurau, mae CBST wedi cysylltu â'r gymuned i amlinellu'r risgiau nawr ac yn y dyfodol i'r cymunedau a effeithir. Mae ymgysylltiad cymunedol wedi cynnwys mynychu cyfarfofydd Fforwm Llifogydd Lleol ac arolwg arlein trwy wefan CBST. Bydd trafodaethau yn parhau er mwyn cytuno ar unrhyw fesurau arfaethedig i liniaru'r peryglon hyn a'r hyn y gall cymunedau ac unigolion hefyd ei wneud eu hunain. Bydd rhai mesurau yn cael eu cyflwyno a fydd yn lliniaru'r perygl llifogydd yn uniongyrchol i gymunedau unigol. Bydd mesurau eraill a gynigir, na fyddant yn lliniaru'r peryglon yn uniongyrchol, ond yn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r risgiau hynny mewn ardal benodol a bydd y mesurau hyn yn cael eu cyfleu yn glir i'r cymunedau a effeithir.

6.7 Bydd Awdurdodau Rheoli yn yr ardal, gan gynnwys Dŵr Cymru – Welsh Water, a Chyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio er mwyn gwireddu manteision cydweithredu e.e. atebion a chyllid a rennir, a hefyd i sicrhau bod gweledigaeth a rennir a chanlyniadau a gytunwyd.

6.8 Wrth ddatblygu amcanion a mesurau, mae CBST hefyd wedi ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd i sicrhau bod y mesurau yn rhai sydd wedi eu dylunio ac yn wydn o ran yr hinsawdd sy'n newid. Mae datblygiad cynaliadwy yn egwyddor weithredu graidd ganolog gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi, a bydd yn parhau i gael ei hadlewyrchu trwy waith yr ALlLlA, yn unol â'r ddyletswydd statudol a bennir yn Adran 27 y Ddeddf.

6.9 Mae newid yn yr hinsawdd a'i effaith ar lifogydd wedi cael ei ystyried a bydd yn cael ei ystyried gan bob Awdurdod Rheoli Perygl a bydd yn ffactor mewn unrhyw gynlluniau lliniaru llifogydd. Mae rhaglenni addasu ALlLlA yn annatod mewn unrhyw Strategaeth Leol.

6.10 Mae amcanestyniadau newid yn yr hinsawdd yn awgrymu y bydd patrymau tywydd yn newid ac y bydd cynnydd yn nwysád glaw, amlder stormydd sydyn a lefelau'r môr yn codi ar draws Cymru. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn debygol o gynyddu *tebygolrwydd* llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae Amcanestyniadau Hinsawdd y DU 2009 yn dangos mai'r darganfyddiadau allweddol ar gyfer Cymru yw:

1 Erbyn 2050 amcanestynnir y bydd tymheredd blynyddol yn cynyddu 2.3 $^{0}$C

2 Amcanestynnir y bydd tymheredd dyddiol uchaf yn cynyddu 3.4˚C

3 Amcanestynnir y bydd tymheredd isaf y gaeaf yn cynyddu 2.5˚C

4 Amcanestynnir y bydd glawiad yn cynyddu yn y gaeaf ar gyfartaledd 14 y cant ac yn lleihau yn yr haf 16 y cant

5 Rhagwelir y bydd lefelau'r môr o gwmpas Cymru yn codi rhyw 20cm erbyn 2050

6 Bydd dwysád stormydd yn yr haf a'r gaeaf yn cynyddu, gan arwain at stormydd llymach a thonnau mwy yn ymosod ar ein traethau

Yn sylfaen i'r dystiolaeth o beryglon cynyddol o lifogydd mae cyfres o adroddiadau a gynhyrchwyd yn yr ychydig flyyddoedd diwethaf gan gynnwys *Foresight: Future Flooding Study*, *Review on the Economics of Climate Change* gan Stern, ac yn fwyaf diweddar, *the Pitt Review into the Summer 2007 Floods*.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu canllawiau wedi eu diweddaru ar yr hyn y dylai Awdurdodau Rheoli Perygl gynllunio ar ei gyfer mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd wrth ymgymryd â gwaith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Cymerir y canllawiau hyn i ystyriaeth gan CBST wrth baratoi ei Gynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd .

Mae canllawiau eraill i gynorthwyo gydag asesu newid yn yr hinsawdd eisoes ar gael ac yn cynnwys Canllawiau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM-AG), Polisi Cynllunio Cymru (2011) Nodyn Cyngor Technegol 15 (Tan 15) ac eraill a restrir yn FCERM-AG.

6.9 Mae gwybodaeth a chyngor pellach ar sut i wella gwytnwch unigol i lifogydd hefyd ar gael gan Gyfoeth Naturiol Cymru trwy eu gwasanaeth 'Llinell Lifogydd' ac mae'r wybodaeth hon wedi ei hystyried wrth baratoi'r strategaeth hon.

6.10 Mae datblygiad cynaliadwy yn egwyddor weithredu graidd ganolog Llywodraeth Cymru ac mae wedi a bydd yn parhau i gael ei hadlewyrchu trwy waith yr ALILIA, yn unol â'r ddyletswydd statudol a bennwyd yn Adran 27 y Ddeddf. Ym mis Mai 2010, llofnododd y

Cyngor yn ffurfiol Siarter Cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru ac ymrwymodd i wneud Cynaliadwyedd yn "egwyddor drefniadol ganolog". O ystyried goblygiadau arwyddocaol posibl ymrwymiad o'r fath, ystyriwyd y mater gan y Cyngor llawn, a'i ymgorffori yn Fframwaith Polisi'r Cyngor.

6.11 Mae Ymrwymiad Cymru i Ddelio â Newid yn yr Hinsawdd (2006) wedi ei lofnodi gan holl Awdurdodau Lleol Cymru ac yn ein hymrwymo i weithio i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Dan Ran 4 Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ar 'Baratoi ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd'. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn disgwyl i holl 'awdurdodau adrodd' allweddol wneud cynnydd parhaus wrth baratoi ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

Gan weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu canllawiau wedi eu diweddaru yn amlinellu'r hyn y dylai Awdurdodau Rheoli Perygl gynllunio ar ei gyfer mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd wrth ymgymryd â gwaith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Cymerir y canllawiau hyn i ystyriaeth gan CBST wrth baratoi ei Gynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd.

Mae canllawiau eraill i gynorthwyo gydag asesu newid yn yr hisanwdd eisoes ar gael ac yn cynnwys Canllawiau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM-AG), Nodyn Cyngor Technegol 15 (Tan 15) ac eraill a restrir yn FCERM-AG.

Caiff newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau ar lifogydd ei ystyried gan bob Awdurdodau Rheoli Perygl a bydd yn ffactor mewn unrhyw gynlluniau lliniaru llifogydd. Mae rhaglenni addasu'r ALlLlA yn rhan annatod o'r Strategaeth Leol.

Wrth ddatblygu amcanion a mesurau bydd CBST yn ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd i'n helpu ni i gynllunio ar gyfer y dyfodol a meithrin gwytnwch lleol. Bydd y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd yn ffurfio rhan bwysig o'r ymateb i newid yn yr hinsawdd ar gyfer Torfaen.

Yn 2011/12 dechreuodd y Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol ystyried y peryglon sy'n gysylltiedig gyda newid yn yr hinsawdd i'n cymunedau a chyflenwi gwasanaeth. Trwy gymryd camau cynnar i baratoi medrwn adnabod ardaloedd sy'n agored i niwed yn y fwrdeistref, adnabod camau cost effeithiol sy'n meithrin gwytnwch a gwella ein gallu i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae amcanestyniadau newid yn yr hinsawdd yn awgrymu y bydd patrymau tywydd yn newid ac y bydd cynnydd yn nwysád glawiad, amlder stromydd sydyn a lefelau môr yn codi ar draws Cymru. Gyda'i

gilydd, mae'r ffactorau hyn yn debygol o gynyddu *tebygolrwydd* llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae Amcanestyniadau Hinsawdd y DU 2009 yn dangos mai'r darganfyddiadau allweddol ar gyfer Cymru yw:

1 Erbyn 2050, amcanestynnir y bydd tymheredd blynyddol ar gyfartaledd yn cynnyddu 2.3˚C

2 Amcanestynnir y bydd tymheredd dyddiol uchaf yn yr haf yn cynyddu 3.4˚C

3 Amcanestynnir y bydd tymheredd lleiaf y gaeaf yn codi 2.5˚C

4 Amcanestynnir y bydd glawiad yn cynyddu yn y gaeaf ar gyfartaledd 14 y cant ac yn gostwng yn yr haf 16 y cant

5 Rhagwelir y bydd lefelau'r môr o gwmpas Cymru yn codi rhyw 20cm erbyn 2050

Mae'r amcanestyniadau hefyd yn awgrymu y bydd digwyddiadau tywydd eithafol yn digwydd yn amlach. Y digwyddiadau difrifol, amlach hyn, ynghyd â hafau a gaeafau gwlypach a fydd yn cynyddu perygl lifogydd.

Mae hyn yn golygu bod yna yn y dyfodol fwy o siawns na fydd amddiffynfeydd llifogydd a systemau draenio ar eu pennau eu hunain yn rhwystro llifogydd. Rhaid i ni hefyd baratoi ar gyfer pan fydd y systemau hynny yn cyrraedd eu gallu mwyaf.

Yn sylfaen i'r dystiolaeth o risgiau cynyddol o lifogydd mae cyfres o adroddiadau a gynhyrchwyd yn yr ychydig flyyddoedd diwethaf gan gynnwys *Foresight: Future Flooding Study*, *Review on the Economics of Climate Change* gan Stern, ac yn fwyaf diweddar, *the Pitt Review into the Summer 2007 Floods*.

6.12 Mae'r ddogfen Ganllawiau yn nodi nifer o ddarnau o gyngor yn ymwneud ag adnabod mesurau a gynigir i gyflawni'r amcanion a roddir yn adran 5 yr adroddiad hwn, fel y nodir isod

6.12.1 <u>Cynllunio ac Addasu Datblygiad</u>

6.12.1.1 Defnydd Tir Strategol, Cynllunio Rhwystro
Amcanion 1, 2, 3, 4, 14

Cynllun Datblygu Mabwysiedig Torfaen (2000) yw'r fframwaith datblygu ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, ac mae'n nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnydd tir yn y Fwrdeistref Sirol a'r polisïau i'w gweithredu, a dyma'r sylfaen yn erbyn yr hwn y caiff ceisiadau cynllunio eu penderfynu. Bydd Polisi G1 (D) yn asesu

ceisiadau mewn perthynas â pheryglon llifogydd ochr yn ochr â pholisïau cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygu a Pherygl Lifogydd) 2004.

Cynllun Datblygu Lleol

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd, o'i fabwysiadu, yn disodli'r Cynllun Lleol presennol fel y cynllun datblygu ar gyfer yr ardal. Fel rhan o'r strategaeth defnydd tir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd, mabwysiadwyd agwedd gynaliadwy tuag at ddatblygu a pherygl llifogydd. Mae dyraniadau datblygu newydd wedi osgoi'r ardaloedd llifogydd risg uchel (Parthau C1 a C2) ar wahân i'r eithiadau a amlinellir yn y Papur Perygl Llifogydd isod. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Adneuo yn cynnwys polisïau i lywio datblygiadau i ffwrdd o ardaloedd perygl llifogydd yn unol â pholisi cenedlaethol (Polisïau S3 a BW1).

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi diffinio'r parthau yn TAN 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd, fel a ganlyn:

1 Parth A – Ystyrir bod ychydig neu ddim perygl o lifogydd afonol neu lanwol/arfordirol
2 Parth B – Ardaloedd y gwyddir iddynt gael eu gorlifo yn y gorffennol, gan ddefnyddio tystiolaeth dyddodion gwaddodol
3 Parth C – Seiliedig ar amlinelliad llifogydd eithafol Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gyfartal i neu'n fwy na 0.1% (afon, llanw neu arfordir)
4 Parth C1 – Ardaloedd o'r gorlifdir sydd wedi eu datblygu a lle mae seilwaith arwyddocaol, gan gynnwys amddiffynfeydd llifogydd
5 Parth C2 – Ardaloedd o'r gorlifdir heb seilwaith amddiffyn llifogydd arwyddocaol

Buddiannau

1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn darparu fframwaith polisi strategol sy'n hwyluso rheolaeth effeithiol perygl llifogydd trwy gyfeirio dabtlygiad newydd i ffwrdd o'r ardaloedd hynny sydd mewn perygl uchel o orlifo.
2 Bydd datblygiadau newydd mewn perygl isel o ddioddef llifogydd.

Amserlen ar gyfer Gweithredu
2011--2021
Tymor Byr 0-20 Blwyddyn

Papur Cefndir Asesiad Lefel Eang Perygl Llifogydd

Mae llifogydd yn ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar benderrfyniadau rheoli datblygiad a dyraniadau cynllun datblygu. Mae proses naturiol

llifogydd yn aml yn anodd ei darogan, ac er bod llifogydd yn digwydd yn anaml yn y Fwrdeistref Sirol, gall llifogydd fygwth bywyd dynol ynghyd ag achosi niwed helaeth i eiddo, anhrefn cyffredinol a thrallod i'r rhai a effeithir.

Mae perygl llifogydd felly yn fater allweddol sydd wedi ei ystyried fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol. Maer papur yn ffurfio Asesiad Lefel Eang sy'n adnabod y cyd-destun polisi cenedlaethol ar gyfer perygl llifogydd a sut mae'r egwyddor ragofalus a hyrwyddir mewn canllawiau polisi cenedlaethol i osgoi datblygu ar y gorlifdir yn y broses o ddewis safleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r papur yn adnabod yr wybodaeth sydd gan y Cyngor ar safleoedd penodol gan adnabod lle gellir rheoli canlyniadau llifogydd ynghyd â phennu'r cyfiawnhad ar dros gynnwys nifer fechan o safleoedd yn yr ardaloedd perygl llifogydd.

Wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Torfaen, amcan allweddol yw:

*3. Sicrhau nad yw lleoliad datblygiad yn arwain at risg annerbyniol o lifogydd, ymsuddiant neu beryglon iechyd.*

Mae'r egwyddor o gyfeirio datblygiad newydd i ffwrdd o ardaloedd lle'r ystyrir bod perygl llifogydd wedi bod yn ystyriaeth allweddol trwy gydol y broses o asesu safleoedd posibl. Mae dyraniadau datblygu newydd, yn gyffredinol, wedi osgoi ardaloedd perygl llifogydd uchel (Parthau C1 a C2).

Oherwydd natur a maint ardaloedd llifogydd yn Nhorfaen a'r safleoedd datblygu posibl a awgrymir trwy'r broses asesu safleoedd bosibl, mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi llwyddo osgoi adnabod safleoedd mewn ardaloedd risg uchel ar wahân i dair ardal. Mewn perthynas â'r safleoedd hyn, paratowyd Asesiadau Canlyniadau Llifogydd (ACLl) manwl safle benodol. Mae'r asesiadau hyn ar gael fel gwybodaeth ategol i'r Cynllun Datblygu Lleol.

Nid oedd angen ACLl Strategol ohherwydd bod perygl llifogydd wedi ei reoli'n effeithiol trwy osgoi safleoedd sydd wedi eu hadnabod fel rhai risg uchel. Lle mae llifogydd wedi eu hadnabod fel problem, paratowyd ACLl unigol i gefnogi dyraniad y safle hwnnw. Manylwyd yr agwedd hon gyda Cyfoeth Naturiol Cymru trwy gyfrwng cyfarfodydd cyswllt cynllunio rheolaidd.

Buddiannau

1. Mae'r papur a'r Asesiadau Canlyniad Lifogydd unigol wedi caniatáu i ganlyniadau llifogydd gyflwyno gwybodaeth ar leoliad datblygiad newydd yn y Cynllun Datblygu Lleol
2. Mae'r ACLl unigol wedi galluogi ystyried cynnydd posibl mewn dŵr ffo wyneb yn deillio o ddatblygiad newydd, gan gynnwys defnydd posibl systemau draenio cynaliadwy

Amserlen ar gyfer Gweithredu
2006-2021
Tymor Byr 0-20 blwyddyn

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi diffinio'r parthau yn TAN 15: Datblygu a Pherygl Lifogydd fel a ganlyn:

1. Parth A – Ystyrir bod ychydig neu ddim perygl o lifogydd afonol neu lanwol/arfordirol
2. Parth B – Ardaloedd y gwyddir iddynt gael eu gorlifo yn y gorffennol, gan ddefnyddio tystiolaeth dyddodion gwaddodol
3. Parth C – Seiliedig ar amlinelliad llifogydd eithafol Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gyfartal i neu'n fwy na 0.1% (afon, llanw neu arfordir)
4. Parth C1 – Ardaloedd o'r gorlifdir sydd wedi eu datblygu a lle mae seilwaith arwyddocaol, gan gynnwys amddiffynfeydd llifogydd
5. Parth C2 – Ardaloedd o'r gorlifdir heb seilwaith amddiffyn llifogydd arwyddocaol

Buddiannau

1. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn darparu fframwaith polisi strategol sy'n hwyluso rheolaeth effeithiol perygl llifogydd trwy gyfeirio datblygiad newydd i ffwrdd o'r ardaloedd hynny lle mae perygl uchel o lifogydd.
2. Bydd datblygiadau newydd mewn perygl isel o ddioddef llifogydd.

Amserlen ar gyfer Gweithredu
2011--2021
Tymor Byr 0-20 Blwyddyn

1.2 Asesiad Perygl Llifogydd Strategol (APLlS) / Asesiad Canlyniad Llifogydd Strategol (ACLlS)
Rhwystro
Amcan 1, 2, 3, 4

Ymgymerwyd â Cham 1 Asesiad Canlyniad Llifogydd Strategol (ACLlS) fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol (gweler Atodiad 9 y Cynllun Datblygu Lleol).

Buddianau

1. Caniataodd ACLlS i ganlyniadau llifogydd fwydo gwybodaeth ar leoli datblygiad newydd yn y Cynllun Datblygu Lleol

2 Caniataodd ACLlS hefyd ystyried cynnydd posibl mewn dŵr ffo wyneb yn deillio o ddatblygiad newydd, gan gynnwys defnydd posibl systemau draenio cynaliadwy.

Amserlen ar gyfer Gweithredu
2006 – 2021
Tymor Byr 0-20 Blwyddyn

1.3 Strategaethau Cylch Dŵr
Rhwystro
Amcan 12, 14

Mae Strategaeth Cylch Dŵr yn gyfle i CBST a'n holl gyrff partner weithio gyda'n gilydd i adnabod y seilwaith gwasanaethau dŵr sydd ei angen i gefnogi a galluogi datblygiad cynaliadwy yn y Fwrdeistref. Mae'r strategaeth yn adnabod y seilwaith sydd ei angen, pryd y mae ei angen, faint fydd yn ei gostio, a phwy a ddylai dalu.

Amcan cyffredinol Strategaeth Cylch Dŵr yw darprau agwedd gynaliadwy tuag at ddatblygu seilwaith gwasanaethau dŵr. Mae'r pynciau canlynol wedi eu hystyried fel rhan o'r broses hon:

Mae'r Strategaeth Cylch Dŵr yn cynnwys yr elfennau canlynol:

1 Rheoli Perygl Llifogydd: Adnabod ardaloedd lle mae datblygiad yn debygol o gynyddu perygl llifogydd (ar y safle ac yn is i lawr) ac awgrymu mesurau gwella angenrheidiol. Mae'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd hon yn delio gyda'r mater hwn a bydd y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yn adnabod mesurau penodol ar gyfer safleoedd unigol.

2 Cyflenwad Dŵr: Adolygu'r ffynonellau cyflenwad dŵr presennol ac adnabod unrhyw uwchraddio sydd ei angen i sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer datblygiadau newydd. Bydd hyn yn gofyn am ddialog barhaus gyda Dŵr Cymru/Welsh Water fel un o'n Partneriaid Risg. Mae angen iddynt gymryd i ystyriaeth y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol wrth wneud eu cynigion.

3 Draenio: Arolygu'r ddaeareg sylfaenol ar gyfer safleoedd twf i ddeall SDC (systemau draenio trefol cynaliadwy) i helpu lleihau effaith twf ar yr amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys gweithredu SDC yn y dyfodol, ac nid oes ymgynhoriad ar gael ar gyfer hyn eto. Ar hyn o bryd mae cysylltiad gyda cheisiadau Cynllunio lle ystyrir goblygiadau draenio gan yr Adran Draenio a Phriffyrdd.

4 Dŵr Gwastraff: Deall capasiti presennol gwaith carthffosiaeth a'r rhwydwaith o garthffosydd i weld os oes angen uwchraddio i ddelio gyda datblygiadau newydd.
Mae hyn yn golygu dialog gyda Dŵr Cymru/Welsh Water. Mae angen iddynt gymryd y Strategaeth Leol i ystyriaeth wrth gyflwyno cynigion a bydd hyn yn digwydd trwy ddialog a chydweithredu fel rhan o'r broses ymgynghori ar y Strategaeth Leol.

5 Ecoleg: Adnabod effaith twf ar ansawdd dŵr, ardaloedd cadwraeth natur a rhywogaethau a warchodir, ac yna awgrymu mesurau lliniaru posibl lle bo angen.
Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd  yn delio â hyn.

6 Seilwaith Cynaliadwy: Awgrymu sut y gall seilwaith gwasanaethau dŵr gyfrannu tuag at ddatblygiad cynaliadwy o ran cynyddu effeithiolrwydd dŵr a lleihau defnyddio dŵr ar ddatblygiadau newydd.
Mae ymrwymiadau yn y broses Gynllunio i ystyried cynaliadwyedd. Bydd angen mewnbwn Dŵr Cymru/Welsh Water hefyd fel rhan o'r ddialog rhwng yr holl bartïon.

Buddiannau

1 Sicrhau rheoli adnoddau dŵr mewn modd cynaliadwy
2 Rheoli a datblygu systemau carthffosiaeth ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

1.4 Adleoli
Rhwystro
Amcanion 1, 2, 3, 4

Nid oes gan CBST bolisi yn delio ag adleoli trigolion sy'n byw mewn tai sy'n destun perygl llifogydd, ac ni ragwelir y bydd nifer arwyddocaol o eiddo, os bydd rhai o gwbl, a fydd yn cael eu hadnabod fel rhai sy'n gofyn am adleoli trigolion.

Os adnabyddir cartrefi fel rhai sydd mewn ardaloedd o berygl llifogydd arwyddocaol a fyddai'n peryglu bywyd, yna defnyddir y drefn ganlynol i leihau perygl llifogydd:

1 Darparu system rhybudd cynnar i roi amser i drigolion symud i ardal ddiogel.

2 Annog trigolion i baratoi eu Cynllun Llifogydd eu hunain i leihau’r perygl iddynt eu hunain a niwed i’w heiddo a’i gynnwys
3 Darparu systemau i rwystro llifddwr rhag mynd i mewn i’r eiddo
4 Ceisio lleihau perygl llifogydd trwy leihau faint o dŵr sy’n cael ei gynhyrchu gan y dalgylch i fyny’r afon
5 Cyflwyno systemau lliniaru llifogydd newydd megis cwlferti neu ffosydd draenio
6 Adeiladu amddiffynfeydd llifogydd newydd neu godi lefel bresennol yr amddiffynfeydd

Os yw’r mesurau hyn i gyd yn anymarferol am resymau cost neu beirianneg, yna bydd CBST yn ceisio adleoli trigolion i’r tai gwag agosaf sydd ar gael yn hwylus. Os oes nifer o gartrefi yn cael eu heffeithio, yna bydd CBST yn ystyried sut gellid darparu tai amgen ar dir sydd ar gael yn lleol a ddyrannwyd ar gyfer tai.

Rhagwelir y byddai perchennog yr eiddo yn gyfrifol am gost yr adleoli. Fel opsiwn terfynol, efallai y byddai CBST yn ystyried prynu gorfodol yn achos yr eiddo risg uchaf, lle mae bygythiad i fywyd.

Buddiannau

1 Lleihau’r perygl i drigolion trwy eu symud o gartrefi mewn ardaloedd sy’n destun perygl llifogydd difrifol

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor hir 50 – 100 blwyddyn

1.5 Cynlluniau mwynau a gwastraff
Rhwystro

1 Mwynau
Amcan 12

Mewn perthynas â mwynau, caiff unrhyw gynigion eu hasesu mewn perthynas â Pholisiau M1 – M7 Cynllun Strwythur Gwent (1991 – 2006) a gofynion y polisi cenedlaethol fel y’i cynhwysir ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol ar Fwynau. Maa’r polisi fframwaith hwn yn ei gwneud yn ofynnol bod cynigion mwynau yn dderbyniol o ran ffactorau hydrolegol a hydroddaearegol. Bydd angen i gynlluniau adennill tir hefyd ymgorffori cynigion adfer a bydd angen i’r rhain ddelio â ffurf y tir a defnydd y tir yn y pen draw.

Mewn perthynas â’r Cynllun Datblygu Lleol newydd, ystyria Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen bod y polisi cenedlaethol yn ddigon clir ar fwynau. Felly, dibynnir ar hwnnw wrth benderfynu

ar geisiadau cynllunio mewn perthynas ag echdynnu mwynau a datblygiad cysylltiedig mewn perthynas â ffactorau hydrolegol a hydroddaearegol, ar y cyd ag unrhyw bolisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Buddiannau

1 Mae'r fframwaith polisi yn cyfrannu tuag at reoli perygl llifogydd a'r amgylchedd dŵr.

Amserlen ar gyfer Gweithredu
2006 – 2021
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

2 Gwastraff
Amcan 12

Mewn perthynas â chynigion gwaredu gwastraff, cânt eu hasesu mewn perthynas â Pholisiau E10 a E11 yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig a'r polisi cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol Z1: Gwastraff mewn perthynas â materion hydrolegol a hydroddaearegol.

Mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, mae Polisi W1 (Cynigion Rheoli Gwastraff / Adennill Adnoddau) yn nodi y bydd unrhyw gynigion amlinell ar gyfer cyfleusterau strategol mewn-adeiladu newydd yn cael eu cyfeirio i dir ac eiddo diwydiannol B2 neu gyfleusterau gwastraff presennol neu flaenorol. Caiff cyfleusterau awyr agored eu cyfeirio i ffwrdd oddi wrth unrhyw leoliadau sy'n sensitif yn hydrolegol neu hydroddaeraegol.

Mae'r holl safleoedd a ddyrannwyd, sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd, naill ai y tu allan i'r gorlifdir Parth C2, neu mae angen Asesiad Canlyniad Llifogydd sy'n adnabod bod defnydd cyflogaeth yn dderbyniol dan gyngor TAN 2.

Ar gyfer safleoedd B2 presennol nad ydynt angen caniatâd cynllunio, disgwylir y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei annog i ymgynghori gyda CBST fel ALILIA ynglŷn ag unrhyw faterion perygl llifogydd dan ei bwerau trwyddedu safle. Os derbynnir cynigion ar safleoedd B2 presennol ar gyfer gwastraff neu weithrediadau trosglwyddo gwastraff, caiff y cais ei ystyried yn erbyn polisi W1 a'r polisi cenedlaethol yn TAN 15 i asesu unrhyw broblemau gorlifdir. Anogir datblygwyr i ymgynghori â'r Awdurdod Cynllunio Lleol neu Gyfoeth Naturiol Cymru i gael gwybodaeth bellach ar unrhyw safle sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd.

Buddiannau

1 Mae’r fframwaith polisi yn cyfrannu tuag at reoli perygl llifogydd ac amddiffyn yr amgylchedd dŵr.

Amserlen ar gyfer Gweithredu
2006-2021
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

1.6 Draenio Cynaliadwy (SDC)
Rhwystro
Amcanion 1, 2, 3, 4, 12, 14

Materion Peirianyddol

Dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, dynodwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ar gyfer ei ardal weinyddol.

Bydd ALlLlA yn cymryd rôl Corff Mabwysiadu a Chymeradwyo SDC mewn perthynas â systemau draenio cynaliadwy. Yn y rôl hon, bydd CBST yn gyfrifol am gymeradwyo dyluniad gwreiddiol y SDC a mabwysiadu a chynnal a chadw’r system orffenedig.

Mae gan CBST ymrwymiad i hyrwyddo defnyddio SDC lle bynnag y datblygir safleoedd newydd neu lle ail-ddatblygir safleoedd tir llwyd.

Athroniaeth SDC yw dyblygu, gymaint ag y bo modd, draeniad naturiol o safle cyn ei ddatblygu.
Amcanion draenio cynaliadwy yw ansawdd, nifer a mwynderau a bioamrywiaeth.

Rhagwelir y bydd SDC yn cyflawni’r canlynol:

1 Lleihau cyfraddau dŵr ffo, gan leihau risg o gael llifogydd i lawr yr afon
2 Lleihau dŵr ffo ychwanegol ac amlder achosion dŵr ffo sy’n tueddu i gynyddu o ganlyniad trefoli, ac a fedr waethygu perygl llifogydd a niwed i ansawdd y dŵr
3 Annog adfer dŵr daear naturiol i leihau’r effaith ar y ddyfrhaen a llifau sylfaenol afonydd yn y dalgylch derbyn
4 Lleihau crynodiad llygrwyr mewn dŵr storm, gan amddiffyn ansawdd y corff dŵr sy’n derbyn
5 Gweithredu fel ardal glustogi ar gyfer arllwysiadau damweiniol trwy rwystro arllwys uniongyrchol neu grynodiad uchel o lygrwyr i’r corff dŵr sy’n derbyn

6 Lleihau dŵr ffo wyneb sy'n arllwys i systemau carthffosiaeth cyfun, gan leihau arllwysiadau dŵr llygredig i gyrsiau dŵr trwy gyfrwng arllwysiadau Gorlifau Cyfun
7 Cyfrannu tuag at werth mwynderau ac esthetig gwell ardaloedd a ddatblygwyd
8 Darparu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt mewn ardaloedd trefol a chyfleoedd i wella bioamrywiaeth

Ystyrir y technegau canlynol fel rhan o SDC – stribedi hidlo, pantiau, basnau ymdreiddiad, pyllau gwlyb, basnau cadw estynedig, gwlyptiroedd a adeiladwyd, draeniau hidlo a phibellau draenio tyllog, dyfeisiau ymdreiddiad, wynebau hydraidd a thoeau gwyrddion.

Mae'r darnau uchod wedi eu cymryd o'r Llawlyfr SDC a baratowyd gan CIRIA.

Materion Cynllunio

Mae Polisi S3 (Newid yn yr Hinsawdd) yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cefnogi datblygiadau newydd lle maent yn lleihau dŵr ffo wyneb a risg lifogydd trwy ddefnyddio SDC addas.

Buddiannau

1 Mae'r fframwaith polisi yn cyfrannu tuag at reoli perygl llifogydd, amddiffyn ansawdd y dŵr a lleihau niwed amgylcheddol.
2 Gwella ansawdd y dŵr wyneb

Amserlen ar gyfer Gweithredu
2006 – 2021
Tymor byr 0 - 20 blwyddyn

Darogan llifogydd, rhybuddio ac ymateb

2.1 Ymwybyddiaeth o Lifogydd
Parodrwydd
Amcan 5

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a CBST (Gwasanaethau Cymdogaeth a'r Gwasanaeth Rheoli Argyfwng) wedi gweithio gydai gilydd ers tro i gynyddu ymwybyddiaeth o lifogydd i gymunedau ym Mwrdeistref Sirol Torfaen. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu deunydd wedi ei argraffu megis taflenni, pecynnau gwybodaeth a gwefannau.

Mae'r tudalennau Rheoli Argyfwng ar wefan CBST yn cynnwys nifer o dudalennau o wybodaeth ar lifogydd a dolennau i

Ganllawiau Llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd, Cynlluniau Templed (wedi eu targedu tuag at lefelau teuluol a chymunedol ynghyd â gwybodaeth ar achosion o lifogydd a dolennau i gymorth a chyngor ar iechyd. Mae Teclyn Rhybudd Llifogydd AA Cymru sy'n dangos yr wybodaeth gyfredol/fyw ar lifogydd yng Nghymru hefyd wedi ei ymgorffori yn y rhan hon o wefan CBST. Mae CBST hefyd yn croesawu'r cynnydd yn y defnydd o safleoedd Cyfryngau Cymdeithasol gan ei ddinasyddion. Mae hwn yn debygol o fod yn llwyfan pwysig i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lifogydd yn y dyfodol.

Yn ychwanegol at yr uchod, mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cychwyn ar ymgyrch ymwybyddiaeth benodol gyda'r trigolion hynny sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd yn ardal Ponthir Torfaen. Roedd hyn yn cynnwys dosbarthu pecynnau gwybodaeth am lifogydd a gweithgareddau hyrwyddo i gynyddu ymwybyddiaeth a chynyddu'r nifer sy'n defnyddio Gwasanaeth Rhybuddio am Lifogydd AA.

Buddiannau

1 Cynyddu ymwybyddiaeth o berygl llifogydd yng nghymunedau CBST

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Parhaus
Tymor byr 0 - 20 blwyddyn

2.2 Rhybuddio am Lifogydd
Parodrwydd
Amcan 5

Ar ôl derbyn Rhybudd o Dywydd Difrifol gan Swyddfa'r Met, gwneir asesiad ac os oes angen, dosberthir y rhybudd i'r swyddogion a'r Meysydd Gwasanaeth perthnasol o fewn y Cyngor. Os derbynnir y rhybudd y tu allan i oriau swyddfa, caiff ei dderbyn gan Ystafell Reoli y tu allan i Oriau Swyddfa'r Cyngor, sydd wedyn yn cysylltu â'r Peirianwyr ar ddyletswydd sydd ar alwad a'r Swyddog Rheoli sydd ar alwad.

Daeth yr awydd am y Gwasanaeth Llinell Llifogydd Estynedig yn wreiddiol o'r argmhellion yn yr Adroddiad Gwersi a Ddysgwyd (Hydref 2000) y dylid datblygu Llinell Llifogydd i ddod yn "siop un alwad" i helpu gyda holl broblemau llifogydd.

Mewn ymateb i hyn, ymgymerwyd ag Astudiaeth Beilot gyda 26 o Awdurdodau Lleol yn Nyfnaint, Swydd Caergrawnt a Swydd Hertford rhwng Ebrill 2003 a Medi 2004.  Oherwydd cyfyngiadau cylidebol a gwasanaeth yn ystod 2005 a 2006 cafodd

gweithrediad y gwasanaeth ei oedi. Roedd y peilot yn ystyried gwerth yr estyniad, yn rhoi amrywiaeth o wersi a ddysgwyd, a helpodd fireinio amcanion y prosiect a lleihau nifer y risgiau i gyflenwi.

Y cymhelliad y tu ôl i'r prosiect peilot oedd yr angen i roddi i gwsmeriaid y Llinell Llifogydd wybodaeth mwy lleol nad oedd ar gael yn flaenorol gan y gwasanaeth. Cysylltwyd ag awdurodau lleol i ddarparu rhifau cyswllt a gwybodaeth ar gwestiynau cyffredin yn ymwneud â:

1 Ffyrdd a effeithiwyd gan lifogydd
2 Gwasanaethau a mwynderau lleol wedi eu heffeithio gan lifogydd
3 Manylion cyswllt lleol ar wybodaeth llifogydd
4 Cynlluniau ymgilio os oes llifogydd
5 Cynlluniau dosbarthu sachau tywod

Dangosodd yr astudiaeth beilot y gellid gweithredu gwasanaeth wedi ei sgriptio a chyfleuster trosglwyddo galwadau dewisol heb beryglu ansawdd presennol y gwasanaeth Llinell Llifogydd. Tanlinellodd yr astudiaeth beilot hefyd gymhlethdodau cadw gwybodaeth gywir a chwmpas cyfyngedig yr wybodaeth a ddarparwyd.

Mae'r Prosiect Gwasanaeth Llinell Llifogydd Estynedig newydd yn canolbwyntio ar ymestyn y gwasanaeth i Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr yn unig. Bydd seilwaith y gwasanaeth yn cyd-fynd ag ehangiad yn y dyfodol i ardaloedd eraill megis yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond bydd hyn yn dibynnu ar y seilwaith sydd ar gael yn yr ardaloedd hynny. Bydd yr Alban yn aros ar y prif Wasanaeth Llinell Llifogydd yn unig. Bydd nifer terfynol yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr a gynhwysir yn y Gwasanaeth yn dibynnu ar eu hymrwymiad i set o safonau lleiaf a'u gallu i ddelio â throsglwyddo galwadau o'r Llinell Llifogydd.

Nid yw'r prosiect yn newid cylch gorchwyl Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu gwybodaeth am lifogydd afonol ac arfordirol yn unig. Bydd yr wybodaeth ychwanegol a restrir uchod yn cael ei darparu i'r Llinell Llifogydd gan yr Awdurdodau Lleol. Amcan cyffredinol y prosiect fydd darparu offeryn ar gyfer gwybodaeth ar lifogydd lleol a manylion cyswllt i'w rhoi i bobl sy'n galw'r Llinell Llifogydd.

Buddiannau

1 Rhoi i gymunedau lleol gymaint o rybudd ag y bo modd o lifogydd lleol er mwyn caniatáu i'r trigolion gymryd camau priodol.

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Yn bodoli ar hyn o bryd ac i barhau
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

2.3 Darogan Llifogydd
Parodrwydd
Amcan 5

Mae'n annhebygol y byddai rhybudd ymlaen llaw yn bosibl ar gyfer llifogydd sy'n deillio o broblemau draenio dŵr wyneb neu hollt yn nhorlan camlas, argae cronfa neu forglawdd.
Serch hynny, cyhoeddir y Datganiad Canllawiau Lifogydd bob dydd gan y Ganolfan Darogan Llifogydd sy'n dangos rhagolygon treigl pum diwrnod o berygl llifogydd ar lefel sirol ar gyfer Cymru a Lloegr. Caiff y rhain eu categoreiddio yn risgiau afonol ac arfordirol a/neu lifogydd dŵr wyneb. Mae ymwybyddiaeth o'r math hon o broblem yn dibynnu ar Awdurdodau Lleol yn monitro problemau posibl ynghyd â'r wybodaeth a dderbynnir gan y cyhoedd.

Buddiannau

1 Rhoi i gymunedau lleol ac unigolion y rhybudd mwyaf posibl

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Yn bodoli ar hyn o bryd ac yn parhau
Tymor byr 0-20 blwyddyn

2.4 Cynlluniau ymateb mewn argyfwng
Parodrwydd
Amcan 5

Ar hyn o bryd mae pum cynllun ymateb yn bodoli, pob un ohonynt yn effeithio ardal Torfaen:

1 Trefniadau Fforwm Gwytnwch Lleol Gwent, Medi 2011
2 Trefniadau Ymateb i Argyfwng Mawr Fforwm Gwytnwch Lleol Gwent
3 Cynllun Rheoli Argyfwng Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
4 Cynllun Tywydd Difrifol Fforwm Gwytnwch Lleol Gwent
5 Cynllun Gorlif Cronfa Generig Fforwm Gwytnwch Lleol Gwent

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Fel Ymatebwr Categori 1 dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor)

gydnabod ei gyfrifoldebau i bob un o'i gymunedau pan fyddant yn dioddef tarfu sy'n effeithio eu llesiant cymdeithasol ac economaidd. Mae'r Cyngor yn gwbl ymroddedig i'w rôl arweinyddiaeth gymunedol wrth gynorthwyo aelodau'r cyhoedd i adweithio i ac ymdopi â'r tarfiadau hyn. Ynghlwm yn y rôl Arweinyddiaeth Cymunedol yw adnabod a gwaith partneriaeth gydag asiantaethau eraill perthnasol neu sy'n chwarae rhan.

Mewn achosion o lifogydd yn ei ardal, ystyria'r Cyngor mai ei bartneriaid yw:-

1 Cyfoeth Naturiol Cymru
2 Welsh Water / Glas Cymru
3 Heddlu Gwent Police
4 Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
5 Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
6 Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan

Buddiannau

1 Rheoli ymateb CBST a'i Bartneriaid Risg i amrywiol argyfyngau gan gynnwys llifogydd
2 Rhoi cymorth i'r cymunedau yn ystod ac ar ôl argyfyngau

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Parhaus
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

2.5 Cynlluniau llifogydd cymunedol
Parodrwydd
Amcan 13

Dim ond un Cynllun Llifogydd Cymunedol sydd gan CBST, ar gyfer cymuned Ponthir. Dewiswyd yr ardal hon gan Cyfoeth Naturiol Cymru oherwydd ystyrir mai dyma un o'r cymunedau sydd mewn perygl mwyaf o lifogydd afonol yn ardal Torfaen.

Sefydlwyd Fforwm Llifogydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd gan ddwyn ynghyd cymuned Ponthir, y Cyngor Cymuned, y Cynghorydd Ward Lleol, gweithwyr Cyfoeth Naturiol Cymru ac aelodau staff Grŵp Cynllunio ar gyfer Aryfwng CBST.

Er y sefydlwyd y fforwm i gynhyrchu Cynllun Cymunedol yn ymwneud â phrif afon, yn yr achos hwn Afon Lwyd, ystyrir ei fod yn grŵp priodol i ymgynghori ag o fel ran o baratoi'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd gan fod yr un gymuned hefyd yn dioddef llifogydd o dŵr wyneb, cyrsiau dŵr cyffredin a'u rhyngweithiad gydag Afon Lwyd. Rhagwelir, felly, y bydd Fforwm Llifogydd Ponthir yn cael ei ail-alw fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus

sydd ei angen i gynhyrchu'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol.

Tymor byr 0-20 blwyddyn

2.6 Cynlluniau Llifogydd Aml-asiantaeth
Parodrwydd
Amcan 13

Trefniadau Llifogydd Aml-asiantaeth Fforwm Gwytnwch Lleol Gwent:

Mae'r cynllun yn manylu'r trefniadau sy'n bodoli ar gyfer ymateb i argyfwng llifogydd yn ardal Fforwm Gwytnwch Lleol Gwent. Mae wedi ei ddylunio i gyfuno â dogfen Trefniadau Ymateb mewn Argyfwng Mawr Gwent, sy'n manylu'r trefniadau generig sy'n bodoli i ymateb i argyfyngau. Mae hefyd yn eglurhau cyfrifoldebau'r cyfundrefnau dan sylw wrth reoli achosion o lifogydd.

Mae'r cynllun hwn yn rhoi gwybodaeth ar y perygl llifogydd ac yn cymryd i ystyriaeth y risgiau a nodwyd yng Nghofrestr Risg Cymunedol Gwent (fel y dangosir isod), a gynhyrchwyd gan Weithgor Asesu Risg FfGLl Gwent.

| Cyfeirnod Cofrestr Risg Cymunedol | Disgrifiad o'r llifogydd | Gradd risg |
|---|---|---|
| 3.1 / H17 | Stormydd a Thymestl | Canolig |
| 3.5 / H19 | Llifogydd: Arfordirol Mawr – llifogydd llanw yn effeithio mwy na dau ranbarth yn y DU | Uchel Iawn |
| 3.6 /H16 | Arfordirol Lleol – llifogydd llanw yn effeithio mwy nag un rhanbarth | Uchel Iawn |
| 3.7 / HL17 | Arfordirol Lleol – llifogydd llanw mewn un rhanbarth | Uchel Iawn |
| 3.8 / H21 | Llifogydd – Mewndirol difrifol – llifogydd sy'n effeithio mwy na dau ranbarth yn y DU | Uchel |
| 3.9 / HL18 | Llifogydd Afonol Lleol – dŵr afon neu ddŵr ffo wyneb | Uchel |
| 3.10 / HL19 | Llifogydd afonol lleol | Uchel |
| 3.11 / HL20 | Llif storm beryglus iawn, lleol | Uchel |

| | | |
|---|---|---|
| 4.4 / H44 | Methiant mawr / dymchweliad cronfa neu argae | Canolig |

Buddiannau

1 Rheoli ymateb CBST a'i Bartneriaid  Risg i amrywiol argyfyngau gan gynnwys llifogydd
2 Rhoi cymorth i'r cymunedau yn ystod ac ar ôl argyfyngau

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Parhaus
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

2.7 Cynlluniau Digwyddiadau Mawr
Parodrwydd
Amcan 13

Cynllun Rheoli Argyfwng Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen:-

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn derbyn ei gyfrifoldeb i "ofalu am" y boblogaeth mewn argyfwng. I'r perwyl hwn mae wedi paratoi a bydd yn cynnal cynllun sy'n medru delio gyda holl ddigwyddiadau anarferol mewn amser o heddwch, yn amrywio o Ddigwyddiadau Mawr i sefyllfaoedd argyfwng bach ond sydd efallai'n anarferol. Mae amrywiaeth eang o drychinebau posibl, ond mae'r rhan fwyaf o'r trychinebau naturiol yn y wlad hon yn golygu llifogydd, eira difrifol neu stormydd od gyda gwyntoedd mawr. Mae peryglon sy'n gysylltiedig ag ardal Gwent yn cynnwys glo ansad a thomenni gwastraff eraill, bryniau a hen loddfeydd sy'n cyffinio ardaloedd preswyl. Gall peryglon eraill gynnwys tân, ffrwydrad, allyriad mwg gwenwynig, ymbelydredd, dymchweliad strwythurol, damweiniau yn deillio o brosesau cynhyrchu neu wrth storio neu gludo deunyddiau peryglus a phob math o gludiant. Mae graddfa anafiadau yn codi o ddamwain ddifrifol ar y ffordd neu wrthdrawiad yn yr awyr gydag awyren corff llydan yn golygu ei bod yn hawdd dychmygu sefyllfa argyfwng yn digwydd ar unrhyw adeg.

Tra nad oes safleoedd neu arsefydliadau penodol yn ardal Bwrdeistref Sirol Torfaen sydd angen cynlluniau oddi ar y safle i ddelio â digwyddiad mawr (er bod pibellau nwy Perygl Damwain Fawr), rhaid ystyried y peryglon sy'n bodoli mewn Awdurdodau Lleol cyffinol a allai, pe byddai digwyddiad mawr, gael effaith ar y boblogaeth a'r Awdurdod.

Caiff Digwyddiadau Mawr eu trin mewn tri chyfnod a dderbynnir yn gyffredinol:

1 Lliniaru'r effeithiau
2 Adfer i normalrwydd
3 Adsefydlu'r rhai sy'n rhan o'r digwyddiad cyn gynted ag y bo modd

Rôl yr Awdurdod Lleol i ddechrau yw cynorthwyo'r Gwasanaethau Argfwng ac yna arwain i reoli'r cyfnodau adennill, adfer ac adsefydlu.

Crybwyllir sefyllfaoedd Digwyddiadau Mawr uchod, ond cydnabyddir yn llawn y gallai argyfyngau eraill godi sy'n golygu niwed mawr i eiddo neu'r amgylchedd ond nad ydynt yn fygythiad amlwg i fywyd. Bwriad y cynllun felly yw bod yn ddigon hyblyg i ddelio â'r sefyllfaoedd llai hyn gan y gallai diffyg sylw ar unwaith arwain at waethygu sefyllfa ddiniwed yn rhywbeth mwy difrifol.

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd gyffredinol o ofal i gynnal gwasanaethau cyhoeddus a chynorthwyo trigolion lleol mewn trallod, a dylent chwarae rhan bwysig wrth gydgysylltu ymateb yr amrywiol gyrff dan sylw. Mae'r angen i gydgysylltu ac integreiddio cynlluniau Awdurdod Lleol, Gwasanaethau Argyfwng a Gwasanaethau Gwirfoddol i ddelio â sefyllfaoedd o'r fath yn allweddol i gael ymateb effeithiol i unrhyw argyfwng.

Wrth ddefnyddio'r cynllun hwn, ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson beth bynnag yw ei ryw, hil, lliw, iaith, crefydd, gwleidyddiaeth neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymedithasol, cysylltiad gyda lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws cenedlaethol arall fel y'u diffinnir dan Erthygl 14, Hawliau Dynol y Confensiwn Ewropeaidd.

Buddiannau

1 Rheoli ymateb CBST a'i Bartneriaid Risg i amrywiol argyfyngau gan gynnwys llifogydd
2 Rhoi cymorth i'r cymunedau yn ystod ac ar ôl argyfwng

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Parhaus
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

6.12.3 Rheoli tir, diwylliant ac amgylchedd

3.1 Rheoli tir
Rhwystro
Amcanion 1, 2, 3, 4

Materion Cynllunio

Caiff rheolaeth tir ledled ardal Bwrdeistref Sirol Torfaen ei weithredu gan amrywiaeth o unigolion a chyrff heb allu effeithiol i reoli'r materion hyn yn gyfan-gwbl. Bydd mwyafrif mawr rheolaeth tir yn cael ei ddylanwadu gan benderfyniadau strategol Ewropeaidd a chenedlaethol, yn enwedig polisi a chyllid amaethyddol.

Lle mae cyfle i ddylanwadu ar reolwyr tir, megis fel trwy fentrau a ariennir gyda grantiau, yna bydd modd annog dilyniant neu newidiadau mewn rheoli tir lle mae rheolwyr tir yn gefnogol.

Yn anffodus, ychydig o sicrwydd sydd ynglŷn â maint neu chyfeiriad cynlluniau grant o'r fath yn y dyfodol, ond lle bynnag y bo modd, bydd angen yn sicr i gyrff partner a rheolwyr tir wneud y mwyaf o gyllid grant o'r fath er mwyn integreiddio atebion rheoli tir i gynnwys ystyried cyfraniadau i leihau llifogydd.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnwys ystyried materion llifogydd ac erydiad yn y Strategaeth Mannau Agored newydd er mwyn annog ystyried y materion hyn gan y rheolwr tir perthnasol.

Materion Peirianneg

Er mwyn lleihau llifau dŵr ffo a/neu reoli friglifau o ddalgylchoedd uwchben yr ardaloedd sydd wedi eu hadnabod fel rhai mewn perygl, bydd CBST yn ystyried cyflwyno amrywiol ddulliau o reoli dalgylchoedd.

Lle mae coedwigoedd wedi eu plannu, bydd CBST yn cysylltu gyda'r perchennog tir i drafod rhaglenni torri a phlannu coed i leihau cynnydd yn y dŵr ffo ar ôl torri coed neu ostyngiadau i'r briglifau yn y tymor canol. Rhagwelir y bydd y Comisiwn Coedwigaeth, fel un o'r Partneriaid Risg gyda CBST, yn chwarae rhan mewn ymgynghoriad i reoli'r prosesau hyn.

Bydd trafodaeth hefyd ar reoli ar adeiladu systemau draenio yn y goedwig.

Bydd CBST fel yr ALlLlA hefyd yn ymgynghori ag Undebau Ffermio a ffermwyr lleol i drafod dulliau ffermio, megis cyfeiriad aredig, sy'n effeithio natur y dŵr ffo o dir fferm.

Bydd defnyddio gwrtaith a chemegau eraill yn y diwydiant ffermio hefyd yn cael ei drafod mewn ymdrech i gyfyngu halogi cyrsiau dŵr i lawr yr afon.

Buddiannau

1. Cyfleoedd rheoli tir integredig yn manteisio amrywiol themâu ar yr un pryd, a fydd yn ddamcaniaethol yn ehangu'r cwmpas a chynyddu'r tebygolrwydd o gael arian ar gyfer prosiectau a fydd yn gwella rheolaeth dŵr tir.
2. Lleihau dŵr ffo wyneb a briglifau
3. Lleihad mewn halogiad dŵr ffo wyneb

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr a chanolig 0 – 50 blwyddyn

3.2 Gwytnwch
Parodrwydd
Amcan 9

O fewn CBST, mabwysiedir diwylliant o wytnwch i lifogydd mewn perthynsa ag eiddo a thir sy'n destun perygl llifogydd. Bydd hyn yn golygu adfer tir ac eiddo cyn gynted ag y bo modd ar ôl llifogydd. Bydd safon y gwaith adfer yn cael ei bennu'n briodol i ddychwelyd cynefinoedd i'w cyflwr blaenorol heb newid arwyddocaol.

Trafodir gwytnwch mewn perthynas ag eiddo yn 5.4 isod.

Lle mae tir yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA) neu Safleoedd o Gadwraeth Natur Pwysig (SCNP), mabwysiadwyd mesurau a fydd yn lleihau perygl llifogydd os ystyrir bod llifogydd yn niweidiol i'r gynefin. Rhaid derbyn, fodd bynnag, na fydd dileu'r risg yn llwyr yn bosibl efallai. Felly, bydd safleoedd o'r fath yn cael eu rheoli'n briodol er mwyn cynyddu gallu'r amgylchedd i ymdopi ag unrhyw amodau newidiol a all ddigwydd. Bydd y Strategaeth hon yn asesu holl beryglon llifogydd ac felly bydd unrhyw gamau i liniaru'r risg yn cael eu cymryd mewn dull cyson a mesuradwy; fodd bynnag, bydd y risg i fywyd, eiddo a safleoedd amgylcheddol yn cael eu pwyso yn unol â'r dogfennau canllaw a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr...

Lle mae tir sy'n cynnwys SDdGA, SCNP, GNL, SDPRh ac ACA yn cael ei adnabod fel tir sy'n destun perygl llifogydd, ymgymerir ag arolygon ac adroddiadau i adnabod efefithiau niweidiol posibl llifogydd a pha fesurau y gellid eu gweithredu i leihau'r perygl llifogydd a/neu gynyddu gwytnwch i newidiadau hirdymor.

Gall mesurau o'r fath gynnwys adeiladu pantiau, ffosydd draenio neu fyndiau pridd bychain i wyro dŵr wyneb i ffwrdd o'r ardaloedd mwyaf sensitif i ardaloedd o arwyddocad amgylcheddol llai, neu newid rheolaeth y tir (3.1).

Buddiannau

1 Cynnal, gwella a chynyddu gwytnwch y cynefinoedd presennol, yn arbennig SDdGA, SCNP, ACA, GNL a SDPRh
2 Adfer cynefinoedd i'r cyflwr gwreiddiol cyn gynted ag y bo modd

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

3.3 Gwrthsefyll
Amddiffyn
Amcan 9

O fewn CBST mabwysiedir diwylliant o  wytnwch i berygl llifogydd mewn perthynas ag eiddo a thir sy'n destun perygl llifogydd. Bydd hyn yn golygu gweithredu mesur a fydd yn lleihau'r perygl o ddŵr llifogydd yn mynd i mewn i eiddo ac ar dir a fyddai'n cael ei effeithio'n andwyol gan lifogydd. Trafodir gwrthsefyll mewn perthynas ag eiddo yn 5.5 isod.

Lle mae tir yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA) neu Safleoedd o Gadwraeth Natur Pwysig (SCNP), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Gwarchodfeydd Nsatur Lleol (GNLl) neu Safleoedd Daearegol Rhanbarthol Pwysig (SDRhP), mabwysiedir mesurau a fydd yn lleihau risg dŵr llifogydd yn mynd ar y safle, er bod yn rhaid derbyn na fydd modd dileu'r risg yn llwyr. Felly, bydd safleoedd o'r fath yn cael eu rheoli'n briodol er mwyn cynyddu gallu'r amgylchedd i ymdopi ag unrhyw amodau newidiol a all ddigwydd.

Lle mae tir sy'n cynnwys SDdGA neu SCNP yn cael ei adnabod fel tir sy'n destun perygl llifogydd, ymgymerir ag arolygon ac adroddiadau i adnabod effeithiau niweidiol posibl llifogydd a pha fesurau y gellid eu gweithredu i leihau'r perygl llifogydd a/neu gynyddu gwytnwch i newidiadau hirdymor.

Gall mesurau o'r fath gynnwys adeiladu pantiau, ffosydd draenio neu fyndiau pridd bychain i wyro dŵr wyneb i ffwrdd o'r ardaloedd mwyaf sensitif i ardaloedd o arwyddocad amgylcheddol llai, neu newid rheolaeth y tir (3.1).

Buddiannau

1 Cynnal, gwella a chynyddu gwytnwch cynefinoedd presennol, yn enwedig SDdGA, SCNP, ACA, GNLl a SDPRh

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

3.4 Adfer
Rhwystro
Amcanion 9, 10

Materion Cynllunio

Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o waith adfer tir yn cael ei wneud trwy'r system Gynllunio; felly bydd cyfle i gyrff statudol perthnasol gyfrannu. Er gwaethaf hyn, bydd dymuniad i ddefnyddio atebion peirianyddol 'meddal' (yn hytrach na 'chaled') i reoli dŵr ar safleoedd adfer. Dim ond pan fydd tystiolaeth glir nad yw atebion o'r fath yn briodol oherwydd materion sy'n benodol i safle neu ardal arbennig y bydd opsiynau tirweddu 'caled' yn cael eu hystyried.

Materion Peirianyddol

Yn draddodiadol, mae ochr orllewinol dyffryn Afon Lwyd wedi bod yn lleoliad cloddio mawr am lo a chlai llosg. Defnyddiwyd amrywiol fathau o gloddio dwfn a drifft sydd wedi gadael llawer iawn o ddeunydd gwastraff ar yr wyneb ar ffurf tomenni. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain nawr wedi eu symud a dim ond un glofa ddrifft sy'n gweithio bellach yn y dyffryn.

Mewn blynyddoedd diweddar, mae echdynnu glo wedi ei adfer gyda chloddio glo brig ac er bod cloddiadau arwyddocaol wedi eu gweud fel rhan o'r broses echdynnu, mae dwy brif ardal sy'n dal i gael eu hystyried fel rhai ariannol hyfyw ar gyfer y broses hon: Pwll Ddu a'r British. Mae problemau cynllunio amgylcheddol arwyddocaol yn gysylltiedig â'r ddwy a bydd CBST angen cynllun adsefydlu/ailddatblygu manwl cyn i unrhyw echdynnu ddigwydd.

Mae draenio ar y safleoedd hyn fel rheol ar ffurf ffosydd draenio, pantiau, draeniau Ffrengig, carthffosydd dŵr wyneb a sianeli wedi eu leinio. Mae'r technegau hyn fel rheol yn adfer dŵr ffo ar yr wyneb i lefel debyg i werthoedd caeau gleision unwaith y mae'r llystyfiant wedi ei sefydlu a'r safle wedi aeddfedu.

Polisi CBST yw adfer holl dir ôl-ddiwydiannol / tir diffaith, lle'n briodol, er mwyn cael defnydd buddiol.

Buddiannau

1 Creu amgylcheddau lled-naturiol
2 Adfer tir i'w ddefnydd blaenorol neu ddefnydd cyffredin cynaliadwy lle bo modd.

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr a chanolig 0- 50 blwyddyn

3.5 Gwelliannau Amgylcheddol
Rhwystro
Amcan 10

Fel rheol, mae cynlluniau gwella amgylcheddol naill ai'n gysylltiedig â safleoedd datblygu neu yn derbyn grantiau cyhoeddus i wella ardaloedd presennol, trefol yn bennaf. Felly mae effaith uchel bosibl y gellir ei chael wrth ystyried cynlluniau o'r fath yn ofalus. Bydd yr Awdurdod Lleol yn:

1 Cynnwys gwelliannau mewn rheolaeth dŵr wyneb ar holl gynlluniau a ariennir yn gyhoeddus
2 Gofyn am arddangosfa o dechnegau rheoli dŵr ar bob Prif Gynllun Tirweddu a gyflwynir fel rhan o Amodau Cynllunio
3 Gofyn am ddileu rhywogaethau ymledol anfrodol o/sy'n cyffinio safleoedd gwella/datblygu ac yna plannu eilaidd i leihau aildyfu ac erydiad

Buddiannau

1 Llai o ddŵr ffo wyneb ar ddatblygiadau newydd a gwelliannau amgylcheddol a ariennir yn gyhoeddus

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr, canol a hir 0 – 100 blwyddyn

3.6 Cynlluniau Rheoli Lefel Dŵr
Amddiffyn

Amcan 13

Mae gan CBST un corff dŵr sydd wedi ei gofrestru dan Ddeddf Cronfeydd 1975 a nodir hwn isod.

Cyrff Dŵr sydd wedi eu Cofrestru dan y Ddeddf Cronfeydd 1975

1 Cronfa Blaen Bran – Cofrestrwyd dan Ddeddf Cronfeydd 1975, mae'r gronfa hon wedi ei dosbarthu fel un 'sensitif' gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac o Awst 2012 caiff ei gweinyddu gan y corff hwn.
Perchennog – Cysylltwch â Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfeirnod Grid – 326737,197083
Arwynebedd – 1.19ha

Cyrff Dŵr dros 2,000m2 (0.2ha) mewn ardal o fewn (neu'n ffinio) Ardal Torfaen

Adnabuwyd y pyllau canlynol fel rhai yn y categori hwn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Pyllau Llantarnam | 330312,192897 | 1.04 ha |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | Llyn Cychod Cwmbran | 330475,193896 | 1.52 ha |
| 3 | Pwll Cwm Lickey | 327051,198687 | 0.69 ha |
| 4 | Deer Ponds Parc Pont-y-pŵl | 328799,200873 | 0.21 ha |
| 5 | Cronfa Cwmafon | 326900,207112 | 0.82 ha |
| 6 | Balls Pond Blaenafon | 325439,209676 | 0.40 ha |
| 7 | Pwll Nant Llechan Pond Blaenafon | 325580,209926 | 0.26 ha |
| 8 | Pwll Garn Blaenafon | 323990,209563 | 0.61 ha |
| 9 | Pwll Ddu | 324110,210580 | 0.81 ha |
| 10 | Llynnoedd Garn Blaenafon | 323229,209971 | 4.01 ha |
| 11 | Pwll Coity Blaenafon | 323291,209038 | 2.23 ha |
| 12 | Pyllau Tomen Garnyrerw | 322675,210817 | 0.69 ha |
| 13 | Cronfa Llandegfedd | 330090,199680 | 172.00 ha |
| 14 | Pant-Yr-Eos | 325640,191530 | 6.44 ha |

Cyrff Dŵr y tu allan i Dorfaen gydag effeithiau posibl ar Dorfaen

Cronfa Court Farm

Mae CBST yn bwriadu paratoi databas o’r holl gyrff dŵr sy’n rhai dynol neu sy’n bantiau naturiol, yn y Fwrdeistref sydd ag arwynebedd mwy na 2,000m$^2$ (0.20 ha) ac a allai felly gael effaith arwyddocaol ar lifogydd dŵr wyneb. Ymgymerir ag arolwg i adnabod y strwythurau hyn yn y ddwy flynedd nesaf.

Buddiannau

1 Bod yn barod ar gyfer unrhyw argyfwng sy’n deillio o fethiant mewn unrhyw strwythur dal dŵr
2 Rhoi amddiffyniad i drigolion lleol

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

3.7 Creu Cynefin
Amddiffyn
Amcan 10

Materion Cynllunio

Mae creu cynefin yn gysylltiedig â rheoli tir (gweler uchod) gyda’r un problemau a chyfleoedd. Yn gyffredinol, y rhan fwyaf o gynefinoedd a grëir yw’r rhai sy’n brin neu’n dirywio ac yn cael effaith gadarnhaol net ar reoli dŵr: y prif fathau o gynefin a grëir yn lleol yw coedlannau, gwrychoedd, glaswelltir, lpllau a gwlyptiroedd. Cefnogir creu cynefinoedd fel modd o liniaru i wrthbwyso unrhyw effeithiau negyddol yn deillio o ddatblygiad.

Problemau Peiranyddol

Er mwyn lleihau cyfanswm dŵr ffo a/neu reoli friglifau o ddalgylchoedd uwchben ardaloedd sydd wedi eu hadnabod fel rhai â pherygl llifogydd bydd CBST yn creu cynefinoedd newydd gyda nodweddion a fydd yn lleihau cyfanswm y dŵr ffo neu'n lleihau briglifau dŵr wyneb sy'n dod o'r safle.

Lle mae dalgylch ar hyn o bryd gyda nodweddion dŵr ffo uchel, megis glaswelltir mwynderau agored, gellir creu'r cynefinoedd eang canlynol yn yr ardal i reoli llif dŵr wyneb:

1 Coedwigaeth
2 Gwlyptir
3 Pyllau gwanhau
4 Gwrychoedd
5 Addasu rheolaeth glaswelltir

Os ystyrir plannu coedlan bydd CBST yn trafod gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, Coed Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Corff Amgylcheddol Cenedlaethol newydd fel Partneriaid Risg, ynghyd â'r perchennog tir lleol, Undebau Ffermio a phartneriaid mewnol.

Os ystyrir gwlyptiredd a phyllau storio, ymgynghorir hefyd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, a'r Corff Amgylcheddol Sengl newydd.

Buddiannau

1 Gwelliannau i reolaeth dŵr gan gynnwys llai o ddŵr ffo a chynnydd yn y gallu i gadw dŵr
2 Gwella bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr, canol a hir 0 – 100 blwyddyn

6.12.4 Rheoli a Chynnal Asedau (CRhAS)

4.1 Cynlluniau Rheoli Asedau System
Amddiffyn
Amcanion 6, 8

Dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 mae gofyn i CBST fel ALlLlA gadw cofrestr o strwythurau neu nodweddion sydd, ym marn yr awdurdod, yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar berygl llifogydd yn y fwrdeistref. Rhaid cofnodi gwybodaeth am bob un gan gynnwys perchnogion a chyflwr.

Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, bydd CBST yn sefydlu databas gan ddefnyddio Microsoft Access a haenau o fewn System

Gwybodaeth Ddaeraryddol Mapinfo (Mapinfo GIS), sydd â'r wybodaeth ganlynol wedi ei chofnodi:

1 Taenlen Excel a haenen GIS yn dangos holl garthffosydd dŵr wyneb a charthffosydd cyfun Dŵr Cymru / Welsh Water sy'n fwy na 400mm mewn diamedr a'r tyllau archwilio cysylltiedig
2 Cofnodion yn y databas Access a haenen GIS yn dangos holl gyrsiau dŵr gyda chwlfert 300mm diamedr a mwy a'r holl dyllau archwilio, mewnlifiau ac allfeydd, ym meddiant CBST, Network Rail, SWTRA a pherchnogion tir eraill
3 Cofnodion yn y databas Access a'r haenen GIS sy' dangos holl sianeli agored, pyllau a chronfeydd arwyddocaol.

Yn fwy diweddar, mae CBST wedi prynu tri modiwl o system benodol ar gyfer Rheoli Asedau gan STM. Y system hon a gaiff ei defnyddio yn y dyfodol i reoli strwyrhurau draenio gan gynnwys y canlynol:

1 Databas o'r holl bibellau, cwlfertau, sianeli, ffosydd draenio, tyllai archwilio, mewnlifiau ac allfeydd.
2 Haenau GIS o'r holl bibellau, cwlfertau, sianeli, ffosydd draenio, tyllau archwilio, mewnlifiau ac allfeydd.
3 Cofnodion o bob archwiliad a wnaed i gridiau neu gwlfertau a
4 Chofnodion glanhau gridiau a gwlïau

Hyd yma, mae CBST wedi defnyddo'r databas Access i gadw'r wybodaeth ganlynol:

1 cofrestr o'r strwythurau a'r nodweddion hynny sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar lifogydd
2 rhestr o'r holl gridiau

Defnyddir y system o ddatabas a haenau GIS gan CBST i reoli asedau draenio. Mae angen gwybodaeth bellach ac fe ymgymerir â'r arolygon a'r cyfrifiadau canlynol:

1 Cyfrifo capasiti pob cwlfert
2 Adnabod strwythurau mewnlif islaw safonau presennol Asiantaeth yr Amgylchedd, sydd angen eu huwchraddio
3 Adnabod holl berchnogion a'u manylion cyswllt
4 Cyflwr presennol pob cwlfert arwyddocaol

Pan adnabyddir ardaloedd sy'n destun perygl llifogydd lefel uchel, un o'r mesurau a ystyrir er mwyn lleihau perygl llifogydd fydd adeiladu cwlfertau neu sianeli dŵr wyneb newydd.

Buddiannau

1 Darparu manylion holl strwythurau draenio presennol sy'n debygol o effeithio perygl llifogydd
2 Rhoi mynediad hawdd ac effeithiol i'r wybodaeth sydd ar gael
3 Darparu arolygon cyflwr a chofnodion cynnal a chadw ar gyfer holl strwythurau draenio
4 Cadw cofnodion glanhau ac archwilio gridiau a gwlïau

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr – 0 – 20 blwyddyn

4.2 Rheoli Amddiffynfeydd/strwythur
Amddiffyn
Amcan 6

Mae gan CBST nifer o amddiffynfeydd llifogydd ffurfiol, sydd wedi eu cynnwys yn y system GIS. Mae'r rhain yn bennaf yn argloddiau pridd, sydd wedi eu hadeiladu gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Rhoddir rhestr o'r amddiffynfeydd isod:

At hyn, mae gan CBST nifer o amddiffynfeydd llifogydd anffurfiol, sy'n cynnwys eitemau megis muriau terfyn eiddo, argloddiau a adeiladwyd ar gyfer cynlluniau priffyrdd, eiddo unigol neu hyd yn oed llinellau cyrbiau. Er nad yw'r rhain wedi eu hadeiladu fel amddiffynfeydd yn erbyn llifogydd, mewn rhai achosion maent yn amddiffyn eiddo rhag llifogydd ac mewn eraill maent yn effeithio llwybr dŵr wyneb yn ystod llifogydd ac felly medrent effeithio perygl llifogydd yn arwyddocaol.

Cynigir bod y strwythurau anffurfiol hyn yn cael eu hadnabod fel rhan o'r Cynlluniau Rheoli Peryglon a Risg erbyn Mehefin 2012. Caiff yr wybodaeth hon wedyn ei chynnwys ar ddatabas CBST o asedau draenio.

Buddiannau

1 Cadw dŵr llifogydd o ardaloedd a adnabwyd fel rhai sy'n destun perygl llifogydd

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr a chanolig 0 – 50 blwyddyn

4.3 Cynnal a chadw sianeli
Amddiffyn

Amcan 6

Mae sianeli, sydd wedi eu hadnabod fel rhai arwyddocaol I berygl llifogydd, wedi eu cynnwys yn natabas CBST o strwythurau draenio a'r haenau GIS.

Lle mae'r strwythurau hyn ym meddiant CBST cânt eu cynnal a'u cadw gan Adran Draenio CBST. Gall sianeli gynnwys cyrsiau dŵr cyffredin, sianeli wedi eu leinio, ffosydd draenio a phantiau.

Nid yw cyflwr y cwlfertau hyn yn hysbys ac fe wneir gwaith cynnal a chadw "pan fo angen" a gall gynnwys y canlynol:

1 Torri gwair a phrysgwydd lle mae'r rhain yn rhwystro llif a lleihau maint y sianel
2 Atgyweirio gwrthfwaon concrid neu amddiffynfeydd torlannau lle bu niwed, a allai danseilio cyfanrwydd y sianel.
3 Adeiladu mewnlifau newydd neu well i gwlfertau lle mae'r strwythur presennol yn lleihau gallu gweithredol y cwlfert neu'n achosi risg llifogydd oherwydd rhwystrau. Caiff y strwythurau newydd eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â Chod Ymarfer Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer mewnlifau.

Cynigir fel rhan o'r strategaeth hon y bydd arolygon yn cael eu gwneud ar bob sianel a ystyrir yn arwyddocaol o ran risg llifogydd. Bydd yr arolygon yn adnabod manylion y deunyddiau adeiladu, maint a ffurf y sianel a'i chyflwr.

O'r wybodaeth hon, caiff rhaglen fanwl o waith ei llunio i gynnal a chadw a/neu adnewyddu'r holl sianeli presennol.

Ar ôl y rownd nesaf o waith modelu dŵr wyneb a pharatoi Mapiau Peryglon a Risgiau, bydd y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yn cael eu llunio. Bydd y cynlluniau hyn yn adnabod mesurau unigol i'w gweithredu ym mhob ardal perygl llifogydd, a all gynnwys adeiladu sianeli ychwanegol i gludo dŵr wyneb o ardaloedd o berygl llifogydd uchel.

Buddiannau

1 Sicrhau bod holl sianeli ar gyrsiau dŵr arwyddocaol yn addas i'r pwrpas
2 Sicrhau bod yr holl sianeli wedi eu cynnal yn dda

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

## 4.4 Cynnal a chadw cwlfertau

Amddiffyn
Amcan 6

Cwlfertau a phibellau, sydd wedi eu hadnabod fel perygl llifogydd arwyddocaol, wedi eu cynnwys yn natabas CBST o strwythurau draenio ac ar yr haenau GIS.

Lle mae'r strwythurau hyn ym meddiant CBST neu wedi ei dosbarthu fel rhai o bwysigrwydd strategol maent yn cael eu cynnal gan Adran Draenio CBST.

Lle mae'n gymharol hawdd mynd i mewn i'r cwlfert ac os ystyrir bod y cwlfert yn un strategol bwysig, câiff ei harchwilio bob blwyddyn.

Rhestrir isod y cwlfertau a gynhwysir yn y categori hwn:

Nid yw'r rhan fwyaf o'r cwlfertau, sydd ym meddiant CBST, yn dod o fewn y categori hwn, ac felly nid yw eu cyflwr yn hysbys ac fe wneir gwaith cynnal a chadw "pan fo angen" a gall gynnwys y canlynol:

1 Atgyweirio gwrthfwaon a muriau cwlfert lle mae'r adeiladwaith yn rhai gwaith maen
2 Adnewyddu darnau o gwlfert, sydd wedi dymchwel, gan ddefnyddio pibellau modern
3 Adnewyddu neu atgyweirio strwythurau presennol megis tyllau archwilio, mewnlifiau ac allfeydd

Cynigir fel rhan o'r strategaeth hon y bydd arolygon yn cael eu gwneud ar bob cwlfert a ystyrir yn arwyddocaol o safbwynt perygl llifogydd. Bydd yr arolygon yn adnabod manylion deunydd adeiladu, maint a siâp y cwlfert a'i gyflwr.

O'r wybodaeth hon, caiff rhaglen waith fanwl ei llunio ar gyfer cynnal a chadw a/neu adnewyddu'r holl gwlfertau presennol.

Ar ôl y rownd nesaf o waith modelu dŵr wyneb a pharatoi Mapiau Peryglon a Risgiau, bydd y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd  yn cael eu hysgrifennu. Bydd y cynlluniau hyn yn adnabod mesurau unigol i'w gweithredu ym mhob ardal perygl lllifogydd, a all gynnwys adeiladu cwlfertau ychwanegol wedi eu dylunio i safonau modern i gludo dŵr wyneb gormodol o ardaloedd perygl llifogydd uchel.

Buddiannau

1 Sicrhau bod yr holl gwlfertau ar gyrsiau dŵr arwyddocaol yn

addas i'r pwrpas

2 Sicrhau bod yr holl gwlfertau wedi eu cynnal yn dda

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr 0 – 20 blwyddn

6.12.5 Astudiaethau, Asesiadau a Chynlluniau

5.1 Archwilio
Parodrwydd
Amcanion 6, 13

Wrth baratoi'r strategaeth hon ac adnabod mesurau y gellir eu gweithredu fel rhan o'r Cynlluniau Rheoli Perygl, mae nifer o faterion wedi eu hadnabod mewn perthynas â diffyg gwybodaeth sydd ar gael o fewn CBST ar hyn o bryd. Cynigir y bydd nifer o arolygon ac archwiliadau yn digwydd er mwyn ychwanegu at yr wybodaeth sydd eisoes ar gael.

Rhoddir rhestr o'r arolygon sydd eu hangen isod:

1 Pan adnabyddir tir sy'n cynnwys SDdGA neu SCNP fel un sy'n destun perygl llifogydd, ymgymerir ag arolygon ac adroddiadau i adnabod effeithiau niweidiol posibl llifogydd a pha fesurau y gellid eu gweithredu i leihau'r perygl llifogydd.
2 Arolwg o gyrff dŵr gydag arwynebedd mwy na 2,500 $m^2$
3 Gwybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer y databas a'r haenau GIS
    1 Cyfrifo gallu pob cwlfert
    2 Adnabod y strwythurau mewnlif sydd islaw safonau presennol Asiantaeth yr Amgylchedd, y bydd angen eu huwchraddio
    3 Adnabod holl berchnogion a'u manylion cyswllt
    4 Cyflwr presennol pob cwlfert arwyddocaol
4 Adnabod yr holl nodweddion sy'n gweithredu fel strwythurau amddiffyn rhag llifogydd
5 Arolygu'r holl sianeli a ystyrir yn arwyddocaol o ran perygl llifogydd. Bydd yr arolygon yn adnabod manylion y deunyddiau adeiladu, maint a siâp y sianel a'i chyflwr.
6 Arolygu holl gwlfertau yr ystyrir eu bod yn arwyddocaol o safbwynt perygl llifogydd. Bydd yr arolygon yn adnabod manylion y deunyddiau adeiladu, maint a siâp y sianel a'i chyflwr.

Buddiannau

1 Cael yr wybodaeth i adnabod lle mae angen mesurau
2 Cael yr wybodaeth i ddylunio mesurau newydd

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

5.2 Asesu Risg
Parodrwydd
Amcan 13

Sefydlwyd mesur o'r perygl llifogydd yn ardal CBST fel rhan o'r Adroddiad ARhRLl. Adnabu'r adroddiad 27 o "Sgwariau Gleision" lle tybir bod lefel y risg yn arwyddocaol a'r Ardal Perygl Llifogydd yn 63km$^2$.

Mae'r Dangosyddion Perygl Llifogydd Allweddol ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd CBST wedi eu cyfrifo fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Canlyniadau i iechyd dynol – Nifer y bobl (lluosydd 2.23) | 7,542 |
| 2 | Canlyniadau iechyd dynol eraill – Nifer gwasanaethau critigol wedi eu gorlifo | 40 |
| 3 | Canlyniadau economaidd – nifer o eiddo amhreswyl wedi eu gorlifo | 852 |

Fel rhan o ofynion y Rheoliadau Perygl Llifogydd caiff y Perygl Llifogydd yn CBST ei ailasesu ac mae'r amserlen ganlynol wedi ei llunio.

1 Map Llifogydd wedi ei diweddaru ar gyfer Dŵr Wyneb i'w baratoi gan Gyfoeth Naturiol Cymru erbyn mis Rhagfyr 2012
2 Mapiau Peryglon Llifogydd i'w cyflwyno erbyn mis Mehefin 2012
3 Cynlluniau Rheoli Peryglon Llifogydd i'w cyflwyno erbyn mis Mehefin 2013

Bydd y broses a nodir isod yn arwain at ddarlun manylach a chywir o'r perygl llifogydd yn CBST.

Buddiannau

1 Darparu mesur cywirach o'r perygl llifogydd yn CBST
2 Pennu meincnod o berygl llifogydd ar gyfer y Fwrdeistref; caiff hwn ei ddefnyddio i sefydlu lleihau perygl llifogydd o ganlyniad i weithredu mesurau ychwanegol

Amserlen ar gyfer Gweithredu

Tymor byr a chanolig 0-50 blwyddyn

5.3 Cynllun Strategaeth
Parodrwydd
Amcan 13

Bydd y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd hon ar gyfer CBST yn darparu'r fframwaith ar gyfer paratoi'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, i'w cyflwyno erbyn Mehefin 2015. Bydd y strategaeth yn sicrhau bod y cynlluniau oll yn cael eu paratoi yn gyfartal ac yn llywodaethu'r broses a fydd yn sefydlu pa fesurau sydd i'w gweithredu er mwyn cyflawni amcan lleihau perygl llifogydd ym mhob un o'r ardaloedd o fewn CBST lle adnabuwyd perygl llifogydd arwyddocaol.

Bydd y strategaeth yn cyflwyno system o flaenoriaethu mesurau i'w gweithredu ar lefel uchaf perygl llifogydd a'r canlyniadau mwyaf priodol o'r broses dadansoddi cost a budd.

Buddiannau

1 Sicrhau bod Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd oll yn cael eu paratoi mewn dull cyson

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

5.4 Lliniaru llifogydd lefel eiddo lleol - gwytnwch
Parodrwydd
Amcan 7

Nid yw CBST yn meddu ar Dai Cyngor gan fod eu stoc dai wedi ei throsglwyddo i Dai Cymunedol Bron Afon yn 2008.
Fodd bynnag, maent yn berchen ar swyddfeydd, ysgolion, canolfannau iechyd, llety gwarchod ac adeiladau eraill y cyngor.

Mae'r adeiladau yn amrywio o ran oedran ond nid oes unrhyw un wedi ei adeiladu i wrthsefyll llifogydd. Cynigir, unwaith y bydd y gwaith modelu llifogydd manwl wedi ei gwblhau, bod holl adeiladau'r Cyngor sydd mewn perygl wedi eu hadnabod. Pan fydd yr eiddo i gael ei ailwampio, gofynnir am ddau bris, un wedi ei ddylunio gyda gwytnwch rhag llifogydd ac un wedi ei ddylunio i safonau adeiladu "arferol". Yna ymgymerir â dadansoddiad cost a budd i benderfynu os bydd cost ychwanegol cynnwys gwytnwch rhag llifogydd yn fanteisiol yn yr achos hwnnw. Bydd angen adnabod cyllid i dalu'r gost ychwanegol.

Lle mae adeiladau newydd yn cael eu cynllunio mewn ardaloedd mewn perygl o ddioddef llifogydd, bydd CBST yn mabwysiadu polisi o ddefnyddio safonau adeiladu sy'n wydn o ran gorlifo dŵr.

Gall dulliau o gyflawni gwytnwch mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd gynnwys y canlynol:

Defnyddio deunyddiau sy'n gwrthsefyll llifogydd

Lloriau teils ceramig, byrddau sgyrtin sy'n gwrthsefyll llifogydd, unedau cegin dur. Disodli unedau cegin ac ystafell ymolchi bwrdd sglodion gyda rhai plastig, dur neu bren solet. Gosod fframiau drws a ffenestr sy'n gwrthsefyll dŵr. Adnewyddu plastr arferol gyda fersiwn sy'n gwrthsefyll dŵr yn well megis plastr calch neu rendr sment. Defnyddio seliau dal dŵr bob amser ar furiau allanol a phaent gwrthddwr ar furiau mewnol. Defnyddio lefel goncrid ddwysach ar loriau concrit. Disodli iswleiddiad gydag inswleiddiad cell a fydd yn goroesi llifogydd. Lloriau concrid yn lle rhai pren crog. Cymalau muriau i'w hamddiffyn trwy osod cwrs lleithder cemegol islaw lefel y distiau.

Defnyddio technegau adeiladu sy'n gwrthsefyll llifogydd
Ail-blastro muriau hyd at fedr uwchben lefel y llawr gyda phlaster gwrthddwr; holl brif gyfarpar ar blinth, unedau cegin gydag'r unedau gwaelod oddi ar y llawr a chodi pwyntiau trydanol a gwasanaethau eraill uwchben lefel y llawr. Defnyddio lloriau teils gyda matiau y gellir eu codi'n hawdd. Prynu briciau aer gyda gorchuddion y gellir eu tynnu – eu rhoi ymlaen yn ystod llifogydd, ond eu tynnu wedyn i helpu gyda sychu. Gosod offer trydanol drud megis boeleri i fyny grisiau.

Buddiannau

1 Achosir llai o niwed i eiddo sy'n dioddef llifogydd
2 Adfer adeiladau a medru eu defnyddio eto yn gyflymach
3 Bydd cost cylch bywyd cyfan yr adeilad yn is

Amserlen ar gyfer Gweithredu

Bydd adeiladu gwytnwch mewn eiddo presennol yn digwydd wrth i eiddo gael ei raglennu ar gyfer ailwampio a bydd ond yn cael ei ystyried pan gaiff ei sefydlu eu bod mewn ardal sy'n destun perygl llifogydd. Mae'r amserlen felly ar gyfer holl eiddo'r Cyngor i'w ailwampio yn debygol o fod hyd at 50 mlynedd
Tymor canol 20-50 blwyddyn

5.5 Lliniaru llifogydd lefel eiddo lleol - gwrthsefyll
Amddiffyn
Amcan 7

Lle adnabyddir ardaloedd perygl llifogydd yn rhoi lefelau dŵr llifogydd llai na 600mm, yna ystyrir mesurau a fydd yn rhwystro dŵr rhag mynd i mewn i eiddo unigol.

Gall mesurau gynnwys muriau llifogydd symudol, gardiau llifogydd ar ddrysau neu ddisodli drysau presennol gyda rhai gyda seliau a fydd yn gwrthsefyll dyfnder y dŵr a ragwelir gan y gwaith modelu. Byddai angen gosod y mesurau hyn gyda falfiau dim dychwelyd neu falfiau rhwystro dwbl yn y carthffosydd budr i rwystro dŵr llifogydd rhag mynd i eiddo trwy'r systemau carthffosiaeth.

Buddiannau

1 Sicrhau bod eiddo sydd wedi ei niweidio gan lifogydd yn cael ei adfer i gyflwr lle gellir byw ynddo cyn gynted ag y bo modd

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr a chanolig 0 – 50 blwyddyn

5.6 Astudiaethau cyn-ddichonolrwydd, astudiaethau dichonolrwydd
Parodrwydd
Amcan 13

Pan fydd y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yn cael eu paratoi, adnabyddir amrywiol opsiynau o ran mesurau i'w gweithredu. Yn y cyfnod hwn, ymgymerir â chynlluniau cyn-ddichonolrwydd a fydd yn adnabod pa fesurau sydd fwyaf tebygol o gyflawni'r gostyngiad dymunol mewn perygl lifogydd am y gost briodol.

Ar ôl y broses hon, dewisir nifer llawer mwy cyfyngedig o fesurau ar gyfer astudiaethau dichonolrwydd manylach.

Buddiannau

1 Sicrhau bod y mesurau mwyaf priodol yn cael eu cyflwyno ar gyfer gweithredu

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Caiff y gwaith hwn ei wneud yn y pedair blynedd nesaf i sicrhau bod yr holl Gynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd wedi eu cwblhau

5.7 Cynlluniau Prosiect
Parodrwydd
Amcan 13

Ar ôl cwblhau'r astudiaeth ddichonolrwydd a grybwyllwyd yn 5.6 uchod, bydd pob mesur yn cael arfarniad yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

1 A yw'n cyfrannu i strategaeth lefel uchel CBST o leihau perygl llifogydd?

2 Pa effaith fesuradwy y mae’r mesur yn ei chael ar leihau perygl llifogydd?
3 A yw’r cynllun o fewn ardal flaenoriaeth perygl llifogydd?
4 A yw’r dadansoddiad cost a budd yn dangos bod y cynllun werth yr arian?
5 A oes cyllid ar gael i weithredu’r cynllun?

Os yw’r cynllun yn bodloni’r amodau hyn, caiff ei anfon at Lywodraeth Cymru ar gyfer arfarniad pellach.

Buddiannau

1 Adnabod perygl llifogydd mewn dull mwy manwl gywir
2 Caniatáu paratoi mesurau i leihau perygl llifogydd

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr a chanolig 0 – 50 blwyddyn

5.8 Cynlluniau Rheoli Dŵr Wyneb
Parodrwydd
Amcan 13

Ar ôl cyflenwi’r Mapiau Llifogydd diweddaraf ar gyfer Dŵr Wyneb a pharatoi’r Mapiau Peryglon Llifogydd, bydd CBST yn datblygu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer dŵr wyneb, cyrsiau dŵr cyffredin a dŵr daear.

Buddiannau

1 Adnabod perygl llifogydd mewn dull mwy manwl gywir
2 Caniatáu paratoi mesurau i leihau perygl llifogydd

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr a chanolig 0 – 50 blwyddyn

6.12.6 Ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad lefel uchel

6.1 Gwaith partneriaeth
Parodrwydd
Amcan

Bydd cydweithio agos gyda’r partneriaethau canlynol:

1 Partneriaeth Bioamrywiaeth Torfaen
2 Partneriaeth Amgylcheddol Torfaen
3 Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant?
4 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol?
5. Partneriaeth Addasu i Newid yn yr Hnsawdd Bwrdd Gwasanaeth Lleol Torfaen

Buddiannau

Gwaith cydweithredol ac integreiddio i flaenoriaethu cynlluniau a gweithredu prosiectau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar amcanion y strategaeth hon. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig gweithredu prosiectau ffisegol ond hefyd addysgu a chynyddu ymwybyddiaeth (Thema yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen).

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Ar unwaith a pharhaus
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

6.12.7 Monitro

7.1 Monitro erydu
Parodrwydd
Amcan 10

NI ragwelir y bydd CBST yn cael ei effeithio'n arwyddocaol gan erydu. Efallai y bydd peth erydu mewn prif afonydd ond nid yw'r mater hwnnw yn destun yr adroddiad hwn.

Efallai y bydd mân erydu mewn cyrsiau dŵr cyffredin ond mae'r sianeli a ffurfiwyd gan ffrydiau yn y Fwrdeistref wedi eu sefydlu dros nifer fawr o flynyddoedd ac felly ni ystyrir bod erydu pellach yn broblem arwyddocaol. Mae erydu yn fwy tebygol a chyffredin ar safleoedd adfer hanesyddol. Lle mae hyn yn broblem barhaus, defnyddir gwaith adfer pellach neu greu cynefinoedd neu reoli tir i ddatrys y broblem/lleihau erydu.

Mae erydu mewn gwelyau nentydd dyfnion yn digwydd ar raddfa fechan sy'n arwain at wastraff yn cronni ar sgriniau wrth fynedfa cwlfertau. Byddai hyn yn cael ei weld yn ystod gwaith archwilio arferol y sgriniau ac fe wneid trefniadau i glirio'r deunydd o'r safle.

Er mwyn lleihau effaith deunydd yn cyfyngu llif i mewn i gwlfertau, bydd gridiau newydd neu well yn cael eu hadeiladu gyda gridiau ychwanegol i gasglu'r deunydd cyn iddo gyrraedd mynedfa'r cwlfert.

Buddiannau

1 I alluogi cymryd camau cywiro os bydd effaith llifogydd yn achosi cyfyngiadau mewn sianeli a chyrsiau dŵr.

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

7.2 Monitro cynefinoedd
Parodrwydd
Amcan 9

Mae monitro Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig (SCNP) yn ffurfio rhan o waith monitro'r Cynllun Datblygu Lleol. Gan fod SCNP yn cynnwys y mwyafrif llethol o gynefinoedd naturiol o ansawdd, mae'r gwaith monitro hwn yn cyd-daro'n gryf â gwaith monitro Cynefinoedd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Torfaen. Mae cynefinoedd CGB lleol sydd fwyaf perthnasol yn gynnwys gwlyptir, afonydd a nentydd, glaswelltir (corsiog); fodd bynnag bydd cynefinoedd eraill yn cael effaith fawr hefyd megis gwrychoedd, coedlannau brasddeiliog a chonifferaidd.

Buddiannau

1 Monitro newid (lleihau, cynyddu, gwella cynefinoedd naturiol).

Amserlen ar gyfer Gweithredu
1 flwyddyn + - parhaus
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

7.3 Arolwg topograffig
Parodrwydd
Amcan

Ymgymerir ag arolygon topograffig lle bo angen i ganiatáu i gynlluniau adeiladu gael eu dylunio fel rhan o Gynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd

Buddiannau

1 Caniatáu dylunio mesurau yn fanwl ar gyfer safleoedd penodol

Amserlen ar gyfer Gweithredu

7.4 Ffotograffiaeth o'r awyr
Parodrwydd
Amcan 13

Mae'n bosibl monitro safleoedd/cynefinoedd trwy gyfrwng ffotograffiaeth o'r awyr. Rydym yn cael ffotograffau gan yr Arolwg Ordnans o'r Fwrdeistref gyfan bob 2-3 blynedd ac maent ar gael i edrych arnynt ar lwyfan GIS.

Buddiannau

1 Gallu i fonitro newidiadau penodol heb ymweliad safle

Amserlen ar gyfer Gweithredu
Parhaus
Tymor byr 0 – 20 blwyddyn

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

## AMCANION A MESURAU CYSYLLTIEDIG

| | Amcan | Mesurau |
|---|---|---|
| 1 | Lleihau trallod trwy leihau nifer y bobl sy'n agored i berygl llifogydd. | 1.1, 1.2, 1.4, 1.6, 3.1 |
| 2 | Lleihau tarfu ar y gymuned trwy leihau nifer yr eiddo preswyl a masnachol a effeithir gan beryglon llifogydd | 1.1, 1.2, 1.4, 1.6, 3.1 |
| 3 | Lleihau perygl i fywyd wrth leihau nifer y bobl sy'n agored i berygl llifogydd o ddyfnder a chyflymder arwyddocaol. | 1.1, 1.2, 1.4, 1.6, 3.1 |
| 4 | Lleihau tarfu ar seilwaith critigol neu baratoi cynlluniau i ganiatáu cynnal y gweithrediadau. | 1.1, 1.2, 1.4, 1.6, 3.1 |
| 5 | Darparu systemau i roddi rhybudd cynnar o lifogydd posibl i unigolion a chymunedau. | 2.1, 2.2, 2.3, 2.4 |
| 6 | Darparu systemau effeithiol i reoli a chynnal asedau dŵr wyneb. | 4.1, 4.2, 4.3, 4.4, 5.1 |
| 7 | Lleihau niwed economaidd. | 5.4, 5.5 |
| 8 | Lleihau cost rheoli. | 4.1 |
| 9 | Cyfrannu i ymateb addasu i newid yn yr hinsawdd ar gyfer Torfaen. | |
| 10 | Amddiffyn a gwella Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA), Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig (SCNP), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl) a Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol (SDPRh). | 3.2, 3.3, 3.4, 7.2 |
| 11 | Cyfrannu i gyflenwi Cynllun Gweithred Bioamrywiaeth Torfaen. | 3.4, 3.5, 3.7, 7.1 |
| 12 | Creu sianeli a chyrff dŵr naturiol gyda'r addasu lleiaf. | |
| 13 | Amddiffyn a gwella ansawdd dŵr. | 1.3, 1.5, 1.6 |
| 14 | Darparu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer pob ardal sy'n destun perygl llifogydd. | 2.5, 2.6, 2.7, 3.6, 5.1, 5.2, 5.3, 5.6, 5.7, 5.8, 7.3, 7.4 |
| 15 | Sicrhau bod mesurau yn cael eu dylunio a'u hadeiladu mewn modd cynaliadwy. | 1.1, 1.3, 1.6 |
| 16 | Sicrhau bod CBST yn gweithio mewn partneriaeth â Phartneriaid Risg a gweithio'n gydweithredol ag Awdurdodau cyffiniol. | 6.1 |
| 17 | Sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi ar gyfer gweithredu cynlluniau rheoli perygl llifogydd yn cael eu gwneud ar sail gyson, y gellir ei amddiffyn ac sy'n destun | |

| | | |
|---|---|---|
| | dadansoddiad cost a budd. | |

## 7 Sut a phryd y disgwylir gweithredu'r mesurau

7.1 Dan Adran 6, adnabuwyd rhestr o fesurau i weithredu'r amcanion a restrir yn adran 5 y strategaeth hon. Ym mhob mesur, nodwyd Amserlen ar gyfer Gweithredu sy'n cydymffurfio gyda'r rhai a nodwyd yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru fel y rhestrir isod:

1 tymor byr (0-20 blwyddyn)
2 tymor canol (20-50 blwyddyn)
a
3 tymor hirach (50-100 blwyddyn)

7.2 Nid oes unrhyw fesurau wedi eu hadnabod ar gyfer eu gweithredu fel rhan o'r Strategaeth hon. Rhagwelir y bydd prosiectau a chynlluniau adeiladu manwl yn cael eu hadnabod fel rhan o'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, sydd angen eu cwblhau erbyn Mehefin 2015.

7.3 Caiff prosiectau a chynlluniau adeiladu eu dewis ar gyfer gwaith paratoi a dylunio manwl ar sail system flaenoriaethu a fydd yn adnabod lefel y perygl llifogydd yn seiliedig ar gyfuniad o faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Bydd y system hon yn seiliedig ar gyfres o flaenoriaethau i'w mabwysiadu gan CBST. Unwaith y bydd cynllun wedi ei baratoi, darperir cost debygol a gwneir dadansoddiad cost a budd i benderfynu ar y flaenoriaeth i dderbyn cymorth ariannol. Darperir mewnbwn gan yr Adran Gyllid i benderfynu ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael ac a yw'r cynnig yn ymarferol o ran cyllid ac amserlen. Bydd argaeledd adnoddau ffisegol o ran staff dylunio a chyfleusterau adeiladu hefyd yn cael eu hystyried.

7.4 Lle mae prosiectau a chynlluniau adeiladu wedi eu hadnabod mewn partneriaeth ag Awdurdodau Rheoli Risg eraill, bydd CBST yn ceisio cytuno sut, erbyn pryd a chan bwy y disgwylir gweithredu'r mesurau hyn.

## 8. Costau a buddiannau y mesurau hynny, a sut telir amdanynt

8.1 Ar gyfer pob un o'r mesurau a adnabuwyd yn y Strategaeth Leol, penderfynir ar y costau cysylltiedig, y buddiannau (boed yn gyffwrddadwy neu'n anghyffwrddadwy) a sut telir amdanynt. Ni ellir ymgorffori'r manylion hyn yn y Strategaeth Leol gan nad oes mesurau penodol wedi eu hadnabod i'w gweithredu mewn lleoliadau penodol. Adnabyddir y mesurau hyn wrth baratoi'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a gaiff eu cwblhau erbyn Mehefin 2015.

Cyn gellir manylu mesurau, bydd angen cwblhau'r prosesau canlynol fel sy'n ofynnol gan  Amserlen y Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 a gyhoeddwyd yn y Canllawiau i Awdurdodau Perygl Llifogydd Lleol – Dewis ac Adolygu Ardaloedd Perygl Llifogydd ar gyfer ffynonellau llifogydd lleol:-

1 Cynlluniau Perygl Llifogydd i'w cwblhau erbyn 22 Mehefin 2013
2 Cynlluniau Perygl Llifogydd i'w cwblhau erbyn 22 Mehefin 2013
3 Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd i'w cwblhau erbyn 22 Mehefin 2015

At hyn, bydd angen gweithredu'r trefniadau canlynol i adnabod y mesurau sydd i'w gweithredu mewn lleoliadau penodol:

4 Modelu ardaloedd unigol sydd wedi eu hadnabod fel rhai perygl uchel
5 Blaenoriaethu ardaloedd yn seiliedig ar faint y perygl llifogydd
6 Dylunio mesurau i'w gweithredu

8.2 Mae dadansoddiad cost a budd yn y pen draw yn dibynnu ar y blaeoriaethau strategol a'r dull ariannu, a dyna pam y mae'r Strategaeth Leol yn ystyried y materion hyn gyda'i gilydd ble bynnag y bo modd. Mae'n bwysig sefydlu pwy sy'n talu a phwy sy'n elwa o unrhyw fesurau arfaethedig, gan y bydd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn penderfynu'r broses o ddadansoddi cost a budd i raddau helaeth.

8.3 Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag arolwg o'r canllawiau arfarnu sy'n ymwneud â dyrannu cyllid, a rhagwelir y bydd ymgynghori ar hyn yn 2012. Nes cyhoeddir unrhyw ganllawiau diwygiedig, dylai'r ALILIA barhau i ddefnyddio cyfres bresennol PAG, wedi ei chefnogi ga unrhyw ddeunydd ychwanegol neu wedi ei ddiweddaru gan Llywodraeth Cymru.

Dylid defnyddio egwyddorion dadansoddiad cost a budd fel yr amlinellwyd yn y Canllawiau Arfarnu Prosiect Llifogydd ac Amddiffynfeydd Arfordirol FCDPAG3 "Arfarniad Economaidd".

Cydnabyddir bod mesurau, hyd yma, wedi eu seilio ar gymhareb cost/budd lle mae'r budd yn cael ei ystyried i fod yn fwy yn y tymor hir na'r costau cysylltiedig. Gan symud ymlaen, fodd bynnag, dylai mesurau gadw'r cydymffurfedd cost/budd, tra'n sicrhau eu bod yn gymesur â lefel y perygl a gyflwynir.

8.4 Wrth ystyried y gwaith sydd ei angen wrth gyflenwi'r Strategaeth Leol, dylai'r ALlLlA ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo i gyflenwi'r Strategaeth Genedlaethol, a hefyd gwaith sy'n cael ei wneud gan gyrff eraill yn yr ardal, yn enwedig Awdurdodau Rheoli Perygl eraill. Bydd trafodaeth gynnar gydag Awdurdodau Rheoli Perygl eraill yn cynorthwyo gyda hyn trwy roddi cyfle i rannu ac felly cael gwell dealltwriaeth o'r rhaglen waith ar gyfer pob partner.

8.5 Ffynonellau Cyllid Posibl

Cyllid Cyhoeddus

8.5.1 Cyllid gan Llywodraeth Cymru

Gyda llai o gyllid uniongyrchol gan y llywodrareth ar gael, mae'n amlwg bod angen newid yr agweddau traddodiadol tuag at ariannu rheoli perygl llifogydd. Crynhoir y sefyllfa bresennol mewn perthynas â chyllid rheoli perygl llifogydd isod:

1 Dan gytundeb rhwng yr ALlLlA a Llywodraeth Cymru, a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2001, rhoddwyd cyllid o £22,727 i bob Awdurdod Unedol yng Nghymru i gefnogi'r ALlLlA i ymgymryd â'r gofyniad i baratoi a chyflwyno ARhPLl cyflawn i Gyfoeth Naturiol Cymru erbyn eu dyddiad penodol hwy, sef 22 Mehefin 2011.

2 Rhoddwyd cyllid pellach i bob Awdurdod Unedol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, sef £90,000, ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyd at 31 Mawrth 2012 a 31 Mawrth 2013. Mae hyn er mwyn i'r ALlLlA gael adnoddau i weithredu'r gofynion dan y Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 ac yn benodol, i ariannu gwaith paratoi'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a darparu Cofrestr Asedau ar gyfer eitemau sy'n cael effaith arwyddocaol ar berygl llifogydd.

3 Rhagwelir y bydd cyllid hefyd yn cael ei roddi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithrediad parhaus y cyfrifoldeb sydd gan yr ALlLlA dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Nid yw manylion y cyllid hwn wedi ei benderfynu eto.

8.5.2 Arian trwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol

Daeth yr Ardoll Seilwaith Cymunedol i rym ym mis Ebrill 2010 ac mae'n darparu ffynhonnell amgen bosibl o gyllid ar gyfer cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd. Mae'n caniatáu i'r fwrdeistref godi arian o ddatblygiadau newydd yn eu hardal er mwyn talu am yr effeith y mae'r datblygiad yn ei chael ar seilwaith lleol. Mae'r arian a godir gan yr ardoll yn cael ei osod ar atodlen codi tâl o brosiectau a gytunwyd. Mae'r ardoll yn seiliedig ar y syniad bod bron pob datblygiad yn cael rhyw effaith ar seilwaith a gwasanaethau, felly mae'n deg bod datblygiad yn cyfrannu tuag at gost cynnal a chadw neu uwchraddio seiliwaith lleol.

Mae gofyn i Awdurdod Lleol ddefnyddio'r arian hwn ar gyfer seiliwaith sydd ei angen i gefnogi'r datblygiad; gellir ei ddefnyddio i adeiladu seilwaith newydd, cynyddu capasti seiliwaith presennol neu drwsio seiliwaith presennol sy'n methu. Mae Deddf Cynllunio 2008 yn rhoi diffiniad bras o'r seilwaith sy'n dod dan y cynllun hwn, gan gynnwys trafnidiaeth, amddiffynfeydd llifogydd, ysgolion, ysbytai a pharciau.
Mater i'r cyngor bwrdeistref perthnasol yw penderfynu rhoi cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd ar yr atodlen codi tâl. Dylai cynghorau ystyried ei gynnwys lle mae'n berthasol i sicrhau datblygiad yn y dyfodol. Ni ellir rhoi cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd sydd ond yn effeithio dabtlygiad presennol ar yr atodlen codi tâl.

8.5.3 Cyllid trwy'r Undeb Ewropeaudd

Mae cyllid Undeb Ewrpoeaidd ar gael trwy gynllun Interreg. Bydd y cynllun yn caniatáu i waith mawr fynd rhagddo a bydd yn galluogi darparu tir ar gyfer y datblygiad. Gan fod cynlluniau rheoli dŵr wyneb yn cael eu creu ar draws ardal yr astudiaeth, bydd cynigion opsiynau o'r adroddiadau hyn yn cael eu defnyddio i fwydo gwybodaeth i gynigion yn y dyfodol i'r CDRhE.

Cyllid preifat

8.5.4 Cyllid Adran 106 – Cyfraniadau gan Ddatblygwyr

Mae Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Tref 1990 yn caniatáu i Awdurdod Cynllunio Lleol, megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, wneud cytundeb gyda pherchennog tir neu ddatblygwr mewn cysylltiad â rhoi caniatâd cynllunio. Defnyddir cytundeb Adran 106 i ddelio gyda materion sy'n angenrheidiol i wneud datblygiad yn dderbyniol, megis cefnogi darpariaeth gwasanaethau a seilwaith.
Un o'r argymhellion yn 'Making Space for Water' oedd y dylai Awdurdod Cynllunio Lleol wneud mwy o ddefnydd o gytundebau Adran 106 i sicrhau bod polisi cynllunio cryf i reoli perygl llifogydd. Mae hyn yn golygu y dylid datrys unrhyw berygl llifogydd a achosir

gan, neu a gynyddir gan ddatblygiad newydd gan y datblygwr, a'i ariannu gan y datblygwr.

8.5.5 Cyllid Cwmnïau Dŵr

Mae cwmnïau dŵr yn buddsoddi arian mewn cynlluniau lliniaru llifogydd fel rhan o'u dyletswyddau i symud eiddo o'r gofrestr DGO5. Weithiau, y ffordd mwyaf effeithiol o wneud hyn yw gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau rheoli perygl ar gynlluniau lliniaru llifogydd mewn ardaloedd erall a all leihau'r pwysau ar ddŵr wyneb i lawr yr afon.

Mae cwmnïau dŵr yn medru codi arian ar gyfer cynlluniau lliniaru llifogydd trwy'r prisiau maent yn eu codi ar eu cwsmeriaid. Fodd bynnag, mae'r prisiau hyn yn cael eu rheoleiddio'n llym gan OFWAT. Wrth benderfynu ar brisiau mae OFWAT yn penderfynu faint y caiff cwmnïau dŵr ei godi ar eu cwsmeriaid i:

1. ariannu ei wariant o ddydd i ddydd
2. ariannu ei raglen buddsoddiad cyfalaf
3. gwobrwyo perfformiad yn y cyfnod 5 mlynedd blaenorol
4. parhau i ariannu buddsoddiad cyfalaf blaenorol trwy'r hyn y mae'r cwmni yn ei ennill ar ei werth cyfalaf rheoleiddiol (RCV)
5. talu'r trethi y mae'n gyfrifol amdanynt.

8.5.6 Codi arian yn lleol

Yn ychwanegol i gyfraniadau gan ddatblygwyr, bydd mecanwaith codi arian pwysig arall yn dod o godi arian yn lleol, gan gymunedau a busnesau lleol a fydd yn elwa o'r Cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd arfaethedig. Gall codi arian ymddangos yn dasg anodd, ond y lle cyntaf i ddechrau yw gyda pwy bynnag sy'n debygol o fanteisio ar y prosiect. Mae rhai enghreifftiau o lwyddiant yn cynnwys:

8.5.7 Ffynonellau ariannu eraill

Mewn ardaloedd sy'n debygol o ddioddef llifogydd, lle mae cynlluniau lliniaru posibl wedi eu hadnabod, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cysylltu gyda'r Ffederasiwn Busnesau Bach lleol i gynorthwyo gyda chael arian i gefnogi prosiectau. Tra nad oes gan y Ffederasiwn gyllideb arwyddocaol, gellir defnyddio ei chefnogaeth i gael cymorth gan fusnesau llel.
Mae DEFRA ar hyn o bryd yn cynhyrchu canllaw arferion da i gefnogi ALILIA o'r enw 'Solutions for joint funding of surface water schemes'. Bydd y prosiect hwn yn esbonio'r mecanweithiau ariannu a'r amserlenni, prosesau cymeradwyo partneriaid allweddol a manteision cyllid ar y cyd ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol.

## 9. Asesu'r perygl llifogydd lleol i ddibenion y strategaeth

9.1 Mae'r ARhPLl, a gwblhawyd gan CBST, sy'n ofynnol dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009, wedi ei ddefnyddio ar gyfer datblygu'r Strategaeth Leol hon. Mae adnabod yr ardaloedd a allai ddioddef llifogydd ac asesu'r perygl hwnnw wedi ei ddefnyddio i benderfynu pa archwiliadau neu astudiaethau eraill sydd eu hangen.

9.2 Lle mae ardaloedd sydd wedi eu hadnabod fel rhai mewn perygl arwydddocaol (fel y diffinnir gan Lywodraeth Cymru) bydd ALlLlA yn cwblhau dadansoddiad penodol pellach ar yr ardaloedd hyn, gan ddarparu Mapiau Perygl Llifogydd a Risg Lifogydd erbyn 2013 a chynllun rheoli llawn ar gyfer yr ardaloedd perthnasol erbyn Mehefin 2015.

Er nad yw'r ardaloedd perygl llifogydd arwyddocaol a'r dadansoddiad pellach yn mynd ar draws ardal gyfan ALlLlA, mae'r wybodaeth hon wedi ei hystyried a'i thrafod yn y Strategaeth Leol hon.

9.3 Fel rhan o'r ymarfer ARhPLl, bydd CBST, gan ddefnyddio eu cofnodion eu hunain a chysylltu ag Awdurdodau Rheoli Perygl eraill, wedi casglu ynghyd adnoddau gwybodaeth sylweddol yn ymwneud â llifogydd hanesyddol. Gyda'r cyfrifoldebau newydd a roddir dan y Ddeddf i'r ALlLlA archwilio holl achosion o lifogydd, disgwylir y bydd yr adnoddau yn cynyddu ac felly maent wedi eu hystyried gan CBST i fwydo gwybodaeth i'w asesiad o'r perygl lifogydd lleol.

9.4 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu nifer o fapiau llifogydd dŵr wyneb, sydd ar gael o'u gwefan lawrlwytho data 'DataShare', a all fod yn fuddiol iawn wrth ystyried yr ardal. Mae rhestr o'r holl setiau data sydd ar gael ar wefan DataShare, ym mis Medi 2011, wedi ei darparu yn Ychwanegiad D.

Mae Data Share yn caniatáu i ddefnyddwyr weld a lawrlwytho data sydd ar gael mewn nifer o fformatau electronig gwahanol (megis fformat data GIS). Mae'r data yn berthnasol i ardal sydd o ddiddordeb i'r defnyddiwr, megis ardal weithredol Awdurdod Lleol. Rhaid defnyddio'r data dan y drwydded a roddir gyda'r data sy'n cael ei lawrlwytho.

Mae'r data ar DataShare yn cael ei ddiweddaru fel y bo angen i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael. Er enghraifft, mae data Flood Map, Historic Flood Map a Main River yn cael ei ddiweddaru bob chwarter ac mae defnyddwyr yn cael ebost i gadarnhau bod y data wedi ei adnewyddu.

Nodir isod restr o'r mapiau a'r data arall a ddefnyddiwyd gan CBST wrth baratoi'r ARhPLl a'r Strategaeth Leol hon:

| | Data | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru – Cymru | Ardaloedd sy'n Dueddol o Ddioddef Llifogydd Dŵr Wyneb | Mapiau cenedlaethol cenhedlaeth gyntaf, amlinellu ardaloedd mewn perygl o ddioddef llifogydd dŵr wyneb gyda thri band – llai, canolig a mwy |
| | Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb | Mapiau llifogydd dŵr wyneb cenedlaethol ail genhedlaeth sy'n cynnwys 2 set o ddata – 1 mewn 30 ac 1 mewn 200 o flynyddoedd ar gyfer digwyddiadau glawiad gyda dau fand ar gyfer pob un – mwy na 0.1m a mwy na 0.3m |
| | Parthau Llifogydd | Mapiau yn dangos parthau llifogydd 2 a 3 |
| | Ardaloedd sy'n dueddol o ddioddef Llifogydd Dŵr Daear | Mapiau graddfa fras yn dangos ardaloedd sy'n dueddol o ddioddef llifogydd dŵr daear |
| | Map Llifogydd Hanesyddol 22 | Dangos ardaloedd lle bu ardaloedd llifogydd yn y gorffennol |
| | Set data Derbynnydd Cenedlaethol | Mae'r set data hon yn rhoi manylion derbynwyr cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gan gynnwys eiddo preswyl, ysgolion, ysbytai, ac is-orsafoedd trydan |
| | Sgwâr Glas AAC | Sgwariau y mae AAC wedi eu hadnabod fel rhai sy'n dueddol o ddioddef llifogydd gyda chanlyniadau arwyddocaol |
| | Ardal Ddangosol Perygl Llifogydd | Ardal perygl llifogydd a adnabuwyd yn genedlaethol yn seiliedig ar ddogfennau DEFRA |
| | Rhwydwaith afonydd | Map o'r prif afonydd |
| | Amddiffynfeydd llifogydd | Lleoliad amddiffynfeydd llifogydd presennol a'r tir a warchodir |
| | Llifogydd Carthffosydd Hanesyddol | Lleoliad digwyddiadau llifogydd carthffosydd budr |
| | Llifogydd Dŵr Wyneb Hanesyddol | Lleoliad achosion o lifogydd dŵr wyneb |
| | Diwylliannol | Map graddfa fras o adeiladau rhestredig a henebion rhestredig mewn perygl o ddioddef llifogydd |
| | Amgylcheddol | Mapiau graddfa fras safleoedd PPC gyda'r posibilrwydd o berygl llifogydd |
| | Tirlenwi hanesyddol | Ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer tirlenwi |
| Cyfleustodau | Cofrestr DG5 Dŵr Cymru | Achosion o lifogydd mewn eiddo a llifogydd allanol difrifol |
| | Gwasanaethau Dŵr Cymru | Lleoliadau gorsafoedd pwmpio, cronfeydd gwasanaeth a gwaith trin |
| | Western Power | Lleoliad is-orsafoedd |
| | British Telecom | Lleoliadau cyfnewidfeydd ffôn |
| Gwasanaethau Argyfwng | Gwasanaeth Tân | Achosion o lifogydd |
| | Yr Heddlu | Achosion o lifogydd |
| B Sirol Torfaen | Rheolwr Asedau Priffyrdd | Achosion o lifogydd mewn eiddo<br>Ardaloedd o lifogydd hanesyddol |
| | Adran Adfywio – diwylliannol | Adeiladau rhestredig, henebion rhestredig |
| | Adran Gynllunio – amgylcheddol | SDdGA, gwarchodfa natur, SCNP, tirwedd o ddiddordeb hanesyddol |
| | Adran TG – GIS | Cyfuchlin bob 5m |
| | Adran Cynllunio ar gyfer Argyfwng | Achosion o lifogydd mewn eiddo |

9.5 I benderfynu ar arwyddocad llifogydd unigol, mae gan DEFRA/LICC/AAC ddangosydd perygl llifogydd allweddol sy'n diffinio Ardal Perygl Llifogydd yng Nghymru lle mae 5,000 o bobl neu fwy mewn perygl neu 1km sgwâr unigol lle mae o leiaf 200 o bobl neu 20 busnes neu fwy nag 1 gwasanaeth critigol mewn perygl o gael llifogydd i ddyfnder o 0.3 medr a mwy gan lawiad gyda siawns i 1 mewn 200 yn digwydd mewn unrhyw flwyddyn.

Mae CBST fel yr ALlLlA wedi pennu dangosydd perygl llifogydd allweddol o bobl mewn perygl ar drothwy (yn cyfateb i 85 eiddo) i benderfynu os yw lifogydd o arwyddocad lleol.

Mae llif o'r maint hwn o leiaf un lefel o ganlyniad i lawr o'r trothwy cenedlaethol ond mae'n cynrychioli llif o faint sylweddol o hyd. Gallai llif o'r fath ddigwydd mewn ardal leol ddwys iawn megis 1km sgwâr neu drwy'r fwrdeistref gyfan mewn glawiad llai dwys.

Mae'r data sydd ar gael wedi ei ddadansoddi i roddi nifer yr eiddo wedi eu gorlifo ym mhob digwyddiad ac nid oes cofnodion o lifogydd sydd wedi effeithio 85 neu fwy eiddo preswyl. Ac felly nid oes llifogydd wedi eu cofnodi o ganlyniad i'r broses hon.

Mae un llif wedi ei gofnodi fel un arwyddocaol yn lleol yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Adnabuwyd hwn mewn adroddiadau a baratowyd ar ôl y lifogydd, a digwyddodd ym 1989 ym Mhonthir.

9.6 Nid oes gan CBST wybodaeth ar gael ar hyn o bryd ar lifogydd i'r dyfodol ar wahân i'r hyn a ddarperir gan AAC. Bwriad CBST oedd ymgymryd â gwaith modelu electronig yn yr Ardal Perygl Llifogydd a chan gynnwys holl ardaloedd eraill mewn perygl o ddioddef llifogydd yn y Fwrdeistref, fel rhan o baratoi Mapiau Perygl Llifogydd a Risg Llifogydd a'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Lleol ar gyfer y fwrdeistref.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynhyrchu dwy set o fapiau llifogydd yn rhoi asesiad o'r perygl llifogydd ar gyfer Cymru a Lloegr gyfan. Mae'r mapiau cenedlaeth gyntaf, y cyfeirir atynt fel Ardaloedd sy'n Dueddol o Ddioddef Llifogydd Dŵr Wyneb yn cynnwys tair lefel o fandiau gyda siawns 1 mewn 200 o ddigwydd. Paratowyd ail genhedlaeth o fapiau ers hynny a'u cyhoeddi gan AAC, a chyfeirir atnynt fel Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb. Mae'r model diwygiedig hwn yn cynnwys dau lif 1) 1 siawns mewn 30 a 2) 1 siawns mewn 200 o ddigwydd mewn blwyddyn. Is-rennir pob set o ddata ymhellach i roddi'r ardaloedd sy'n debygol o gael eu gorlifo i ddyfnder o fwy na 0.1m a mwy na 0.3m.

Mae AAC wedi ymgymryd â gwiriadau dilysu ar y ddwy system fapio ac ar gyfer y math o dir yn ardal CBST, sydd yn bennaf yn fryniau serth. Ystyrir mai'r Mapiau Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb yw'r rhai mwyaf priodol i'w defnyddio ar gyfer yr ARhPLl hwn.

Ar hyn o bryd, nid oes gan CBST fanylion gallu'r draeniau lleol ond caiff yr wybodaeth hon ei chyfrifo fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y Mapiau Peryglon Llifogydd a Risg Lifogydd a'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd.

Gan nad oes gwybodaeth arall ar gael, mae'r ail genhedlaeth o fapiau a baratowyd ac a gyhoeddwyd gan AAC, a elwir yn Fap Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb, wedi eu derbyn fel yr wybodaeth a gytunir yn lleol ar gyfer dŵr wyneb.

9.7 Er mwyn sicrhau cysondeb agwedd, mae DEFRA a LlCC wedi adnabod nifer o ddangosyddion perygl allweddol a'r trothwy i sefydlu presenoldeb Ardaloedd Perygl Llifogydd dangosol o arwyddocad.

Mae'r fethodoleg yn seiliedig ar ddefnyddio'r mapiau llifogydd a gynhyrchwyd gan AAC i adnabod sgwariau 1km lle mae'r perygl llifogydd yn fwy na throthwy a ddiffiniwyd. Gelwir y sgwariau hyn yn Ardaloedd Uwchben Trothwy Perygl Llifogydd (Sgwariau Gleision). Y dangosyddion perygl llifogydd allweddol a'u trothwy yw:

1 o leiaf 200 o bobl
2 o leiaf 20 busnes
3 2 wasanaeth critigol neu fwy

Mae AAC wedi adnabod 20 sgwâr glas yn ardal CBST sy'n Ardaloedd Uwchben y Trothwy Perygl Llifogydd.

Mae clwstwr o'r sgwariau gleision hyn yn awgrymu bod ardal o berygl llifogydd crynodedig wedi ei hadnabod. Pan fo pedwar sgwâr neu fwy yn cyffwrdd mewn ardal 3km x 3km ystyriwyd bod y sgwâr 3km x 3km cyfan yn ardal a allai ffurfio rhan o Ardal Perygl Llifogydd ddangosol.

Y dangosydd perygl allweddol ar gyfer sefydlu Ardal Perygl Lifogydd ddangosol yw nifer y bobl sydd mewn perygl o gael eu heffeithio gan lifogydd. Os oes o leiaf 5,000 o bobl mewn cyfres o gridiau 3km x 3km cysylltiedig, fel y nodwyd uchod, yna mae Ardal o Berygl Llifogydd ddangosol wedi ei sefydlu.

9.8 Mae cyfanswm o 30 o sgwariau gleision wedi eu hadnabod gan CBST a chan ddefnyddio'r fethodoleg uchod, mae 27 o'r sgwariau hyn wedi eu cynnwys mewn Ardal Perygl Llifogydd o 63km$^2$

Gweler Ffigwr 1 Ardal Perygl Llifogydd a Sgwariau Gleision CBST

Mae'r Dangosyddion Perygl Llifogydd Allweddol ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd CBST wedi eu cyfrifo fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Canlyniadau i iechyd dynol –<br>Nifer o bobl (lluosydd 2.23) | 7,542 |
| 2 | Canlyiadau eraill i iechyd dynol -<br>Nifer o wasanaethau critogol wedi eu gorlifo | 40 |
| 3 | Canlyniadau economaidd – nifer<br>eiddo amhreswyl wedi eu gorlifo | 852 |

Fel rhan o'r SPLlLl hon mae'r ardal perygl llifogydd gyfan wedi ei hystyried.

9.9 Bydd rhestr o'r holl sgwariau gleision yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cael ei llunio gan ddefnyddio'r paramedrau a nodir isod, a bydd wedyn yn ffurfio man cychwyn y strategaeth hon.

Caiff y sgwariau gleision eu rhoi mewn trefn yn unol â'r perygl llifogydd. Mae'r cyfrifo wedi ei wneud yn seiliedig ar feini prawf a roddwyd yn y Canllawiau ARhPLl, fel y nodwyd yn 9.7 uchod.

Mae un pwynt wedi ei ddyrannu i bob person a effeithir, 10 pwynt ar gyfer busnes a 100 pwynt ar gyfer gwasanaeth critigol. Mae hyn yn rhoi nifer y pwyntiau uwchben y trothwy ar gyfer sefydlu perygl arwyddocaol o 200 yn y tri achos ar gyfer unrhyw grid 1km sgwâr.

Defnyddir y system flaenoriaethu hon er mwyn sefydlu'r drefn ar gyfer astudio ardaloedd yn fanwl ar gyfer datblygu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd. Gall y drefn hon newid wrth i ni gael mwy o wybodaeth o'r gwaith modelu dŵr wyneb a pharatoi Mapiau Perygl a Risg.

Wrth i'r cynlluniau perygl llifogydd gael eu paratoi efallai y bydd yn briodol grwpio nifer o sgwariau gleision gyda'i gilydd pan fyddant yn yr un ddalgylch neu gymuned.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

"SGWAR GLAS" – Yn nhrefn Perygl Lifogydd a Gyfrifwyd
(i'w gwblhau ar ôl cynhyrchu Mapiau Perygl a Risg Llifogydd)

| | | |
|---|---|---|
| Gradd pwynt perygl i bobl | 1 | fesul person |
| Gradd pwynt perygl i wasanaethau critogol | 100 | fesul uned |
| Gradd pwynt perygl i fusnesau | 10 | fesul uned |

| | Grid sgwâr | Nifer o bobl | Nifer o Wasanaethau Critigol | Nifer o Eiddo Amhreswyl | Lleoliad | Ardal Perygl Llifogydd Ddangosol | Perygl we ei Flaenoriae |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

## 10. Sut a phryd y bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu

10.1 Bydd y Strategaeth Genedlaethol yn cael ei hadolygu'n ffurfiol bob chwe blynedd, yn adlewyrchu gofynion Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009. Bydd hyn yn galluogi i Lywodraeth Cymru ystyried yr wybodaeth sy'n cael ei chynhyrchu o'r ymarferion mapio a chynllunio y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ALlLlA yn eu cwblhau.

Bydd yr wybodaeth hon yn parhau i fwydo datblygiad Strategaethau Lleol yn barhaus ac felly ymddengys yn rhesymegol bod y Strategaeth Leol yn adlewyrchu'r cylch chwe blynedd hon.

Fodd bynnag, dylai Strategaethau Lleol gael eu gwella trwy'r amser ac nid eu cwblhau fel ymarfer unwaith ac am byth. Dylid cael adolygiadau rheolaidd i ganiatáu mabwysiadu agwedd amgen gyda'r holl ddata perthnasol yn cael ei gymryd i ystyriaeth.

Mae CBST felly wedi penderfynu y bydd y strategaeth hon yn cael ei hadolygu bob 6 mlynedd, gyda'r adolygiad cyntaf ym mis Ionawr 2019.

## 11. Sut mae'r strategaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach

Rhaid i bob ALlLlA ystyried sut mae eu Strategaeth Leol yn cyfrannu i gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach. Cofnodir isod sut mae rhai wedi eu hystyried o fewn y Strategaeth Genedlaethol, gyda'r polisi, rheoliadau a deddfwriaeth berthnasol yn cael eu nodi yn Ychwanegiad E.

11.1 Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD) a'r Strategaeth Genedlaethol, bydd ystyried datblygiad cynaliadwy a gweithio gyda phrosesau naturiol i ddarparu atebion i beryglon llifogydd yn helpu lliniaru effeithiau ar fioamrywiaeth. Gall mesurau rheoli perygl fod o fudd arwyddocaol i fioamrywiaeth wrth warchod safleoedd a ddynodwyd a chyfrannu tuag at wella a chynnal y rhain mewn cyflwr ffafriol. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn annog darparu gwellianau bioamrywiaeth a lleihau unrhyw effeithiai andwyol ac felly rhaid hefyd eu hystyried gyda'r Strategaeth Leol.

11.2 Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu bod y Strategaeth Genedlaethol angen Asesiad Amgylcheddol Strategol. O ystyried natur, cynnwys a'r gofyniad cyfreithiol i gyhoeddi Strategaeth Leol, rydym yn rhagweld y bydd angen hefyd i'r ALlLlA ymgymryd ag AAS.

Mae'n ofyniad cyfreithiol yn y DU i rai cynlluniau a rhaglenni, dan y Gyfarwyddeb AAS (2001/42/EC), ymgymryd ag Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Gweithredir y Gyfarwyddeb AAS yng Nghymru gan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.

Pwrpas Asesiad Amgylcheddol Strategol yw rhoi lefel uchel o amddiffyniad i'r amgylchedd, trwy sicrhau integreiddio ystyriaethau amgylcheddol wrth baratoi'r Strategaeth Leol a chyfrannu tuag at hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ac amddiffyniad amgylcheddol.

Bydd yr adroddiad amgylcheddol a gynhyrchir o ganlyniad yn manylu darganfyddiadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, gan roddi disgrifiad o'r broses a ddilynwyd a'r penderfyniadau a gymerwyd; yr ystyriaeth a roddwyd i bolisïau a deddfwriaeth arall y dylid eu cymryd i ystyriaeth; adnabod materion amgylcheddol allweddol a thueddiadau i ddarparu cyd-destun ar gyfer y Strategaeth Leol. Dylai nodi'n glir asesiad o effeithiau'r Strategaeth Leol ynghyd â mesurau lliniaru a gwella perthnasol, a dylai gynnwys cynigion ar gyfer monitro

a defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio i ddatblygu'r Strategaeth Leol a dylanwadu ar adolygiadau yn y dyfodol.

Mae canllaw o'r enw "*A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive"* ar gael sy'n rhoi gwybodaeth ar sut dylid ymgymryd ag Asesiad Amgylcheddol Strategol. Nodwch bod y ddogfen hon wedi ei chyhoeddi yn wreiddiol gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM), a newidiodd wedyn yn Swyddfa Cymunedau a Llywodraeth Leol (CLG), ac felly mae unrhyw gyfeiriad at ODPM yn y testun nawr yn cyfeirio at y CLG.

11.3 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi penderfynu bod angen ymgymryd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ar gyfer y Strategaeth Genedlaethol. O ystyried natur, cynnwys a'r gofyniad cyfreithiol i gynhyrchu Strategaeth Leol, efallai hefyd y bydd angen i'r ALlLlA ymgymryd ag ARhC ar gyfer ei Strategaeth Leol.

Yng Nghymru, mae'r Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (OS 490, 2010), a elwir yn aml yn 'Reoliadau Cynefinoedd', yn gweithredu 'Cyfarwyddeb Cynefinoedd' yr UE (Cyfarwyddeb 92/43/EEC) ar warchod cynefinoedd naturiol a fflora a ffawna a rhai elfennau o'r 'Gyfarwyddeb Adar' (2009/147/EC). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn darparu'r fframwaith cyfreithiiol ar gyfer gwafchod cynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd

Dan Reoliad 9(5) y Rheoliadu Cynefinoedd, mae angen i awdurdod cymwys ystyried gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd wrth ymarfer unrhyw un o'i swyddogaethau. Mae Erthygl 6(3) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn diffinio'r gofynion ar gyfer asesu cynlluniau a phrosiectau a all effeithio safleoedd Ewropeaidd.

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod cednedlaethol cymwys, cyn penderfynu ymgymryd â, neu roddi unrhyw ganiatâd neu awdurdod arall i gynllun neu brosiect, sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd, ac nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig gyda neu'n angenrheidiol ar gyfer rheoli'r safle hwnnw, wneud Asesiad Priodol o'r goblygiadau i'r safle hwnnw yng ngoleuni amcanion cadwraeth y safle hwnnw.

Mae canliawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a chanllawiau ar y Rheoliadau Cynefinoedd yn nodi nifer o gamau wrth ymgymryd ag asesiadau sy'n ofynnol dan Erthygl 6(3) a (4) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae'r diagram, Ffigwr 3 dros y ddalen, yn rhoi trosolwg o'r broses ARhC i bob ALlLlA ei hystyried wrth ddatblygu ei Strategaeth Leol.

Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, ARhC a'r dogfennau cysylltiedig sy'n ymwneud â'r Strategaeth Genedlaethol ar gael ar Wefan Llywodraeth Cymru .

## 11.4 Gwaith Partneriaeth

Mae gwaith partneriaeth a chydweithio yn rhan annatod o reoli perygl llifogydd ac fe'i adlewyrchir yn y ddyletswydd i gydweithredu o fewn y Ddeddf.

Anogir cysylltiadau cryfach gyda grwpiau cymunedol lleol, gan alluogi i wybodaeth arbenigol leol gynorthwyo wrth adnabod y peryglon a sut i'w lliniaru neu eu datrys.

Yn 2007, wrth gydabod yr angen i newid sut roedd peryglon llifogydd yn cael eu rheoli, defnyddiodd Llywodraeth Cymru egwyddorion y rhaglen Dulliau Newydd (RhDN) mewn tair astudiaeth beilot a oedd yn cael eu cynorthwyo ar y pryd. Nod pennaf y fenter RhDN oedd hwyluso'r angen gofynnol wrth reoli llifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru, gan symud i ffwrdd o agweddau'r gorffennol a oedd yn canolbwyntio ar amddiffyn, i agwedd rheoli risg mwy cyfannol.

Roedd y dair astudiaeth beilot yn y Barri, yn canolbwyntio ar y llifogydd a gafwyd yn Nalgylch Coldbrook yn 2007, Prestatyn, a oedd yn canolbwyntio ar lifogydd 2007, a Phwllheli a oedd yn ystyried cyfuniad o faterion, gan gynnwys lllifogydd arfordirol a mewndirol a phroblemau draenio. Defnyddiwyd egwyddorion RhDN er mwyn sicrhau bod yr astudiaethau Iechyd a Diogelwch yn unig yn ystyried y mesurau  a oedd yn ymwneud ag amddiffyn yn erbyn peryglon llifogydd ac erydu arfordirol, ond hefyd yn rheoli'r achosion, yn cynyddu ymwybyddiaeth yn y gymuned leol, yn rhoi cymorth argyfwng a gwella gwytnwch cymunedol a seilwaith yn erbyn y peryglon hynny.

Ymgymerwyd â thri arolwg ar wahân i ddysgu o'r agwedd newydd hon a chafwyd adroddiad ar bob un, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Awgrymodd yr adborth i'r cynrychiolwyr ar yr astudiaethau bod manteision cryf o fabwysiadu agwedd bartneriaeth i reoli peryglon llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru, a bod y rhain yn cael eu gwella ymhellach pan fydd cymunedau yn chwarae rhan lawn yn y broses. Awgrymwyd hefyd, tra nad oedd datblygu grwpiau partneriaeth heb ei anawsterau, bod y manteision yn fwy na'r anfanteision ym mhob ardal.

Ddiwedd 2010, comisiynodd Llywodraeth Cymru arfarniad ffurfiol o weithgareddau rheoli perygl llifogydd y dair astudiaeth beilot 'Rhaglen Dulliau Newydd' a sampl o'r rhaglen gyfalaf Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Ffurfiodd yr arfarniad hwn sylfaen pecyn Rheoli Perygl Llifogydd, gyda'r nod o roddi canllawiau ar sut y gall Awdurdodau perygl llifogydd gysylltu'n effeithiol gyda chymunedau i gynyddu ymwybyddiaeth o lifogydd. Mae'r pecyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Pwrpas y 'pecyn' yw rhoi canllawiau y gellir ei ddefnyddio gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn cysylltu gyda chymunedau ar eu peryglon llifogydd. Mae wedi ei ddylunio i gynorthwyo'r sawl sy'n gyfrifol am gynlluniau rheoli perygl llifogydd neu rai sy'n chwarae rhan mewn gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ehangach, ac mae'n rhoi cyfarwyddiadau ar sut i ystyried ymgysylltiad cymunedol a gwaith partneriaeth. Mae'n seiliedig ar werthusiad o effeithiolrwydd cynlluniau diweddar, gan gynnwys y tair astudiaeth beilot ar liniaru lifogydd sydd wedi eu gweithredu ym Mhrestatyn, y Barri a Phwllheli, a sampl o Gynlluniau a ariannwyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Mae'n rhoi canllawiau arferion da, sydd wedi dod o'r profiadau hynny.

Bydd gweithio gyda chymunedau wrth reoli perygl llifogydd yn helpu:

1 Deall anghenion unigolion, cymunedau a busnesau;
2 Llunio cynlluniau, penderfyniadau a pholisïau gwell;
3 Cymunedau i ddeall beth y mae perygl llifogydd yn ei olygu iddynt hwy, gan gynnwys beth ddylent ei wneud os oes llifogydd;
4 Cymunedau i adfer yn gyflymach ar ôl llifogydd;
5 Cyflawni amcanion (gan gynnwys amserlenni);
6 Cynyddu cefnogaeth leol;
7 Cynyddu ymddiriedaeth mewn llywodraeth, a
8 Gwella enw da'r ALILlA (a phartneriaid eraill)

Mae gwybodaeth bellach ar hyn i'w gweld yn Ychwanegiad F.

Dywed Adran 13 y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 bod yn rhaid i Awdurdodau Perygl Llifogydd gydweithredu ag awdurdodau perthnasol eraill wrth ymarfer eu swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, gan alluogi rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon.

Mae hefyd yn caniatáu i Awdurdodau Perygl Llifogydd drefnu bod swyddogaeth rheoli perygl llifogydd yn cael ei wneud ar ei ran gan:

1 Awdurdod Perygl Llifogydd arall, neu
2 Awdurdod Mordwyo.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol i gynhyrchu Strategaeth Leol, gyda'r cyfrifoldeb am baratoi'r rhain yn aros gyda'r ALILlA.

Mae Adran 14 y Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, yr ALILlA, a Chyfoeth Naturiol Cymru i ofyn i berson ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â'u swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Rhaid darparu'r wybodaeth yn y cyfnod ac yn y ffurf neu'r dull a nodir yn y cais.

Mae ALlLlA yng Nghymru hefyd yn cael eu cefnogi gan ddechreuad y darpariaethau sy'n ymwneud ag Adran 15 y Ddeddf, sy'n rhoi cyfle i gyflwyno hysbysiadau gorfodi am beidio â chydymffurfio â chais am wybodaeth a wneir dan Adran 14. Rhaid i'r hysbysiadau gorfodi nodi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, dweud y gall yr awdurdod bennu cosb os na ddarperir yr wybodaeth mewn cyfnod penodol (o leiaf 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi) a dweud y gall y person wneud cyflwyniadau i'r Awdurdod ynglŷn â'r hysbysiad o fewn y cyfnod hwn.

Gall yr Awdurdod wedyn bennu cost (trwy gyfrwng hysbysiad cosb) ar unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio gyda hysbysiad gorfodi erbyn y dyddiad a bennwyd.

Rhagwelir mai'r cam olaf fyddai hyn gan fod camau eisoes yn cael eu cymryd i sefydlu dull mwy cydlynol, seiliedig ar bartneriaid, o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn treialu darparu un pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau a gwybodaeth ar berygl llifogydd, gyda golwg ar gyflwyno'r gwasanaeth ledled Cymru. Byddai hyn yn golygu bod angen i'r cyhoedd ond ffonio un rhif i adrodd am lifogydd, beth bynnag yw'r ffynhonnell neu bwy sy'n gyfrifol am y dŵr.

Gweithiodd pob ALlLlA yn agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i baratoi eu Hasesiadau Perygl Lifogydd Rhagarweiniol dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009, gan rannu gwybodaeth ac arferion gorau trwy sefydlu trefniadau partneriaeth amrhisiadwy.

Hefyd, defnyddiwyd buddsoddiad Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop mewn Rheolaeth Peryglon Lifogydd ac Erydu Arfordirol gan Lywodraeth Cymru i annog gwaith partneriaeth cadarn ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

## Ychwanegiad A – Strategaeth Genedlaethol

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu, cynnal a defnyddio strategaeth rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ar gyfer Cymru: Strategaeth Genedlaethol.

Bydd y Strategaeth Genedlaethol yn gweithredu gofynion Deddf Rheoli Lifogydd a Dŵr 2010, gan roddi fframwaith ar gyfer camau mwy penodol i'w gweithredu gan Awdurdodau Rheoli Perygl Cymru. Bydd yn creu fframwaith ar gyfer cyflenwi rheolaeth perygl llifogydd ac erydu arfordirol effeithiol yng Nghymru nawr ac i'r dyfodol.

Dan Adran 8 y Ddeddf, mae gofyn i'r Strategaeth Genedlaethol gynnwys manylion:

1. yr Awdurdodau Rheoli Perygl yng Nghymru;
2. y swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol y gellir eu defnyddio gan yr Awdurdodau hynny mewn perthynas â Chymru;
3. amcanion rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol;
4. y mesurau a gynigir i gyflawni'r amcanion hynny;
5. sut a phryd y mae'r mesurau i'w gweithredu;
6. cost a budd y mesurau hynny, a sut telir amdanynt;
7. asesu perygl llifogydd ac erydu arfordirol i ddibenion y strategaeth;
8. sut a phryd y mae'r strategaeth i'w hadolygu;
9. effaith bresennol a'r hyn a ragwelir o ran effaith newid yn yr hinsawdd ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, a
10. sut mae'r strategaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i sicrhau bod Awdurdodau Rheoli Perygl yn rheoli peryglon lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru ac yn lleihau eu heffeithiau trwy fabwysiadu amrywiaeth ehangach o ymatebion sy'n cynnwys nid yn unig amddiffynfeydd traddodiadol ac amddiffyniad rhag llifogydd ac erydu arfordirol, ond grŵp ehangach o ymyriadau a defnyddio'r amrediad llawn o becynnau rheoli perygl.

Rhaid i system rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol effeithiol ganolbwyntio ar amddiffyn pobl ac asedau allweddol a rheoli effeithiau'r perygl ar yr amgylchedd naturiol.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw datblygu system sy'n:

1. mewnosod datblygiad cynaliadwy fel yr egwyddor allweddol sy'n sylfaen i benderfyniadau ac a adlewyrchir mewn dull sy'n hyrwyddo llesiant pobl Cymru ac yn delio ag anghenion yr economi a'r amgylchedd;
2. yn canolbwyntio ar anghenion ungolion, cymunedau a busnesau, ac sy'n cydnabod bod gan grwpiau gwahanol anghenion gwahanol a gallu amrywiol i ddelio â perygl llifogydd a bod angen teilwra'r gwasanaeth a gânt yn unol â hynny;

3 hyrwyddo cydraddoldeb ac nid yw'n gwaethygu tlodi;
4 seiliedig ar ddealltwriaeth gyfannol o'r peryglon a'r canlyniadau;
5 ystyried amrediad llawn ymatebion rheoli perygl;
6 hwyluso cynllunio adnoddau tymor hir, a
7 chaniatáu blaenoriaethu buddsoddiad, adnoddau a chamau.

I gynorthwyo gyda datblygu'r system hon, mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i gyflenwi'r pedwar amcan trosfwaol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru fel a ganlyn:

1 lleihau'r effeithiau ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amglchedd rhag llifogydd ac erydu arfordirol;
2 cynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â phobl mewn ymateb i berygl llifogydd ac erydu arfordirol:
3 darparu ymateb effeithiol a chyson i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol, a
4 blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sydd fwyaf mewn perygl.

Bydd y Strategaeth Genedlaethol yn pennu'r disgwyliadau ar yr Awdurdodau Rheoi Perygl er mwyn cyflawni'r amcanion hyn.

Cwblhawyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar y Strategaeth Leol Ddrafft yn 2010 ac mae'r ymatebion a dderbyniwyd ynghyd ag *Ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus* ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ar ôl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac yng ngoleuni trafodathau dilynol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a Cadw, penderfynwyd y dylid cwblhau Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'r asesiadau, wedi eu cwblhau, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae darganfyddiadau'r asesiadau hyn wedi bwydo gwybodaeth i ddatblygu'r Strategaeth Genedlaethol gan sicrhau bod yr amgylchedd yn cael lefel uchel o amddiffyniad trwy sicrhau integreiddio ystyriaethau amgylcheddol wrth baratoi a mawysiadu'r Strategaeth Genedlaethol a chyfrannu tuag at hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ac amddiffyniad amgylcheddol.

Ychwanegiad B – Setiau data sydd ar gael ar wefan DataShare Asiantaeth yr Amgylchedd

Ym Medi 2011, roedd y setiau data canlynol ar gael i Awdurdodau Lleol ar wefan DataShare Cyfoeth Naturiol Cymru

(http://www.geostore.com/environment-agency/):

1 Ardaloedd sy’n dueddol o Ddioddef Llifogydd Dŵr Wyneb
2 Ardaoedd sy’n dueddol o Ddioddef Llifogydd Dŵr Daear
3 Rhwydwaith Afonydd Manwl
4 Parthau Llifogydd 2
5 Parthau Llifogydd 3
6 Amddiffynfeydd rhag Llifogydd
7 Ardaloedd Storio mewn Llifogydd
8 Ardaloedd sy’n elwa o Amddiffynfeydd rhag Llifogydd
9 Map Llifogydd Dŵr Wyneb 1:200 Glawiad
10 Map Llifogydd Dŵr Wyneb 1:30 Glawiad
11 Map Llifogydd Dŵr Wyneb DTM
12 Map Lifogydd Hanesyddol
13 Tirlenwi Hanesyddol
14 Set Data Derbynwyr Cenedlaethol – Pwyntiau Eiddo
15 Set Data Derbynwyr Cenedlaethol – Cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol (rhan 1)
16 Set Data Derbynwyr Cenedlaethol – Cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol (rhan 2)
17 Prif Afonydd wedi eu Selio
18 Data Dosbarthu CFfD
19 Data Asesu Perygl CFfD
20 Amcanion Amgylcheddol CFfD
21 Mesurau / Camau CFfD
22 Cyrff dŵr afonydd CFfD (River_ Waterbodies_fRBMP)
23 Dalgylchoedd Cyrff Dŵr Afonydd CFfD (River_ Water body_ Catchments_ fRBMP)
24 Ardaloedd Basnau Afonydd CFfD (RBD_fRBMP)
25 Cyrff Dŵr Llynnoedd CFfD (Lakes_fRBMP)
26 Cyrff Dŵr Arfordirol CFfD (Coastal_fRBMP)
27 Cyrff Dŵr Trosiannol (Morydol) (Transitional_fRBMP)
28 Cyrff Dŵr Daear CFfD (Groundwaters_fRBMP)
29 Rhwydwaith Monitro CFfD (Monitoring Network_fRBMP)
30 Cyrff Dŵr Artiffisial CFfD: Camlesi (AWB_Canals_fRBMP)
31 Cyrff Dŵr Artiffisial CFfD: Sianeli Trosglwyddo Dŵr Wyneb (AWB_SWT_fRBMP)
32 Ffosydd SDdGA (AWB_SSSI_Ditches_fRBMP)

## Ychwanegiad C – Polisi, Rheoliadau a Deddfwriaeth Berthnasol

### Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

1. Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD) yw'r darn mwyaf sylweddol o ddeddfwriaeth dŵr gan UE hyd yma, a'i bwriad yw gwella ac integreiddio sut mae cyrff dŵr yn cael eu rheoli ledled Ewrop. Daeth i rym ar 22 Rhagfyr 2000 ac fe'i trawsnodwyd yn gyfraith y DU yn 2003 trwy gyfrwng Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddebau Fframwaith Dŵr) (Lloegr a Chymru) 2003. Rhaid i Aelod-Wladwriaethau anelu i gyrraedd statws cemegol ac ecololeg da mewn dyfroedd mewndirol ac arfordirol erbyn 2015. Ei bwriad yw:

    1 Rhwystro dirywiad yn statws dosbarthu ecosystemau dyfrol, eu gwarchod a gwella cyflwr ecolegol dyfroedd;
    2 Anelu i gael o leiaf statws da ar gyfer holl ddyfroedd. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylid cael statws da erbyn 2021 neu 2027;
    3 Hyrwyddo defnydd dŵr fel adnawdd naturiol yn gynaliadwy;
    4 Gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar ddŵr;
    5 Lleihau'n raddol neu leihau gam wrth gam ryddhau llygrwyr unigol neu grwpiau o lygrwyr sy'n cynrychioli bygythiad arwyddocaol i'r amgylchedd ddyfrol;
    6 Lleihau'n raddol lygru dŵr daear a rhwystro neu gyfyngu mynediad llygrwyr, a
    7 Chyfrannu tuag at liniaru effeithiau llifogydd a sychder.

2. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn sefydlu dulliau newydd a gwell o amddiffyn a gwella afonydd, llynnoedd, dŵr daear, dyfroedd trosiannol (lle mae dŵr croyw a dŵr môr yn cyfarfod) a dyfroedd arfordirol. Er mwyn cyflawni hyn, yn 2009 cynhyrchodd Cyfoeth Naturiol Cymru 3 Chynllun Rheoli Basnau Afonydd yng Ngymru, yn nodi mesurau i amddiffyn a gwella amgylchedd y dŵr. Mae'r rhain yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd, ac yn cael eu hailystyried yn 2015, 2021 a 2027, i sicrhau nad yw statws y cyrff dŵr yn dirywio o'r safonau a bennwyd yn 2009 fel rhan o'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd gwreiddiol.

3. Mae'n bwysig nad yw mesurau i reoli perygl llifogydd lleol yn achosi dirywiad mewn cyrff dŵr a dylent ystyried cyfleoedd i wella cyrff dŵr ar y cyd â rheolaeth perygl llifogydd lleol.

### TAN 15 – Datblygu a pherygl llifogydd (2004)

4. Mae Nodyn Technegol 15 (TAN15) yn pennu polisi Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a pherygl llifogydd. Mae'n adnabod y dylid cymryd perygl llifogydd i ystyriaeth ym mhob cam o'r broses gynllunio. Mae'n nodi dull rhagofalol sy'n ceisio osgoi datblygu amhriodol mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd a chyfeirio datblygiad newydd i ffwrdd o'r ardaloedd lle mae'r perygl mwyaf, a ddangosir ar y Mapiau Cyngor ar Ddatblygu. Lle mae datblygiad

newydd, yn eithriadol, yn angenrheidiol mewn ardaloedd o'r fath, amcan y polisi yw lliniaru perygl llifogydd am oes y datblygiad heb gynyddu perygl llifogydd mewn man arall, gan gymryd i ystyriaeth effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008

5. Mae Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn gofyn am asesiad perygl o newid yn yr hinsawdd bob pum mlynedd ledled y DU, gyda rhaglen addasu genedlaethol ar gyfer Lloegr yn unig a materion annatganoledig a gaiff eu hadolygu bob pum mlynedd hefyd. Mae'r Ddeddf wedi rhoi pwerau i Lywodraethau Cymru a Lloegr i'w gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus a chyrff statudol megis cwmnïau dŵr yn adrodd ar sut maent yn addasu i newid yn yr hinsawdd.

Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010

6. Mae Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 yn trosi'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn gyfraith y DU. Nod y Rheoliadau yw cynnal a gwella boamrywiaeth yn y DU a ledled yr UE, trwy warchod cynefinoedd naturiol ac amddiffyn rhywogaethau blaenoriaeth a'u cynefinoedd. Mae'r gofyniad i adnabod a dynodi safleoedd o bwysigrwydd cymunedol ar gyfer math o gynefin a rhywogaeth, a elwir yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, yn agwedd benodol o'r rheoliadau. At hyn, mae'r Rheoliadau yn darparu mesurau amddiffyn penodol ar gyfer rhywogaethau sydd dan fygythiad arbennig ac yn gofyn bod asesiadau'n cael eu gwneud cyn rhoddir caniatâd ar safleoedd Ewropeaidd.

Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004

7. Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) yn troi'n gyfraith Gyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amglchedd, ac fe'i gelwir fel rheol yn Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol. Nod y Gyfarwyddeb yw darparu lefel uchel o amddiffyniad i'r amgylchedd a chyfrannu tuag at integreiddio ystyriaethau amgylcheddol wrth baratoi a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni gyda golwg ar hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Mae'r broses Asesiad Amgylcheddol Strategol yn adnabod effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol sy'n debygol o ddeillio o gynllun neu raglen a dylent ddangos sut mae canlyniadau'r asesu amglcheddol wedi eu cymryd i ystyriaeth wrth weithredu'r cynllun neu'r rhaglen. Mae canllawiau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Deddf Draenio TIr 1991

8. Mae Deddf Draenio Tir 1991 yn amlinellu dyletswyddau a phwerau i reoli draenio tir ar gyfer nifer o gyrff gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Byrddau Draenio Mewnol, Awdurdodau Leol, Awdurdodau Mordwyo a pherchnogion glannau afonydd.

Y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004)

9. Mae’r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, gyda mesurau anneddfwriaethol cysylltiedig, yn cyflwyno un fframwaith ar gyfer amddiffyniad sifil yn y Deyrnas Unedig sy’n medru delio ag amrediad llawn o heriau megis llifogydd. Caiff y Ddeddf ei rhannu yn ddwy ran sylweddol: trefniadau lleol ar gyfer amddiffyniad sifil (Rhan 1) a phwerau mewn argyfwng (Rhan 2).

Ychwanegiad D – Cyfathrebu gyda'r cyhoedd, cynyddu ymwybyddiaeth ac annog arweinyddiaeth leol

1. Gall cymunedau gynnig amrediad eang o safbwyntiau a phrofiadau mewn perthynas â llifogydd, a all fod yn amhrisiadwy wrth helpu i greu gweledigaeth ac ymateb i reoli perygl llifogydd.

2. Trwy annog eu cyfranogiad, gall Awdurdodau Lleol gyflawni darlun mwy cyflawn o berygl llifogydd a deall yn well a hyrwyddo atebion. Yn gyfnewid, mae'n ddyletswydd i bawb ddeall effeithiau a chyfyngiadau rheoli perygl llifogydd a gweithredu'n gyfrifol i helpu eu hunain ac eraill.

3. Mae sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth dda am wasanaethau rheoli perygl llifogydd yn hanfodol er mwyn meithrin ymddiriedaeth a rhoi enw da cryf i awdurdodau lleol.

4. Mae rhai cymunedau sy'n gwybod yn dda am bwysigrwydd rheoli perygl llifogydd ac wedi cymryd camau yn eu hardaloedd lleol eu hunain. Yn nodweddiadol, cymunedau yw'r rhain sydd wedi profi effeithiau llifogydd eu hunain.

5. Bydd yna bob amser rai pobl brwdfrydig mewn unrhyw gymuned sy'n awyddus i ddelio â bygythiadau llifogydd. Ond, tasg yr ALlLlA yw annog pawb arall i wneud rhywbeth. Er mwyn cael cynnydd gwirioneddol wrth leihau perygl llifogydd, bydd angen i gymunedau chwarae rhan ac mae angen gweld gweithredu ar y cyd fel rhywbeth dymunol a normal.

6. Mae ALlLlA yn hanfodol bwysig o ran arwain yn lleol. Mae cymunedau yn fwy tebygol o ymateb i arweinyddiaeth leol sy'n rhannu eu pryderon a'u buddiannau hwy. Gall arweinwyr cymunedol fod â chysylltiad uniongyrchol â phobl, deall materion lleol a sensitifrwydd a medrent gynnal gweithredu dros amser.

7. Dylid cydnabod bod angen cyfleu neges gyson wrth ymgysylltu â chymunedau. Yn yr un modd, wrth bennu lefelau gwasanaeth a safonau gwasanaeth, mae angen i bob Awdurdod Rheoli Perygl fabwysiadu amcanion cyffredinol yr ALlLlA.

8. Yr allwedd i lwyddiant fydd yr agwedd sydd gan Awdurdodau Lleol a'r dull a ddefnyddir wrth gysylltu â chymunedau, datblygu dialog ddwy ffordd, gan gydnabod bod barn pobl leol yn bwysig ac y medrent ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n eu heffeithio.

9 Bydd hyn yn golygu gweithio gyda chymunedau yn gynnar yn y broses i ddeall eu pryderon, buddiannau a blaenoriaethau. Gall yr ALlLlA gymryd y penderfyniad terfynol o hyd ond byddant wedi gweithio gydag eraill wrth ddatblygu'r ateb. Trwy'r broses hon bydd

cymunedau yn deall rôl yr ALlLlA a pham y cymerwyd penoderfyniadau penodol.

10. Wrth benderfynu ar y dull gorau o gysylltu gyda'r gymuned, i ddiwallu anghenion yr ALlLlA ac anghenion y gymuned, bydd angen i chi ystyried a chytuno: beth ydych chi eisiau ei wneud?; pam ydych chi eisiau gweithio gyda'r gymuned a pham y maent eisiau gweithio gyda chi?; gyda phwy y mae angen i chi weithio?

11. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru brofiad o gysylltu gyda chymunedau ac mae ganddo Dîm Cysylltiadau Rhanddeiliaid a Chymunedol y gellir cysylltu â hwy trwy swyddfeydd rhanbarthol Cyfoeth Naturiol Cymru, a dylid cysylltu â hwy am fanylion a gwybodaeth bellach.

12. Mae pecyn Rheoli Perygl Llifogydd Llywodraeth Cymru hefyd ar gael, sy'n anelu at roddi cyfarwyddyd ar sut y gall Awdurdodau Rheoli Perygl gysylltu'n effeithiol gyda chymunedau i gynyddu ymwybyddiaeth o lifogydd. Mae'r pecyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

# Ychwanegiad E – Geirfa o Dermau a Ddefnyddir yn y Canllaw hwn

A

AAS - Asesiad Amgylcheddol Strategol – Gofyniad cyfreithiol yn y DU am gynlluniau a rhaglenni penodol fel y pennir gan Gyfarwyddeb AAS (2001/42/EC), i wneud Asesiad Amgylcheddol Strategol. Gweithredir y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yng Nghymru gan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (OS 2004 Rhif. 1656, W170). Pwrpas Asesiad Amgylcheddol Strategol yw darparu lefel uchel o amddiffyniad i'r amgylchedd, i sicrhau integreiddio ystyriaethau amgylcheddol wrth baratoi a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni, a chyfrannu i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ac amddiffyniad amgylcheddol.

ALlLlA – Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol – (Awdurdod Lleol) – y Cyngor Sir neu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol ar gyfer yr ardal.

Amddiffynfeydd – Strwythur a ddefnyddir i leihau tebygolrwydd bod dŵr llifogydd neu erydu arfordirol yn effeithio ardal arbennig.

ARhPLl – Asesiad Rhagarweiniol Perygl Llifogydd fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009.

Asesiad Perygl – Proses strwythuredig ac archwiliadwy o adnabod digwyddiadau arwyddocaol posibl, asesu eu tebygolrwydd a'u heffeithiau ac yna cyfuno'r rhain i roddi asesiad cyffredinol o berygl i fwydo gwybodaeth i benderfyniadau a chamau pellach.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) – Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (OS 490, 2010). Gelwir yn 'Reoliadau Cynefinoedd', mae'n gweithredu 'Cyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb 92/43/EEC) ar warchod cynefinoedd naturiol a fflora a ffawna) a rhai elfennau o'r 'Gyfarwyddeb Adar' (2009/147/EC). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd yng Nghymru.

Awdurdod Rheoli Perygl – Awdurdod rheoli perygl yng Nghymru a ddiffinnir yn Adran 6 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 fel Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdod rheoli llifogydd lleol, cyngor dosbarth ar gyfer ardal lle nad oes awdurdod unedol, IDB ar gyfer dosbarth draenio mewnol sy'n gyfan-gwbl neu'n rhannol yng Ngymru a chwmni dŵr sy'n ymarfer swyddogaethau mewn perthynas ag ardal yng Nghymru.

Awdurdodau Draenio – Cyrff sy'n chwarae rhan i reoli lefel y dŵr, gan gynnwys IDB, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Pwyllgor Llifogydd ac Arfordir Rhanbarthol

BDM – Bwrdd Draenio Mewnol – cyrff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am ddraenio tir mewn ardaloedd lle mae angen draenio arbennig yng Nghymru a Lloegr. Maent yn gyrff wedi eu hen sefydlu, sy'n gweithredu'n bennaf dan

Ddeddf Draenio Tir 1991 ac mae ganddynt bwerau caniataol i ymgymryd â gwaith i sicrhau rheolaeth draenio a lefelau dŵr yn eu dosbarthau.

Bil – cynnig ar gyfer cyfraith newydd, neu gynnig i newid cyfraith bresennol sy'n cael ei gyflwyno i'r Senedd ei drafod.

Bil Drafft – Bil a gaiff ei gyhoeddi fel Drafft cyn ei gyflwyno i'r Senedd.

C

Carthffos – cwndid artiffisial, fel rheol dan ddaear, i gludo carthffosiaeth (carthffos fudr)  neu ddŵr glaw (carthffos storm) neu'r ddau (carthffos gyfun).

CCGC – Cyngor Cefn Gwlad Cymru

CFfD – Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

CNC / AA– Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd – Corff Cyhoeddus a noddir gan Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol i Weinidogion Cymru a Chorff Cyhoeddus Gweithredol An-adrannol sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

CRhLlD – Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch – cynlluniau sy'n rhoi trosolwg o'r perygl llifogydd yn nalgylch pob afon a moryd. Maent yn argymell dulliau o reoli'r peryglon hynny nawr a thros y 50 – 100 mlynedd.

CRhT – Cynlluniau Rheoli'r Traethlin – Asesiad mawr o'r peryglon sy'n gysylltiedig â phrosesau arfordirol ac sy'n helpu lleihau'r peryglon hyn i bobl ac amgylcheddau datblygedig, hanesyddol a naturiol.

Cronfa – llyn artiffisial lle cesglir dŵr a'i storio nes bydd ei angen. Gellir defnyddio cronfeydd ar gyfer dyfrhau, adloniant, darparu dŵr i ddibenion dinesig, pŵer hydro-drydanol neu i reoli llif dŵr.

Cwlfert – strwythur wedi ei orchuddio o dan ffordd, arglawdd ac ati i gyfeirio llif y dŵr.

Cwmni Dŵr – cwmni sydd wedi e benodi dan Bennod 1 Rhan 2 Deddf Diwydiant Dŵr 1991 neu sydd â thrwydded dan Bennod 1A o Ra 2 i'r Ddeddf honno.

Cwrs Dŵr – Sianel, naturiol neu fel arall y mae dŵr yn llifo trwyddi.

Cwrs Dŵr Cyffredin – holl gyrsiau dŵr heb eu dynodi'n Brif Afon, ac sy'n gyfrifoldeb Awdurdodau Lleol neu, lle maent yn bodoli, Byrddau Draenio Mewnol.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) – cynrychioli buddiannau Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub, y pedwar awdurdod heddlu a'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

Cynlluniau Rheoli Perygl – amrywiol gamau i leihau amlder llifogydd a/neu ganlyniadau llifogydd i lefelau derbyniol neu a gytunwyd.

D

Dalgylch – Ardal sy'n gwasanaethu afon gyda dŵr glaw, hynny yw mae pob rhan o'r tir lle mae'r glaw yn draenio i un cwrs dŵr  yn yr un dalgylch.

Deddf – Bil a gymeradwywyd yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ac wedi ei chytuno'n ffurfiol gan y brenin neu'r frenhines sy'n teyrnasu (a elwir yn Gydsyniad Brenhinol).

Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 – Deddf Seneddol sy'n diweddaru a newid deddfwriaeth i ddelio â bygythiad llifogydd a phrinder dŵr, gyda'r ddau beth yn debygol o gynyddu gyda newid yn yr hinsawdd.

Dŵr Daear – dŵr sy'n cael ei ddal dan y ddaear yn y pridd neu mewn holltau yn y graig.

Dŵr ffo dŵr wyneb – mae hyn yn digwydd pan fydd cyfradd glawiad yn fwy na'r gyfradd y gall y dŵr fynd i mewn i'r tir neu'r pridd.

E

Erydu arfordirol – sut mae'r arfordir yn gwisgo i ffwrdd, fel rheol gan y gwynt a/neu donnau.

F

FCERM – Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

G

Gwasgu – Mewn perthynas â gwasgu arfordirol, dyma'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r hyn sy'n digwydd i gynefinoedd arfordirol sydd wedi eu dal rhwng ffin benodol ar y tir, megis morglawdd a lefelau môr sy'n codi a/neu storm  yn cryfhau. Mae'r gynefin i bob pwrpas yn cael ei 'gwasgu' rhwng y ddau rym a gall ddirywio mewn nifer a/neu ansawdd.

Gwytnwch – Gallu cymuned, gwasanaethau, ardal neu seilwaith i osgoi cael eu gorlifo, eu colli i erydiad neu i wrthsefyll canlyniadau llifogydd neu erydiad.

Ll

Llifogydd – unrhyw achos lle mae tir nad yw fel rheol dan ddŵr yn cael ei orchuddio gan ddŵr.

Llifogydd afonydd – yn digwydd pan fo lefelau dŵr mewn sianel yn mynd yn fwy na gallu'r sianel i'w ddal.

Llifogydd Arfordirol – Digwydd pan nad yw amddiffynfeydd arfordirol yn medru dal y llanw uchel a ddaroganir a all achosi llifogydd, yn bosibl pan fo llanw uchel yn cyd-daro ag ymchwydd storm (a grëir gan wyntoedd cryfion neu bwysedd atmosfferig isel iawn).

Llifogydd Dŵr Daear – Digwydd pan fo lefelau dŵr yn y ddaear yn codi uwchben yr wyneb naturiol.. Mae ardaloedd isel gyda haenau athraidd yn arbennig o agored i niwed.

Llifogydd Dŵr Wyneb – Mewn cyd-destun trefol, mae fel rheol yn golygu bod cyfraddau dŵr ffo yn fwy na gallu'r systemau draenio i'w gludo. Mewn cyd-destun gwledig, mae lle mae dŵr ffo ar yr wyneb yn gorlifo rhywbeth neu rywun.

Llinell Rhybuddio am Lifogydd – gwasanaeth am ddim sy'n rhoi rhybuddion am lifogydd i chi yn uniogyrchol dros y ffôn, ffôn symudol, ebost, neges testun SMS a ffacs.

M

Map Prif Afonydd – y map terfynol yn dangos pa gyrsiau dŵr sydd wedi eu dosbarthu fel Prif Afonydd.

Mesurau Rheoli Perygl Llifogydd – Sut mae perygl llifogydd i'w rheoli.

N

Newid yn yr Hinsawdd – newid yn amodau cyfartalog yr atmosffer ger wyneb y ddaear dros gyfnod maith o amser.

P

Perygl – mesur arwyddocad digwyddiad posibl o ran tebygolrwydd ac effaith. Yng nghyd-destun y Ddeddf Digwyddiadau Sifil Posibl 2004, mae'r digwyddiadau dan sylw yn argyfyngau.

Perygl erydu arfordirol – mesur arwyddocad erydu arfordirol posibl yn nhermau tebygolrwydd ac effaith.

Perygl llifogydd – cynnydd tebygolrwydd llifogydd yn digwydd a'r canlyniadau pan fydd llifogydd.

Perygl Llifogydd Lleol: diffinnir yn y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 fel perygl sy'n cynnwys dŵr ffo, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin.

PrhLlA – Pwyllgor Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir – Pwyllgor Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am roddi caniatâd i gynlluniau tymor canol a hir a chynlluniau gweithredol i Fwrdd a Phrif Swyddfa'r Asiantaeth. Monitro ac adrodd ar gynnydd. Yng Nghymru, dim ond un PRhLlA sydd yna, sef grŵp yr FRMW (Rheoli Perygl Llifogydd Cymru).

Prif Afon – cwrs dŵr fel un a ddangosir ar y Map Prif Afonydd ac am y rhain y mae Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldeb a phwerau.

Rh

Rheoli Perygl – unrhyw beth a wneir i ddibenion dadansoddi, asesu a lleihau perygl.

Rheoli perygl llifogydd – gweithgareddau sy'n deall tebygolrwydd a chanlyniadau llifogydd, a cheisio newid y ffactorau hyn i leihau perygl llifogydd i bobl, eiddo a'r amgylchedd. Dylai hyn gymryd i ystyriaeth ofynion rheoli lefelau dŵr eraill a gofynion amgylcheddol, a chyfleoedd a chyfyngiadau.

Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (FRMW) – Pwyllgor Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir (RFCC) ar gyfer Cymru

Rheoli peryglon erydu arfordirol – unrhyw beth a wneir i ddibenion dadansoddi, asesu a lleihau perygl erydu'r arfordir.

Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 – Rheoliadau sy'n trosi Cyfarwyddeb Llifogydd UE (Cyfarwyddeb 2007/60/EC ar asesu a rheoli perygl llifogydd) yn gyfraith ddomestig a gweithredu ei darpariaethau.

S

Strategaeth Genedlaethol – y "Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Peryglon Llifogydd ac Erydu Arfordirol: Cymru" a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r gofyniad yn Adran 8 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr.

Strategaeth Perygl Llifogydd Lleol: sydd ei hangen mewn perthynas â Chymru gan Adran 10 y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae strategaethau perygl llifogydd lleol i'w paratoi gan awdurdodau llifogydd lleol arweiniol a rhaid iddynt bennu sut byddant yn reoli perygl llifogydd lleol yn eu hardaloedd.

Swyddogaeth FCERM – ddiffiniwyd gan Adrannau 4 a 5 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 fel swyddogaeth a gaiff ei hymarfer gan awdurdod rheoli perygl i bwrpas sy'n gysylltiedig naill ai â rheoli perygl llifogydd neu erydu arfordirol.

Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) – Helpu delio gyda gormodedd o ddŵr trwy gopïo patrymau draenio naturiol.

T

TAN 15: Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Lifogydd – Mae TAN 15 yn cefnogi Polisi Cynllunio Cymru ac yn ei gwneud yn glir sut dylai awdurdodau lleol gymryd penderfyniadau ynglŷn â gwahanol fathau o ddatblygiad ar orlifdir, gan roddi profion clir o ran cyfiawnhad a derbynioldeb canlyniadau llifogydd, a galluogi ystyried peryglon dros oes y datblygiad newydd.

Atodiad 1 Rhestr o’r Dogfennau a Ystyriwyd

1 Gwybodaeth CBST

1. Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (hyd at 2021) Datganiad Ysgrifenedig Cynllun Adneuo Mawrth 2011

2. Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cynllun Datblygu Lleol Torfaen (Chwefor 2011)

3. Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (hyd at 2021), Datganiad Ysgrifenedig Cynllun Adneuo Mawrth 2011 – Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG) yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Mawrth 2010 - Atkins
Atodiadau A – K

4. Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Asesiad Lefel Eang o Berygl Llifogydd (2011)

2 Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

1 Pecyn CFMP Rheoli Tir – Datblygu pecyn meddalwedd i archwilio effaith bosibl newidiadau mewn defnydd tir gwledig a rheoli tir ar gynhyrchu llifogydd – Cyfoeth Naturiol Cymru

2 Gwella perfformiad llifogydd adeiladau newydd. Adeiladu Gwytnwch mewn Llifogydd – Mai 2007 – Consortiwm a reolir gan CIRIA – Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llunain – Cymunedau a Llywodraeth Leol, Cyfoeth Naturiol Cymru, DEFRA

3 Adroddiad Cryno Cynllun Rheoli Lifogydd Dalgylch Gwy a Brunbuga – Ionawr 2010 Rheoli Perygl Lifogydd – Cyfoeth Naturiol Cymru

4 Paratoi eich eiddo ar gyfer lifogydd – Canllaw i ddeiliaid tai a busnesau bychain – Cyfoeth Naturiol Cymru

5 Cynllun Llifogydd Personol – Cyfoeth Naturiol Cymru

6 Llifogydd o dŵr daear – Cyngor ymarferol i helpu lleihau effaith llifogydd o ddŵr daear – Cymdeithas Llywodraeth Leol – Cyfoeth Naturiol Cymru

7 Canllawiau Arfarnu Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfodir (FCERM-AG)

8 Water for life and livelihoods – Cynllun Rheoli Ardal Basn Afon Hafren – DEFRA – Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru

3 Gwybodaeth Llywodraeth Cymru

1 Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a’r Arfodir yng Nghymru – Tachwedd 2011 – Llywodraeth Cymru

2 Strategethau Rheoli Llifogydd Lleol – Strategaeth Leol – Tachwedd 2011 – Llywodraeth Cymru

3 Asesiad Amgylcheddol Strategol – Datganiad o Fanylion Amgylcheddol – Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol: Datblygu Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Cymru - Mehefin 2011 – Llywodraeth Cymru

4 Rheoli perygl llifogydd – Pecyn Ymgysylltu â’r Gymuned – Hydref 2011 – Llywodraeth Cymru

5 Addasu i Newid yn yr Hinsawdd: Canllaw ar gyfer Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordir yng Nghymru – Rhagfyr 2011 – Llywodraeth Cymru

6 Datblygiad Cynaliadwy: Canllawiau i Awdurdodau Rheoli Peryglon Adran 27 – Datblygiad Cynaliadwy - Tachwedd 2011 – Llywodraeth Cymru

7 Nodyn Cyngor Technegol Polisi Cynllunio Cymru 15 – DATBLYGU A PHERYGL LLIFOGYDD – Gorffennaf 2004 – Llywodraeth Cynulliad Cymru

8 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol: Adran Strategaeth Genedlaethol Cymru - Mehefin 2011

9 Asesiad Amgylcheddol Strategol – Adroddiad Amgylcheddol – Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol: Datblygu Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Cymru – Llywodraeth Cynulliad Cymru – 10 Mai 2011

10 Egwyddorion Cenedlaethol Cyfranogiad Cyhoeddus yng Nghymru – Participation Cymru – Llywodraeth Cymru

11 Llawlyfr ar gyfer Ymgysylltu â’r Cyhoedd - Participation Cymru – Llywodraeth Cymru – Mawrth 2012

4 Deddfwriaeth

1 Deddf Draenio Tir 1991

2 Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009

3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

5 Eraill

1 The Effects of Flooding on Mental Health – Rhagfyr 2011 – Asianaeth Gwarchod Iechyd

2 Codau ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy – Canllaw Technegol – Tachwedd 2010 – Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol

Atodiad G Ymgynghori

Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cwmni Dŵr - Dŵr Cymru – Welsh Water

CADW

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Partneriaid Risg Mewnol

Adran Gynllunio

Rheoli Argyfyngau yn Nhorfaen

Iechyd yr Amgylchedd

Partneriaid Perygl Allanol

Comisiwn Coedwigaeth

Ymgynghori Cyhoeddus
Dodwyd ein harolwg arlein ar ein gwefan ym mis Rhagfyr 2012

Gwaith Cydweithredol
Cysylltiad rheolaidd gydag awdurdodau cyffiniol

Chwarae ran ar Grŵp Tywydd Difrifol Fforwm Gwytnwch Lleol Gwent

Grŵp Cymorth

Sefydlwyd grŵp cymorth anffurfiol y mae CBST yn aelod ohono
1 Mehefin 2012 – Trafod rhaglen ar gyfer LFRMS, AAS ac ARhC